barcud



# adroddiad blynyddol

## a datganiadau ariannol

# 2023

barcud

# Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

## Y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 o Fawrth 2023


# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Barcud | 3 |
| Rhagair gan Brif Weithredwr y Grŵp a Chadeirydd Dros Dro'r Bwrdd | 4 |
| Swyddogion Gweithredol, Cyllidwyr, Ac Ati | 6 |
| Grŵp Monitro Barcud | 7 |
| Amcanion Strategol | 9 |
| Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant | 20 |
| Y Gymdeithas Gofal | 22 |
| EOM | 24 |
| Gofal a Thrwsio ym Mhowys | 26 |
| Adroddiad y Bwrdd Rheoli | 28 |
| Llywodraethiant | 32 |
| Aelodau Bwrdd Barcud | 33 |
| Gwerth Am Arian | 36 |
| Incwm a Gwariant | 38 |
| Adolygiad Ariannol a Risgiau | 39 |
| Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Barcud Cyf | 40 |
| Datganiadau Ariannol | 43 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 48 |


# Barcud

***Crëwyd drwy uniad â phrofiad sylweddol o ddarparu tai cymdeithasol ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru***

- Ffurfiwyd Barcud ym mis Tachwedd 2020 ar ôl uno Tai Ceredigion a Chymdeithas Tai Canolbarth Cymru
- Mae Barcud yn cynrychioli'r uniad cyntaf rhwng Landlord Cymdeithasol Trosglwyddiad Gwirfoddol ar Raddfa Fawr a Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol yng Nghymru, â chryfderau sy'n cyflawni ei gilydd a synergeddau
- Mae'r Grŵp yn cynnwys Gofal a Thrwsio ym Mhowys, EOM, a'r Gymdeithas Gofal
- Â 300 o weithwyr cyflogedig, rydym yn perchenogi ac yn rheoli mwy na 4,200 o gartrefi ar draws Ceredigion, Powys, Gogledd Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin
- Mae Barcud yn anelu at ddarparu 5,000 o gartrefi cynaliadwy, fforddiadwy, deiliadaeth gymysg, o safon uchel yng Nghanolbarth Cymru erbyn 2026
- Rydym yn darparu ystod eang o wasanaethau i denantiaid gan gynnwys rhent, atgyweiriadau, a chyngor ynghylch budd-daliadau lles




Mae set eglur o werthoedd yn helpu i yrru ein hamcanion strategol

- Rydym yn ymroddedig i ddarparu sylfeini cadarn ar gyfer bywyd
- Rydym yn ymfalchïo yn yr hyn a wnawn, ac yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn ei wneud yn dda
- Rydym yn parchu'r bobl yr ydym yn gweithio gyda hwy, ac yn gweithio iddynt, ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a wnânt
- Rydym yn ofalgar am ein pobl, ein cymunedau, ein diwylliant a'n planed
- Byddwn yn gweithio ar y cyd â'n cydweithwyr, ein tenantiaid, ein cymunedau a'n partneriaid i helpu'n gilydd i lwyddo

# Rhagair

## *Gan Brif Weithredwr y Grŵp a Chadeirydd Dros Dro'r Bwrdd*

Rydym yn falch o adrodd unwaith eto am flwyddyn lwydiannus i Barcud a'i is-gwmnïau, Y Gymdeithas Gofal, Gofal a Thrwsio ym Mhowys, ac EOM Cyf. Rydym wedi gwneud cynnydd mawr tuag at gyflawni ein gweledigaeth o adeiladu **sylfeini cadarn**, creu **cartrefi gwell**, a chreu **cymunedau cryfach**.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wrth inni barhau i ddarparu gwasanaethau o safon uchel ac i gefnogi ein tenantiaid mwyaf bregus a chwsmeriaid eraill, buom yn wynebu heriadau newydd a osodwyd gan yr argyfwng costau byw. Fe wnaethom ailganolbwyntio ein sylw ar ddarparu gwres fforddiadwy yng nghartrefi ein tenantiaid, a chydweithio'n agos â'n tenantiaid i fynd i'r afael â phroblemau lleithder, cyddwysiad a llwydni drwy gyflwyno polisïau a gynhwysai brosesau arolygu a mesurau lliniaru cyflym newydd.

Yn 2022/23 buddsoddodd Barcud gyfanswm o £7m i uwchraddio ein 4,248 o gartrefi presennol. Tynnwyd £28m o Grant Tai Cymdeithasol i lawr oddi wrth Lywodraeth Cymru i ddarparu ariannu cyfatebol i fenthyca Barcud i adeiladu mwy na 50 o gartrefi newydd. Fe wnaethom lwyddo unwaith eto i dynnu i lawr ac ymrwymo ar fwy o gynlluniau na'r hyn y dosrannwyd cyllid grant inni ar eu cyfer yn wreiddiol, oherwydd ein gwaith paratoi a'n parodrwydd i dderbyn unrhyw danwariant grant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a oedd ar gael o ranbarthau eraill o fewn Cymru.

Mae Bwrdd Barcud yn gwbl ymroddedig i lywodraethiant da, ac fe gawsom ein hasesiad rheoleiddiol gan Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2022 a esgorodd ar ddyfarniad cydymffurfiol am lywodraethiant a gwasanaethau i denantiaid, yn ogystal â chyllid. Yn ystod 2022/23 fe wnaethom ymgymryd ag adolygiad llawn o lywodraethiant, a arweiniodd at gynllun gwella llywodraethiant sydd bellach wedi cael ei roi ar waith. Fe wnaeth canlyniadau'r adolygiad wella effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddol ac arwain at well cyfarfodydd a pholisïau a gweithdrefnau llywodraethiant diwygiedig.

Yn ystod y flwyddyn nesaf 2023/24 byddwn yn parhau â hyfforddiant i aelodau'r Bwrdd a hefyd yn recriwtio aelodau newydd i'r Bwrdd fel rhan o'n cynllunio olyniaeth. Mae gwaith i'w wneud hefyd ar olyniaeth yn y Tîm Arweinyddol. Fe rydd hyn y sylfeini cryf i Barcud adeiladu ei gynlluniau twf uchelgeisiol arnynt ar gyfer pob rhan o'r busnes yn ystod y cyfnod nesaf o bum mlynedd.

Mae ein gweledigaeth ni ar gyfer Barcud, fel y prif grŵp tai cymunedol o fewn Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn dal i fod yn un o uchelgais: i gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy a chynaliadwy i'w rhentu a'u prynu, ar yr un pryd â meithrin cefnogaeth i aelodau bregus o'r gymuned, a chreu hyfforddiant a mentr i gynyddu cyflogaeth o fewn rhanbarth Bargen Twf Canolbarth Cymru. Mae canolfan fusnes BBaChau gwledig yng Nghreuddyn, Llanbedr Pont Steffan, wedi parhau i gael ei defnyddio'n llawn gan 18 o fusnesau BBaCh a micro-fusnesau lleol, fel rhan o adfywiad canol tref Llanbedr Pont Steffan. Bu Creuddyn yn gartref i brosiect STEP ein his-gwmni, y Gymdeithas Gofal, a gyllidwyd gan CGGC/yr UE, hyd nes iddo ddod i ben ym mis Medi 2022, ar gyfer pobl dros 25 mlwydd oed; ac yntau wedi llwyddo i helpu 76 o gyfranogwyr i dderbyn hyfforddiant a phrofiad gwaith hanfodol i fynd yn ôl i mewn i gyflogaeth. Y tu allan i oriau swyddfa, mae canolfan fusnes ac ystafelloedd cynadledda Creuddyn wedi cael eu defnyddio'n helaeth gan y gymuned leol at ddigwyddiadau cymdeithasol, hyfforddiant ac addysg lleol. Mae tîm ein his-gwmni, Gofal a Thrwsio Powys, wedi helpu 858 o bobl hŷn ac anabl i addasu ac atgyweirio eu cartrefi, a hynny'n eu galluogi i barhau i fyw'n annibynnol. Mae ein his-gwmni elusennol arall, Y Gymdeithas Gofal, wedi cefnogi 155 o unigolion a theuluoedd digartref bregus mewn llety dros dro yng Ngheredigion a Phowys a ddarparwyd o stoc dai Barcud neu mewn stoc ar brydles / dan reolaeth yn y sector rhentu preifat.

Drwy gydol 2022/23 buom yn gweithio mewn partneriaeth o hyd â'n cynrychiolwyr tenantiaid, a grwpiau gorchwyl a gorffen gweithredol ac adolygiad strategol fel ei gilydd yn cynnwys tenantiaid etholedig, a chyda chyfranogiad llawn gan aelodau o Grŵp Monitro Barcud mewn datblygu ac adolygu polisïau a chynllunio busnes blynyddol ac adolygiadau rheoli risg.

Rydym yn gweithio gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Wood Knowledge Wales fel rhan o brosiect mawr "Tir Glas" i ddod â chyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ychwanegol i dref Llanbedr Pont Steffan. Buom hefyd yn cydweithio'n agos â Chyngor Sir Powys a thîm adfywio canol trefi Llywodraeth Cymru i ddod â phrosiectau canol tref eraill yn fyw.

Hoffem achub y cyfle hwn i ddiolch i'n holl gydweithwyr ac aelodau Bwrdd am eu hymroddiad a'u hegni wrth gyflawni'r uchod i gyd mewn amgylcheddau cymdeithasol ac economaidd allanol sy'n gynyddol anodd. Diolch yn arbennig i'n Cadeirydd blaenorol, John Jenkins, am ei flynyddoedd lawer o waith gwirfoddol i Tai Ceredigion a Barcud.

Fe ymddiswyddodd John fel Cadeirydd ym mis Ionawr 2023. Bu ein cydweithwyr mewn awdurdodau lleol sy'n bartneriaid inni ac aelodau etholedig ar draws ardaloedd pedwar Cyngor Sir hefyd yn bartneriaid hanfodol bwysig wrth ein helpu ni i gyflawni canlyniadau mor dda a'u cynorthwyo hwythau i gyflawni eu dyletswyddau statudol. Mae gwaith partneriaeth a gwytnwch cymunedol wrth graidd popeth a wnawn.

Yn olaf, a ninnau'n symud i mewn i flwyddyn ariannol newydd, rydym yn falch o gyhoeddi bod Grŵp Barcud wedi penodi Cadeirydd newydd - sef Alison Thorne. Mae Alison yn dod â gwybodaeth werthfawr fel aelod Bwrdd profiadol iawn ac mae ganddi hanes eithriadol mewn swyddogaethau arweinyddol. Mae ei phersbectif amrywiol a'i meddwl strategol praff yn ei gwneud yn un ddelfrydol i arwain ein Bwrdd Cyfarwyddwyr wrth inni barhau i dyfu ac ymaddasu mewn sector sy'n newid yn gyflym.



***Steve Jones***
BA Hons FCIH Cert Mangt
Prif Weithredwr y Grŵp



***Dafydd Lewis***
Cadeirydd Dros Dro



# Swyddogion Gweithredol, Cyllidwyr, Ac Ati

## *Swyddogion Gweithredol y Grŵp*



***Steve Jones***
Prif Weithredwr y Grŵp



***Kate Curran***
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y Grŵp



***Llŷr Edwards***
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol y Grŵp



***Siân Howells***
Cyfarwyddwr Datblygu a Rheoli Asedau'r Grŵp



***Eleri Jenkins***
Cyfarwyddwr Tai a Chefnogaeth y Grŵp

## *Cyllidwyr*

**Barclays**
Windsor Court, 3 Plas Windsor, Caerdydd CF10 3BX

**Orchard Brooke**
Crown House, Crown Street, Ipswich IP1 3HS

**THFC**
17 St Swithin's Lane, Llundain EC4 8AL

**Nationwide**
Kings Park Road, Moulton Park, Northampton NN3 6NW

**GB Social Housing**
The Future Business Centre, Kings Hedges Road, Caergrawnt CB4 2HY

**BAE Systems**
14/16 Caxton Street, Llundain SW1 0QT

**abrdn**
1 George Street, Caeredin EH2 2LL

## *Archwilydd Allanol*

**Beever and Struthers**
St George's House, 215-219 Chester Road, Manceinion M15 4JE

## *Archwilwyr Mewnol*

**Astari**
Tai Cymoedd i'r Arfordir, Parc Busnes Tremains, Heol Tremains, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1TZ

## *Bancwyr*

**Barclays Bank ccc**
Sgwâr Harford, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion

Wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 â rheolau elusennol. Wedi'i gofrestru gan Lywodraeth Cymru Rhif L151



# Grŵp Monitro Barcud

## *Adroddiad y Cadeirydd*

Gan ddilyn o'n hadroddiad y llynedd, mae Grŵp Monitro Barcud (GMB) wedi parhau'n eithriadol o brysur ac rwyf am ddechrau drwy ddiolch i'r aelodau am eu hymroddiad gwirfoddol a'u hagwedd anhunanol barhaus. Rwyf hefyd am ddiolch i Dîm Barcud am ddarparu aml gyfleoedd inni gyflwyno safbwyntiau ac argymhellion y tenantiaid ar faterion sydd o bwys inni.

Fis Hydref diwethaf, cynhaliodd y Grŵp Gynhadledd Tenantiaid wyneb-yn-wyneb gyntaf Barcud yng Nghlwb Pêl-droed Aberystwyth, lle bu inni gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol a cheisio cydsyniad gan ein cyd-denantiaid i gynrychioli eu buddion am y flwyddyn i ddod. Mae'n anrhydedd inni ein bod wedi derbyn eu cydsyniad a byddwn o hyd yn gweithio gyda Thîm Barcud er lles tenantiaid a'r gymdeithas fel ei gilydd. Mae Adroddiad Blynyddol y Grŵp i'w gael ar wefan Barcud ynghyd â gwybodaeth arall amdanom.

Gan ddilyn o Gynhadledd y Tenantiaid, cynhaliodd y Grŵp ei Gyf. Cyff. Blynyddol lle cafodd swyddogion y Grŵp eu hethol. Etholwyd Vic Brown yn Is-Gadeirydd, Peter Deakin yn Drysorydd, Kelli Di Capri'n Ysgrifennydd, ac fe gefais innau f'ailethol yn Gadeirydd. Rydym am ddiolch i'r aelodau am yr ymddiriedaeth a'r hyder y maent wedi'u dangos ynom.

Ym mis Tachwedd, cynhaliodd Peter Deakin a finnau weithdy ar sut y bydd GMB yn gweithio gyda Barcud yng nghynhadledd flynyddol TPAS Cymru. Bu tenantiaid a staff tai o bob rhan o Gymru'n bresennol yn hwn ac fe gafodd dderbyniad da. Yr oedd Steve Jones, Prif Swyddog Gweithredol Grŵp Barcud, yn un o'r tri phanelwr a agorodd y Gynhadledd ac fe siaradodd am bwysigrwydd cyfranogiad tenantiaid ac fel yr oedd wedi bod o fudd i Barcud. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae TPAS Cymru wedi bod yn awyddus iawn i GMB hysbysebu ei waith gyda Barcud i'r sector dai yn ehangach, ac i denantiaid.

Felly, beth arall yr ydym wedi bod yn ei wneud? Unwaith eto, rwyf yn cael bod gennyf y gorchwyl digon llethol o orfod crynhoi gweithgareddau'r Grŵp er ein hadroddiad diwethaf, rhywbeth nad yw byth yn rhwydd. Mae GMB wedi cydnabod yr angen i ddarparu dogfen sy'n cynnwys gweithgareddau'r Grŵp, sut mae'n gweithio gyda Barcud a sut mae'n gweithredu. Rydym wedi cynhyrchu arweiniad cynhwysfawr sydd hefyd i'w gael ar wefan Barcud os ydych yn dymuno dysgu mwy amdanom.

Ym mis Mawrth fe wnaethom gynnal y cyntaf o Fforymau Cyswllt Tenantiaid y flwyddyn hon yn y Drenewydd, ac adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (Mehefin) rydym yn paratoi at ein hail Fforwm yng Nghlwb Pêl-droed Aberystwyth yn y cwpl o wythnosau nesaf. Dyma fydd y tro cyntaf i'r Grŵp estyn gwahoddiad i Gadeirydd Bwrdd Grŵp Barcud siarad. Dyma'r cyfle cyntaf a gaiff aelodau'r Grŵp a'n tenantiaid i gwrdd ag Alison Thorne, ac rydym yn ddiolchgar ei bod wedi derbyn ein gwahoddiad.

Mae cyflwyno Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016 ym mis Rhagfyr y llynedd wedi creu llwyth anferthol o waith i wahanol dimau Barcud. Heblaw am y Contract Meddiannaeth newydd, mae aelodau'r Grŵp wedi adolygu toreth o bolisïau. Yn nes ymlaen eleni fe fyddwn yn dechrau gwaith gydag aelodau o'r staff ar y fersiwn newydd o Lawlyfr y Tenantiaid i'w gysoni â'r Ddeddf newydd. Mae ymagweddiad newydd Llywodraeth Cymru at Leithder, Llwydni a Chyddwysiad (LlLlCh) hefyd wedi arwain at lawer o waith i wahanol dimau Barcud. Mae'r Grŵp wedi bod â llaw yn y Polisi newydd, wedi apelio at ein tenantiaid i roi gwybod am unrhyw achosion o LlLlCh yn eu cartrefi ac mae ganddo gynrychiolaeth ar y Grŵp Gorchwyl LlLlCh. Bydd aelodau GMB yn chwarae rhan bellach mewn monitro a chynllunio'r broses newydd hon.

Bu aelodau o'r Grŵp yn bresennol mewn nifer fawr o ddigwyddiadau TPAS Cymru gyda thenantiaid o bob rhan o Gymru. Cyfuniad yw'r digwyddiadau hyn o rwydweithio, hyfforddiant, a digwyddiadau ymgynghori ar gynigion gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Grŵp wedi cyflwyno ei ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar SATC 2023 lle gwnaethom fynegi ein pryderon ynghylch ariannu, llinellau amser, a chyflawni eu cynigion.

Mae ein hymwneud â Barcud yn eang ei gwmpas ac mae Barcud a'r Grŵp ill dau o hyd yn ehangu ar ein lefel o gyfranogiad. Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi parhau â'n gweithgareddau arferol gyda'r Timau Arweinyddol a Rheolaeth Weithredol, a Bwrdd Grŵp Barcud. Fel y nodwyd, mae rhestr gynhwysfawr o'n gweithgareddau a'n lefel o ymwneud â Barcud i'w chael yn ein harweiniad ar wefan Barcud.

Mae GMB bob amser wedi bod yn ymwybodol o bwysigrwydd clywed am brofiadau tenantiaid a sut y gallant gynorthwyo Barcud mewn gwella'r gwasanaethau a ddarpara. Hoffem ddiolch i'r Tîm Arweinyddol am fabwysiadu ein cynnig lle bydd aelodau o'r Tîm Arweinyddol yn ymweld ag ystadau ledled yr ardal weithredu gydag aelodau eraill o'r staff drwy gydol yr haf. Bydd GMB hefyd yn ehangu ar ei ddigwyddiadau ymgysylltu o fis Gorffennaf ymlaen, ac fe fyddwn yn rhoi cyfle i denantiaid sgwrsio'n anffurfiol â ni ar-lein. Rhai chwarterol fydd y digwyddiadau hyn a byddant hefyd yn galluogi tenantiaid i ddysgu rhagor am GMB a sut i ymgysylltu â ni neu'r cyfleoedd eraill sydd gan Barcud i denantiaid gael cyfranogi.

Yn olaf, hoffem ddiolch i'n cyd-denantiaid am eu cefnogaeth barhaus, ac rydym am ddiolch i staff Barcud am y ffordd gadarnhaol y maent yn hyrwyddo'r Grŵp ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda Barcud wrth iddo ddechrau ar ei bedwaredd flwyddyn o weithrediadau. Ar nodyn personol, hoffwn i ddiolch i Barcud am f'enwebu ar gyfer Gwobr "Tenant y Flwyddyn" TPAS Cymru 2022. Anrhydedd mawr oedd ennill y wobr hon a dim ond drwy ymagweddiad Barcud at wir gyfranogiad gan denantiaid y cafodd ei wneud yn bosib.

Paul Clasby,
Cadeirydd, Grŵp Monitro Barcud.

Grŵp Monitro barcud Monitoring Group



Arolygiad Ystadau yn Llanandras



Arolygiad Ystadau yn y Trallwng



# Amcan Strategol 1

***Darparu 5,000 o gartrefi cynaliadwy, fforddiadwy, deiliadaeth gymysg, o safon uchel yng Nghanolbarth Cymru erbyn 2026.***

## Llety'r Eos, Heol Dinas, Penparcau



Ein cynllun tai arloesol o 9 o fflatiau un ystafell wely a gymerodd le rhes o garegys diangen. Datblygwyd y cynllun gan ddefnyddio dulliau adeiladu modern, a hynny'n darparu adeilad tri llawr wedi'i drefnu mewn ffordd a roddai i bob fflat ei le amwynder allanol unigryw a'i fan parcio ei hun. Mae'r datblygiad yn cynnwys mannau gwefru ar gyfer ceir trydanol.

Gwresogi: Pympiau gwres ffynhonnell aer gyda system ffotofoltäig solar
Datblygwr: William Homes (Y Bala) Cyf

## Maes y Cledrau, Llansantffraid-ym-Mechain



Datblygiad o 26 o gartrefi newydd ym mhentref gwledig Llansantffraid-ym-Mechain, yn cynnwys 16 o feddiannau rhent gymdeithasol a 10 o feddiannau rhentu-i-berchnogi sydd ar gael i'w prynu. Mae'r datblygiad yn cynnwys cymysgedd o dai a byngalos 1, 2, 3 a 4 ystafell wely.

Gwresogi: Pympiau gwres ffynhonnell aer gyda system ffotofoltäig solar
Datblygwr: Pickstock Homes

## Cwrt William Ainge, Y Trallwng



Cynllun uchelgeisiol sy'n cynnwys adeiladu 15 o fflatiau PassivHaus un a dwy ystafell wely a gwaith gwella helaeth ar fflatiau a oedd eisoes yn bodoli yng Nghwrt William Ainge yn y Trallwng. Mae'r fflatiau newydd o'r safon uchaf bosib o ran effeithlonrwydd ynni. Mae'r fflatiau a oedd eisoes yn bodoli wedi cael eu trawsnewid ag ynysiad waliau allanol, ffenestri newydd, system wresogi newydd a tho newydd gyda phaneli haul ffotofoltäig.

Gwresogi: Trydanol gyda system ffotofoltäig solar
Datblygwr: Mid-Wales Property Cyf

## Maes Llanio, Blaenplwyf



Datblygiad o 3 o gartrefi ar dir gwag o fewn ystad bresennol Maes Llanio. Yn cynnwys dau dŷ 2 ystafell wely ac un 3 ystafell wely.

Gwresogi: Pympiau gwres ffynhonnell aer gyda system ffotofoltäig solar
Datblygwr: TR Jones Cyf

# Amcan Strategol 1

*parhad*

## Anheddau a Oedd Eisoes yn Bod

Prynwyd tri fflat dwy ystafell wely oddi wrth lesddeiliaid yn y flwyddyn ariannol, a'r rheini i gyd yn ardal Aberystwyth. Yn ogystal â hyn, prynwyd cymysgedd o dai dwy a thair ystafell wely oddi wrth gymdeithas gyfagos, gan gynyddu ein stoc rhent gymdeithasol o 25 o gartrefi yng Ngheredigion.


## Cydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch

Ymgymerir â rhaglen lawn o arolygu, trin a phrofi systemau gwresogi, gwifrau trydanol, asbestos, rheoli legionela ac asesiadau risgiau tân drwy gydol y flwyddyn. Yn ystod 2022/23 datblygodd y Gymdeithas bolisïau a gweithdrefnau newydd o ran lleithder, llwydni a chyddwysiad, â'r ffocws ar fod tenantiaid yn rhoi gwybod am unrhyw broblemau a oedd ganddynt yn eu cartrefi fel y gellir mynd i'r afael â hwy a chynorthwyo.

### *Yn ystod 2022/23 fe wnaeth y gymdeithas adnewyddu a/neu osod:*

| | |
|---|---|
| **Ynysiad Waliau Allanol** | **22** |
| **Gosodiadau Ffotofoltäig** | **24** |
| **Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer** | **9** |
| **Gwresogi Arall** | **57** |
| **Drysau a Ffenestri** | **81** |
| **Toeau** | **24** |
| **Ceginau** | **89** |
| **Ystafelloedd Ymolchi** | **114** |

### *Cydymffurfiaeth â Safon Ansawdd Tai Cymru Mawrth 2023*




**Cydymffurfio'n Llawn**

**Amseriad y Cywiriad**
Mae cydran yn methu â chwrdd â'r safon ond y mae wedi'i rhaglennu i'w hadnewyddu o fewn y pum mlynedd nesaf.

**Dewis y Preswylwyr**
Mae'r tenant wedi gofyn yn benodol i'r Gymdeithas beidio â newid, gwella neu adnewyddu elfen sy'n methu SATC. Dim ond lle bo perygl iechyd a diogelwch y byddem yn mynnu i'r gydran gael ei newid.

**Cyfyngiad Ffisegol**
Mae cydran yn methu oherwydd maint yr annedd neu dirwedd y tir cyfagos, e.e. cegin fach nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion o ran gofod neu storfeydd.



# Amcan Strategol 2

### *Bod yn landlord cymunedol rhagorol, sydd hefyd yn cynnig gwasanaethau cefnogaeth a gofal.*

## Gosod

Mae gosod eiddo i denant newydd yn swyddogaeth sylfaenol o ran rheoli tai ac yn achos Barcud fe gyflawnir hyn drwy Gofrestr Dai Ceredigion a Chofrestr Dai Gyffredin Powys. Bydd y ddwy gofrestr yn defnyddio eu Polisïau Dosrannu Cyffredin eu hunain. Barcud yw prif bartner y ddwy gofrestr. Roedd gosodiadau ar gyfer 2022/23 yn cynnwys:

| Categori'r Ymgeiswyr a Ailgartrefwyd | Anghenion Cyffredinol | Tai Gwar-chod | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|
| Cofrestrau Tai Cyffredin Ceredigion a Phowys | 189 | 47 | 236* |
| Lefel rhent canolradd | 5 | 0 | 5 |
| Rhentu i berchnogi | 22 | 0 | 22 |
| Rhent Farchnadol | 3 | 0 | 3 |
| Prynu eiddo â thenantiaid cyfredol | 25 | 0 | 25 |
| Digartrefedd | 61 | 0 | 61 |
| Tai â chymorth | 8 | 0 | 8 |
| Trosglwyddiadau Mewnol o fewn Barcud | 35 | 9 | 44 |
| Cydgyfnewid Tenantiaethau | 18 | 0 | 18 |
| **Cyfanswm** | **366** | **56** | **422** |

**Roedd 92 o'r gosodiadau hyn wedi'u dosbarthu fel digartref.*

O'r 422 o feddiannau a osodwyd, roedd 61 yn rhai wedi'u hadeiladu o'r newydd.


## Cymorth cynhwysiant ariannol

Mae ein tîm cynnal tenantiaethau (cynhwysiant ariannol), Cynnal, yn parhau i fwyafu incwm tenantiaid. Cyrchwyd mwy na £1.7m o 'incwm' ychwanegol i denantiaid a mwy na 4,000 o gysylltiadau wedi'u gwneud gan y tîm naill ai drwy ebost, y ffôn neu ymweliad.

## Atgyweiriadau

Bydd ein cydweithwyr cynnal a chadw a gosod mewnol, sy'n hyfedr ac yn uchel eu parch, yn ymgymryd ag amryw o atgyweiriadau. Mae cydweithwyr ym Medra wedi'u hyfforddi mewn gosod drysau tân, gwresogi Ffynhonnell Aer, gosod paneli ffotofoltäig, trin systemau nwy ac olew, gwneud profion trydanol, ffensio a llwybrau, glanhau a gwaith gofalwr; a byddant yn ymgymryd ag amryw o atgyweiriadau ac yn ymlafnio i ddarparu gwasanaeth ymatebol rhagorol i denantiaid Barcud. Dywedodd 80% o denantiaid eu bod wedi cael apwyntiad cyn i'r gwaith gychwyn o'i gymharu â 63% ddeuddeng mis yn gynharach.

Yn ystod y flwyddyn roedd y cyfartaledd boddhad cwsmeriaid ar atgyweiriadau'n 96%, o'i gymharu â tharged o 97%. Mae gwaith yn parhau i wella'r gwasanaeth hwn i denantiaid, drwy gynnig mwy o apwyntiadau a gweithio ar gynyddu'r atgyweiriadau sy'n cael eu datrys yn iawn y tro cyntaf.




## Ymysg y sylwadau o'r ffurflenni atborth mae'r canlynol

*"Yn hapus iawn â'r gwaith a'r contractwyr"*

*"Yn lân, yn dwt, yn gwrtais, y gosodwyr wedi gwneud argraff dda iawn"*

*"Roedd y crwt ifanc yn wych gyda'r tenant (wedi'i ateb gan ofalwr)"*

*"Wedi dod i wneud y gwaith trwsio'n gyflym iawn"*

*"11/10 yn hapus iawn ac yn fodlon iawn ar y gwaith a wnaethpwyd"*

*"Yn hapus iawn at ei gilydd, ddim yn gallu diolch ddigon i Barcud"*

# Amcan Strategol 3

*Bod yn fusnes cymdeithasol â'i fryd ar denantiaid a phreswylwyr, sy'n cynnwys cwsmeriaid ar bob lefel ac yn gweithio'n ddwyieithog.*

## Grŵp Monitro Barcud

Mae tenantiaid wrth graidd popeth a wna Barcud ac mae cyfranogiad tenantiaid yn allweddol wrth gyflawni ein holl Amcanion Strategol. Grŵp cyfranogiad tenantiaid annibynnol, wedi'i gyfansoddi, yw Grŵp Monitro Barcud, y bydd Barcud yn ei ariannu'n flynyddol. Mae eu cylch gorchwyl yn nodi mai amcanion y grŵp yw:

- Darparu strwythur atebol a chynrychioladol.
- Dylanwadu ar ddyfodol Barcud drwy fynd ati'n weithredol i geisio ymgysylltu ac ymgynghori â thenantiaid a'r gymuned leol ehangach.
- Galluogi tenantiaid i adolygu'r rheolaeth a'r cynnal a chadw a wneir ar feddiannau Barcud
- Hyrwyddo gwaith y Grŵp Monitro'n gadarnhaol o fewn yr ardal ehangach yn enwedig gyda grwpiau cymunedol a chefnogaeth eraill.

### *Mae GMB wedi adolygu'r canlynol:*

- Yr holiadur newydd i denantiaid
- Newyddlen Barcud
- Y polisi cyswllt â chwsmeriaid
- Y polisi diogelwch tân ar gyfer cynlluniau gwarchod
- Y polisi diogelwch trydanol
- Arolwg Barcud ar gyfer y 5 mlynedd nesaf
- Y sgript gwasanaethau i gwsmeriaid
- Y contractau meddiannaeth newydd
- Y polisi ar addasiadau ac anhwylderau cyhyrysgerbydol
- Y polisi ar gydymffurfiaeth â SATC
- Y polisi ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Y cynllun gweithredu ar gyfranogiad tenantiaid
- Y llythyr eglurhaol ar gyfer arolygiadau trydanol
- Y strategaeth lleithder, llwydni a chyddwysiad
- Y polisïau ar waith y gellir ailgodi amdano a'r tâl gwasanaeth
- Y polisïau trosglwyddo, meddiannaeth anghyfreithlon a chefnu

### *Bu GMB yn bresennol yn y canlynol*

- Gweithgor Manylebau yn trafod datrysiadau datgarboneiddio ac adnewyddu systemau gwresogi
- Cyflwyniad ar SATC gan Sian Howells
- Gweithdy HQN i'r Bwrdd ar reoli risgiau
- Cyfarfodydd Bwrdd i roi atborth ar Amcanion Strategol Barcud – hunanasesiad rheoleiddiol
- Trafodaethau gyda Steve Jones a Chadeirydd y Bwrdd am ddatganiadau cyrchfan Barcud
- Cyfarfod am dâl i'r Bwrdd gyda chwmni ymgynghori Central
- Cyfarfod gosod rhenti



### Tenant yn Ennill Gwobr o Fri

Enillodd Mr Paul Clasby, Cadeirydd Grŵp Monitro Barcud, 'Wobr Tenant y Flwyddyn' TPAS Cymru ar gyfer 2022. Cyflwynir y wobr i Denant sydd wedi gwneud ymdrech eithriadol o ran cyfranogiad, craffu a chefnogaeth tenantiaid o fewn y sector tai. Bu Paul yn aelod o Grŵp Monitro Tai Ceredigion gynt er 2012 ac y mae'n parhau â'i ymroddiad i hawliau Tenantiaid gyda Grŵp Monitro Barcud ar ôl uno Tai Ceredigion a Tai Canolbarth Cymru yn 2020.

Mae hyn yn newyddion gwych ac yn gydnabyddiaeth o holl waith caled Paul gyda'r Grŵp Monitro yn cefnogi tenantiaid a staff Barcud.



# Amcan Strategol 3

*parhad*

## Cyfranogiad Tenantiaid

Drwy gydol 2022/23 cynhaliwyd dros 175 o weithgareddau a digwyddiadau y bu tenantiaid yn chwarae rhan ynddynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Fforymau Cyswllt Tenantiaid
- Paneli Cyswllt Tenantiaid
- Fforymau Cynlluniau Gwarchod
- Arolygiadau meddiannau gwag ac Ystadau
- Digwyddiadau a rhwydweithiau TPAS
- Dyddiau sgip ar ystadau
- Digwyddiadau ymgynghori
- Digwyddiadau Grŵp Monitro Barcud
- Cynhadledd Flynyddol y Tenantiaid

## Bodlonrwydd Tenantiaid

Yn ystod 2021/22 anfonodd y gymdeithas arolwg STAR at ei holl denantiaid, sef arolwg bodlonrwydd tenantiaid wedi'i safoni gan Lywodraeth Cymru. Bob dwy flynedd y cynhelir yr arolwg STAR, yn 2022/23 gofynnwyd yr un cwestiynau i denantiaid drwy arolygon ffôn. Gwelir isod y canlyniadau pennawd:

| | Cwestiwn | Canlyniadau Arolwg STAR 2021 | Arolygon Ffôn 2022-23 |
|---|---|---|---|
| | | Bodlonrwydd Cyffredinol | |
| 1 | Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar y gwasanaeth a ddarperir gan eich cymdeithas dai? | 80% | 85.5% |
| 2 | Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar ansawdd cyffredinol eich cartref? | 76% | 83% |
| 3 | At ei gilydd, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar y ffordd y bydd eich cymdeithas dai'n ymdrin ag atgyweiriadau a chynnal a chadw? | 72% | 80% |
| 4 | Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar eich cymdogaeth fel lle i fyw? | 80% | 83% |
| 5 | Pa for fodlon neu anfodlon ydych chi bod eich rhent chi'n rhoi gwerth am arian? | 78% | 87.5% |
| 6 | Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi bod eich taliadau gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian? | 64% | 79.5% |
| 7 | Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi bod eich cymdeithas dai'n gwrando ar eich safbwyntiau ac yn gweithredu arnynt? | 58% | 70.5% |
| 8 | Gan feddwl am eich cartref chi'n benodol, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi bod eich cymdeithas dai'n darparu cartref sy'n saff ac yn ddiogel? | 85% | 91% |
| 9 | Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar y ffordd y bydd eich cymdeithas dai'n ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol? | 53% | 72% |
| 10 | Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar gyfleoedd a roddir ichi gymryd rhan ym mhrosesau penderfynu Barcud? | 65% | 74.5% |
| 11 | Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi bod Barcud yn rhoi llais ichi yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu rheoli? | 55% | 72.5% |
| | | At ei gilydd | |
| 12 | I ba raddau yr ydych chi'n cytuno â'r gosodiad canlynol - "Rwyf yn ymddiried yn fy nghymdeithas dai" | 68% | 81% |

# Amcan Strategol 4

## *Gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru i atal a mynd i'r afael â digartrefedd ar ei holl ffurfiau.*

Gosododd Deddf Tai (Cymru) 2014 ofynion cryfach ar Gymdeithasau Tai i gefnogi Awdurdodau Lleol mewn cyflawni eu dyletswyddau o ran digartrefedd. Mae gan Barcud gydberthnasau gwaith agos â chyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion ill dau.

Yn sgil ymateb iechyd cyhoeddus Llywodraeth Cymru i'r Coronafeirws ac yn gysylltiedig â hynny diddymu 'angen blaenoriaethol' ar gyfer ymgeiswyr digartref daeth heriadau i ddarparwyr tai cymdeithasol. Bu Barcud yn bresennol yn holl "Gyfarfodydd Digartrefedd Cell Arian" Cynghorau Sir Ceredigion a Phowys ill dau ac y mae wedi darparu niferoedd sylweddol o feddiannau 1 ystafell wely i gynorthwyo'r Cynghorau unigol yng nghyfarwyddeb 'Pawb I Mewn' Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio dileu digartrefedd ac y mae ar hyn o bryd yn cyflwyno'r Model Ailgartrefu Cyflym.



### Gosod

**Gan fod Barcud yn brif ddarparwr llety LCC i ymgeiswyr digartref yng Ngheredigion a Phowys ill dwy, mae 40% o'n holl osodiadau (heblaw cydgyfnewidiadau a stoc a brynwyd oddi wrth Wales & West) wedi cael eu gwneud i ymgeiswyr digartref.**

**Mae 32 o feddiannau Barcud yng Ngheredigion wedi'u gosod ar hyn o bryd i ymgeiswyr digartref ar sail frys o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth teirochrog â'r Gymdeithas Gofal a Chyngor Sir Ceredigion. Unedau prosiect yw'r rhain.**

### Astudiaeth Achos

Drwy weithio ar y cyd a drefnwyd gyda phob rheolwr ardal a'u timau o fewn Powys (wedi'u lleoli yn y Drenewydd, y Trallwng a Llandrindod) mae cyfarfodydd rheolaidd i reoli achosion o ddigartrefedd rhwng Barcud a Chyngor Sir Powys wedi esblygu a chymryd lle. Nid yn unig y mae hyn wedi bod o fudd i breswylwyr a thenantiaid ond y mae wedi atgyfnerthu'r trefniadau gwaith rhwng Barcud a'r awdurdod lleol. Mae hyn wedi galluogi llawer o feddianwyr a oedd mewn llety dros dro gyda ni i gael eu gwneud yn barhaol gyda Barcud. Bu tîm Cynnal yn hanfodol i'r broses hon, a hwythau'n tafoli fforddiadwyedd cynigion i sicrhau bod contractau cynaliadwy'n cael eu creu a'u cynnal o'r cychwyn.



# Amcan Strategol 5

## *Bod yn gyflogwr delfrydol sy'n cefnogi'r economi a chymunedau lleol.*

### Cynhadledd Staff

Ym Medi 2022, fe wnaethom gynnal ein Cynhadledd wyneb-yn-wyneb gyntaf i Staff Cymdeithas Dai Barcud. Ym Mhontrhydfendigaid y cynhaliwyd y gynhadledd. Diwrnod cyfan o weithgareddau wedi'u cynllunio a oedd yn cynnwys sesiwn holi ac ateb gyda'r Cyfarwyddwyr; sgwrs llawn gwybodaeth gan Mr Dafydd Morgan (Prosiect Mynyddoedd Cambria) ac amser i rwydweithio a chymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau gyda chydweithwyr eraill o fewn Barcud.

TUAG AT IECHYD
TOWARDS WELLBEING

### Golwg ar Iechyd

Fel rhan o'r ymgyrch Tuag At Iechyd, rydym yn parhau i ymgymryd ag asesiadau Golwg ar Iechyd rheolaidd gan ei fod yn chwarae rhan bwysig mewn sicrhau bod iechyd a lles ein staff yn cael eu monitro a'u cofnodi.

### Meincnodi Cyflog ac Adolygiad Pensiynau

Yn ystod 22/23, ymgymerodd Barcud ag ymarfer meincnodi mawr i adolygu cyflogau. Arfarnwyd holl swyddi Barcud ac fe gynyddwyd nifer fawr o gyflogau o ganlyniad i'r ymarfer meincnodi. Peth doeth yw bod ymarfer meincnodi llawn yn cael ei wneud bob 3 blynedd er mwyn sicrhau ein bod yn aros yn gystadleuol o fewn y farchnad. Ymgymerodd Barcud ag adolygiad helaeth o'i holl gynlluniau pensiwn hefyd. Yn sgil cyngor allanol, argymhellwyd lleihau nifer y cynlluniau pensiwn a chysoni darpariaeth gymaint ag y gellid. Ymgymerwyd â chysoni'r cynlluniau pensiwn rhwng Tachwedd 2022 a Mawrth 2023.

### MyFi

Yn ystod Mehefin/Gorffennaf 2022, fe wnaethom lansio'r platfformiau Hunanwasanaeth y Gweithwyr a Rheolwr Pobl. Roedd Hunanwasanaeth y Gweithwyr (MyFi) yn galluogi gweithwyr i reoli eu data personol e.e. diweddaru data personol, cofnodi amser hyblyg, bwcio gwyliau blynyddol a gweld slipiau cyflog a ffurflenni P60 ac ati. O ran y Rheolwr Pobl roedd yn eu galluogi i gael darlun cyflawn o'u tîm - pwy sydd i mewn, pwy sydd ar wyliau, awdurdodi taflenni amser a goramser.

MyFi

### Cymuned

Yn ystod 2022/23 defnyddiodd Barcud yr arian yn ei gronfa gymunedol i wneud y canlynol:

- Darparu gwaith ar batio, ychwanegu gwelyau uchel a meinciau ar gyfer Cwrt Pinwydd
- Prynu meinciau a phlanhigion ar gyfer Brooklands
- Tynnu ffensys i ffwrdd ac agor storfa finiau i atal tipio yng Nghwrt Yr Eglwys
- Tynnu ffensys i ffwrdd a phrynu sied ardd i denantiaid gadw offer garddio yng Nghwrt David Williams
- Cyweirio'r piano ym Modlondeb
- Creu arwynebedd caled a mainc yng Nghwrt Croesawdy
- Darparu gwobr ar gyfer cystadleuaeth yn Ysgol Penglais



# Amcan Strategol 5

*parhad*

## Hyfforddiant Staff

Ar-lein drwy iHasco y darperir hyfforddiant corfforaethol yn bennaf.
Roedd y cyrsiau canlynol ar gael i'r staff i gyd yn ystod 2022/23:

Ymwybyddiaeth Asbestos - Ymwybyddiaeth Awtistiaeth - RhSPI
Ymwybyddiaeth Tân - Gwasanaeth i Gwsmeriaid
Ymwybyddiaeth Seiberddiogelwch - Cyfarpar Sgrin Arddangos
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant - Hanfodion GDPR
Hanfodion Iechyd a Diogelwch - Cydymffurfiaeth AD a Lles
Codi a Chario - Ymwybyddiaeth o'r Menopos
Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl - Asesiadau Risg
Rheoli Amser - Gweithio Ar Uchder

Eleni cafodd nifer o gyrsiau hyfforddiant ychwanegol eu
trefnu a'u darparu ar gyfer staff gan gynnwys:

Cymorth Cyntaf - Hyfforddiant Ymarferol ar Offer Pigog
Cwynion - Hyfforddiant Rheoli - Datblygu Pobl
Hyfforddi Caffael - Mynd i'r Afael â Chogio a Llinellau Cyffuriau
Celcio - Mynd i'r Afael â Thlodi ac Anghydraddoldeb
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Epilepsi
Hyfforddiant Gweithio Ar Eich Pen Eich Hun
Hyfforddiant Arolygu Mannau Chwarae
Technolegau Sero Net mewn Tai - Cwrs Systemau Ffotofoltäig Solar

Gweithiodd cydweithwyr ar draws y gymdeithas tuag at gymwysterau proffesiynol hefyd gan gynnwys cyfrifyddiaeth a thystysgrifau CIH mewn Tai.

### Creuddyn

Mae Creuddyn yn adeilad o'r math mwyaf modern yn Llanbedr Pont Steffan sy'n cynnig unedau busnes a chyfleusterau cynadledda ar gyfer busnesau lleol, y sector gofal cymdeithasol a chyrff elusennol ac yn berffaith i fusnesau sydd newydd gychwyn ac yn chwilio am leoliad yn y dref. Y mae'n gyfleuster cymunedol cyffrous sy'n dod â phobl ynghyd, yn helpu i fynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol, yn cynnal swyddi, yn darparu cyfleoedd hyfforddiant ac yn darparu lleoliad ar gyfer mentrau cymdeithasol. Agorodd y ganolfan ym mis Tachwedd 2021 ac mae'r unedau i gyd yn llawn. Mae'r tenantiaid busnes yn cynnwys: asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus TGCh, dylunydd graffig yn y diwydiant recordiau, asiantiaeth pasbortiau bridio ceffylau, cwmnïoedd tacsi, therapyddion harddwch, ceiropractydd, therapyddion chwaraeon, cyflenwr cyfanwerth amaethyddol, peiriannydd sifil a chwmni fferyllol.





# Amcan Strategol 6

***Bod yn sefydliad cynaliadwy, carbon isel.***

## Cartrefi Gwyrddach


Cwblhawyd gwaith datgarboneiddio gwerth cyfanswm o fwy na £1.1m yn 2022-23, gan gynnwys y canlynol:



**32 o osodiadau ffotofoltäig**



**22 o Ynysiadau Waliau Allanol**



**9 o Bympiau Gwres Ffynhonnell Aer**

Mae Strategaeth Ddatgarboneiddio'r Gymdeithas, a gymeradwywyd yn ddiweddar, yn bleidiol i ymagweddiad "Adeiladwaith yn Gyntaf" sydd yn unol â chynigion presennol SATC 2023. Mae ein rhaglen arfaethedig o adnewyddu cydrannau wedi cael ei haildrefnu ac erbyn hyn y mae'n blaenoriaethu adnewyddu ffenestri a drysau, ynysiad waliau allanol a gwresogi ac mae'r ffordd hon o fynd ati wedi cael ei chefnogi a'i chymeradwyo gan ein grŵp tenantiaid, Grŵp Monitro Barcud. Bydd y Gymdeithas yn gosod Pwmp Gwres Ffynhonnell Aer (PGFfA), ynghyd â system ffotofoltäig solar pan fo'r adeiladwaith wedi'i ynysu ddigon i gynnal system o'r fath yn ffisegol. Yn yr un modd, rydym yn parhau i osod gwresogi stôr trydanol sy'n cadw gwres yn effeithlon i helpu i fynd i'r afael â phroblemau SAP isel presennol. Mae hyn yn gyson â'r blaenoriaethau a amlinellwyd inni gan ein tenantiaid mewn perthynas â'u pryderon o ran "gwres fforddiadwy", gan ein bod yn cydnabod pwysigrwydd cadw costau ynni mor isel ag y bo modd i'n preswylwyr, ar yr un pryd â cheisio lleihau ein hôl troed carbon at ei gilydd. Bydd systemau ffotofoltäig solar hefyd yn cael eu cyfuno â thanciau dŵr poeth a thanciau dŵr poeth clyfar lle bo'n ymarferol i alluogi'r tanciau i weithredu fel storfa wres a dargyfeirio cynhyrchiant dros ben i mewn i ddŵr poeth gan osgoi anfon trydan dros ben yn ôl i'r grid yn awtomatig.

Caiff pob eiddo a brynir ei asesu o ran perfformiad ynni (EPC). Cynhwysir y gwaith a nodir i gyrraedd EPC A yn y cam hyfywedd i ddod â'r gwaith perthnasol ymlaen o'r cychwyn, er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â thargedau effeithlonrwydd ynni Barcud a Llywodraeth Cymru.

## Sgôr SAP

Y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) yw'r fethodoleg a ddefnyddir gan y Llywodraeth i asesu a chymharu perfformiad cartrefi mewn perthynas ag ynni a'r amgylchedd. I gwrdd â safonau presennol SATC, mae rhaid i feddiant fod â sgôr o SAP 65 neu'n uwch ac erbyn 2029, dylai gyrraedd sgôr SAP o 68+ (EPC C). Mae 64% o gartrefi Barcud ar hyn o bryd yn cwrdd â'r safon uwch hon. Bydd cartrefi â sgôr SAP uchel yn helpu i leihau tlodi tanwydd. Fel y safai ym mis Mawrth 2023, mae gan gartrefi Barcud sgôr SAP gyfartalog o 70.9 erbyn hyn (i fyny o 70.6 ym Mawrth 2022), a 165 yn rhagor o feddiannau wedi'u gwella i gwrdd âr safon hon yn 2022/23.

## Datblygiadau

Mae holl feddiannau Barcud sydd wedi'u hadeiladu o'r newydd yn cydymffurfio â safonau Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru o leiaf, ac mae ein datblygiadau diweddaraf yn cael eu hadeiladu i fod yn agos at safonau Passivhaus neu i gwrdd â hwy'n llwyr, â sgorau EPC sydd i gyd yn uwch na SAP92 a sgôr SAP gyfartalog at ei gilydd o 93 (EPC A/Passivhaus), i'r 48 o anheddau newydd a adeiladwyd yn 2022/23. Arfernir pob datblygiad o safbwynt perfformiad adeiladau i sicrhau bod yr adeiladwaith "fel y mae wedi'i godi" yn cydymffurfio â'r safonau perfformiad yn ôl y dyluniad. Mae rhan o'n proses dichonoldeb cynllluniau newydd hefyd yn arfarnu pa mor ddeniadol yw'r amgylchedd a lefel gyffredinol yr amwynderau a'r gwasanaethau a gynigir i sicrhau bod y cynllun arfaethedig yn gynaliadwy ac yn hawdd ei osod i'r dyfodol.

## Swyddfeydd Barcud

Comisiynwyd adroddiadau ynni ar gyfer Tŷ Canol a swyddfeydd EOM ac fe'u gwnaed ar ein rhan ni gan Severn Wye Energy o dan fentr a ariannwyd gan Gyngor Sir Powys. Darparodd yr adroddiadau hyn rychwant o fanylion gan gyflwyno'r gwahanol elfennau a gweithredoedd yr oedd eu hangen i wella'r effeithlonrwydd ynni a'r opsiynau adnewyddol ar gyfer pob safle. Mae gweithgarwch yn mynd ymlaen i archwilio dyfynbrisiau ac adnoddau i gefnogi gosod mesurau, gan gynnwys opsiynau ynni adnewyddol, i gyflawni'r gwelliannau a nodwyd. Caiff y rhain eu cyflwyno a'u hystyried yn 2023/24.

# Amcan Strategol 6

*parhad*

## Cerbydau Trydanol

Mae gan Barcud gar trydanol i'w gydrannu a all gael ei ddefnyddio gan holl aelodau'r staff i deithio rhwng swyddfeydd, ymweld â thenantiaid neu ar gyfer unrhyw fusnes arall cysylltiedig â'r gwaith. Mae gan y gymdeithas hefyd fan drydanol i'r Gofalwr ei defnyddio yn ardal Aberystwyth. Mae mannau gwefru yn yr holl swyddfeydd ac yn ein canolfan fentr, Creuddyn, yn Llanbedr Pont Steffan. Y bwriad yw prynu rhagor o gerbydau trydanol yn 2023/24 ac ehangu ein cyfleusterau gwefru trydanol drwy ein lleoliadau swyddfa i gyd.




# Amcan Strategol 7

*Bod yn gorff â llywodraethiant a chyllid cadarn.*

## Cyllid

Caiff cyllideb 5 mlynedd fanwl ei pharatoi bob blwyddyn mewn ymgynghoriad â staff er mwyn galluogi'r gymdeithas i gyflawni ei nodau a'i hamcanion. Caiff hon ei harchwilio'n fanwl a'i chymeradwyo gan y Bwrdd a'i bwydo wedyn i mewn i'r Cynllun Busnes Ariannol 30 mlynedd, gan ddefnyddio rhagdybiaethau perthnasol. Bydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn Cyfrifon Rheolaeth sy'n adrodd perfformiad ariannol yn erbyn y Gyllideb flynyddol, llif arian 2 flynedd tuag ymlaen, atodlenni ar wariant cyfalaf a datblygiadau ac adroddiad adnoddau cyllidol sy'n monitro cydymffurfiaeth â'r holl gyfamodau a ofynnir gan gyllidwyr. Bydd hyn a'r Cynllun Busnes Ariannol 30 mlynedd yn rhoi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd bod cyllid digonol yn ei le a bod y gymdeithas yn ariannol hyfyw. Caiff y cynllun ei roi drwy brofion straen a nodir a modelir mesurau lliniaru gan y Tîm Arweinyddol a'r Bwrdd.

Bu 2022/23 yn flwyddyn lwyddiannus yn ariannol â gwarged o £4.2m a chronfeydd wrth gefn o £33m. Fel y safai ar 31ain o Fawrth 2023, roedd holl is-gwmnïau Grŵp Barcud yn adrodd gwarged.

| Cydymffurfiaeth â Chyfamodau | Banc | Rheol Euraid | Canlyniad 2022/23 |
|---|---|---|---|
| ECLITDA BAM* | 110% | 130% | 131% |
| Gerio** | 65% | 55% | 34% |

*ECLITDA BAM - Enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddiad ynghyd â buddsoddiad atgyweiriadau mawr

**Gerio - cymhareb dyled i ecwiti Barcud




# Amcan Strategol 7

*parhad*

## Ôl-ddyledion Rhent

Drwy gadw ein lefelau rhent yn fforddiadwy a helpu tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau, arhosodd ôl-ddyledion rhent Barcud yn isel drwy gydol y flwyddyn, a hynny'n sicrhau hyfywedd ariannol y gymdeithas.




## Llywodraethiant

Yn ystod 2022/23, ymgymerodd y gymdeithas ag archwiliad iechyd Llywodraethiant gyda chwmni allanol, a chanfyddiadau hwnnw'n arwain at Gynllun Gwella Llywodraethiant. Roedd hyn yn cwmpasu meysydd megis:

- Recriwtio aelodau cyfetholedig i ychwanegu at sgiliau a phrofiad y Bwrdd
- Creu swyddogaeth Uwch-Gyfarwyddwr Annibynnol
- Cyflawni rhaglen effeithiolrwydd i'r Bwrdd a'r Tîm Arweinyddol
- Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i sicrhau gwell cyfarfodydd
- Recriwtio Cadeirydd newydd
- Adolygiad o'r cydberthynas gwaith rhwng y Bwrdd a Grŵp Monitro Barcud
- Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Llywodraethiant
- Cyflwyno tâl i'r Bwrdd

Bob blwyddyn bydd y Gymdeithas yn adolygu ei chydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethiant. Rhoddir tystiolaeth o'r gydymffurfiaeth, gyda nodiadau am weithredoedd y mae eu hangen ac fe adroddir hyn i'r Bwrdd yn flynyddol. Mae Barcud yn cydymffurfio â'r Cod.

## Archwiliadau Mewnol

Bu 13 o adolygiadau archwiliad mewnol yn Barcud yn 2022/23. Fe gawsant eu gwneud gan Astari, archwilwyr mewnol y gymdeithas. Mae'r dyfarniadau sicrwydd a ddarparwyd i'w gweld isod. Comisiynwyd rhagor o waith archwilio a chywirdeb data ar y meysydd iechyd a diogelwch lle roedd y sicrwydd yn llai na rhesymol.

| Teitl yr Archwiliad | Lefel Sicrwydd |
|---|---|
| Rheolaeth Lesddeiliaid | Rhesymol |
| Mesurau Rheolaeth Ariannol Allweddol | Rhesymol |
| Iechyd a Diogelwch | Rhesymol |
| Canmoliaeth a Chwynion | Rhesymol |
| Cyfathrebu | Sylweddol |
| Rheoli Risgiau | Rhesymol |
| Rheoli Asbestos a RhSPI | Rhywfaint |
| Recriwtio a Chadw Staff | Rhesymol |
| Rheoli Perfformiad - Sefydliadol | Rhesymol |
| Datblygu a Rheoli Perfformiad Staff | Rhesymol |
| Rheoli Tân | Rhywfaint |
| Taliadau Gwasanaeth | Sylweddol |
| Dilyniant Blynyddol | Rhesymol |

## Hyfforddiant a Phresenoldeb y Bwrdd

Yn 2022/23, ar gyfartaledd, 83% oedd presenoldeb aelodau'r Bwrdd. Cafwyd pedwar ar ddeg o gyfarfodydd gan gynnwys dyddiau cynllunio busnes a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Aeth aelodau Bwrdd i hyfforddiant a chynadleddau drwy gydol y flwyddyn:

- Profion Straen
- Y Bwrdd ac Effeithiolrwydd y Tîm Arweinyddol
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Cynhadledd Flynyddol CCC
- Cynhadledd Llywodraethiant CCC

# Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant

Drwy ein hadroddiad ACLl blynyddol, byddwn yn dangos ein cyfrifoldeb amgylcheddol, sut mae ein gweithgareddau'n cael effaith gadarnhaol ar bobl yn ein cymunedau, yn ogystal â fframwaith llywodraethiant cadarn. Yn 2021/22 ailgyllidodd Barcud ran o'i gyfleuster benthyciad a chytuno gosodiad preifat newydd o £50m ag abrdn, ynghyd â chyfleuster arian parod cylchdroi o £20m â Banc Barclays. Yn y ddau gyfleuster roedd targedau ACLl yn gysylltiedig â lefel yr ymyl ar y benthyciadau.

## *Amgylcheddol*

Mae gan Barcud amcan strategol i fod yn sefydliad cynaliadwy, carbon isel.

Fel darparwr tai cymdeithasol, rydym yn wynebu her amlochrog: lliniaru ar effeithiau newid yn yr hinsawdd ar yr un pryd â pharhau i ddarparu cartrefi fforddiadwy, saff, effeithlon o ran ynni i'n tenantiaid a'n preswylwyr. Rydym yn cydnabod, er mwyn cyflawni hyn, fod angen inni fod wedi'n paratoi ac yn barod i ymateb i'r trawsnewidiad i ddyfodol cynaliadwy, carbon isel.

I ymateb i'r her hon, mae Barcud wedi gosod amcan strategol i fod yn sefydliad cynaliadwy, carbon isel.

Mae Adroddiad Arbennig (SR15) y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd yn amlygu'r effeithiau, a allai fod yn ddinistriol tu hwnt, petai cynhesu byd-eang yn cyrraedd 1.5°C. Ar y gyfradd bresennol, mae cynhesu byd-eang yn debygol o gyrraedd 1.5°C rhwng 2030 a 2052. Rhydd yr adroddiad ddarlun ofnadwy o sut y bydd ecosystemau'n ymateb: cynnydd mewn eithafion tymheredd, cynnydd ym mynychder a dwysedd dyodiad.

I gyfrannu at gyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5°C, mae angen i Barcud leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ar draws y sefydliad o 38% erbyn 2030 a chyrraedd Sero Net erbyn 2050 o waelodlin 2020.

I ddeall sut y gellid cyflawni hyn, cyfrifodd Carbon Trust ein hôl troed carbon cwmpas 1 a chwmpas 2 i flwyddyn ariannol 2020/21 a defnyddio mewnwelediadau o'n hôl troed carbon ac atborth a gasglwyd oddi wrth randdeiliaid allweddol, i gynhyrchu strategaeth ddatgarboneiddio, sy'n amlinellu ein cynllun i fynd i'r afael â her datgarboneiddio a chwrdd â'n hamcanion strategol.

## *Cymdeithasol*

Mae gan Barcud dri amcan strategol sy'n uniongyrchol berthnasol i'w bwrpas cymdeithasol fel darparwr tai cymdeithasol:

- Bod yn landlord cymunedol rhagorol, sydd hefyd yn cynnig gwasanaethau cefnogaeth a gofal.
- Bod yn fusnes cymdeithasol â'i fryd ar denantiaid a phreswylwyr, sy'n cynnwys cwsmeriaid ar bob lefel ac yn gweithio'n ddwyieithog.
- Gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru i atal a mynd i'r afael â digartrefedd ar ei holl ffurfiau.

**Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru**

Mae Barcud wedi tanysgrifio i egwyddorion fforddiadwyedd Cartrefi Cymunedol Cymru i'r sector cyfan:

### Fforddiadwy:

Fe ystyriwn ni gyfanswm costau rhentu cartrefi ac incymau i ddeall yr hyn sy'n fforddiadwy i'n tenantiaid, a sicrhau bod gan denantiaid y cyfle mwyaf i gynnal eu tenantiaethau ac i ffynnu.

### Cynaliadwy:

Fe osodwn ni renti sy'n caniatáu inni barhau i ddarparu cartrefi saff, cynnes o ansawdd uchel ar gyfer y bobl y mae arnynt eu hangen yn y cymunedau a wasanaethwn.

### Ymgysylltu:

Fe gynhwyswn ni denantiaid yn y broses i ddatblygu ac adolygu ein hymagweddiad at osod rhenti, a dylanwadu ar ein penderfyniadau ynghylch rhenti.

### Teg:

Fe weithiwn ni i sicrhau bod rhenti a thaliadau eraill yn cael eu gosod yn deg a bod ein cartrefi a'n gwasanaethau'n cynrychioli gwerth am arian.

### Atebol:

Fe fyddwn ni'n agored, yn dryloyw ac yn atebol wrth inni wneud penderfyniadau ynghylch rhenti.

Mae gan y Gymdeithas stoc deiliadaeth gymysg ar draws Canolbarth Cymru er mwyn darparu cartrefi addas, fforddiadwy ar gyfer pobl yn y cymunedau a wasanaetha. Mae'r pwyslais bob amser ar dai fforddiadwy yn unol â'n hamcanion strategol.

**Y gymysgedd o feddiannau yw:**

| | |
|---|---|
| Anghenion Cyffredinol | 3,815 |
| Llety Gwarchod | 334 |
| Rhent Ganolradd | 77 |
| Rhent Farchnadol | 22 |
| Rhentu i Berchnogi | 44 |
| Lesddeiliaid | 184 |
| Rhanberchnogaeth | 3 |
| Garejys | 634 |

## *Llywodraethiant*

Bod yn gorff â llywodraethiant a chyllid cadarn.

Mae'r Rheoleiddiwr yn disgwyl i gymdeithasau:

- fod yn agored ac yn onest ynghylch risgiau, problemau a heriadau a nodant a sut y maent yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain
- codi materion perthnasol gyda'r Rheoleiddiwr yn brydlon
- gweithio'n adeiladol gyda'r Rheoleiddiwr i ddatrys heriadau
- gweithredu'n wirfoddol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon o bwys a nodir drwy reoleiddio.

Ym mis Gorffennaf 2022, cafodd Barcud ei ddyfarniad rheoleiddiol gan Lywodraeth Cymru.

### *Llywodraethiant a Gwasanaethau i Denantiaid* – Yn cydymffurfio

Mae'r Gymdeithas yn cwrdd â'r safonau rheoleiddiol ac fe gaiff oruchwyliaeth reoleiddiol yn ôl y drefn arferol.

### *Hyfywedd Ariannol* - Yn cydymffurfio

Mae'r Gymdeithas yn cwrdd â'r safonau rheoleiddiol ac fe gaiff oruchwyliaeth reoleiddiol yn ôl y drefn arferol.

## *Targedau ACLl 2022/23*

### Barclays

**DPA Amgylcheddol 1** - y sgôr Gweithdrefn Asesu Safonol leiaf ar gyfer meddiannau tai adeiladu newydd y Benthyciwr yn ystod y Flwyddyn Ariannol uniongyrchol flaenorol.

**Targed - 85**
**Cyflawnwyd - 93**

**DPA Amgylcheddol 2** - sgôr Gweithdrefn Asesu Safonol gyfartalog meddiannau tai'r Benthyciwr (cronfa wedi'i dynodi fel unrhyw unedau a fo yn eu lle erbyn Mai 2021) ar gyfer y Flwyddyn Ariannol uniongyrchol flaenorol.

**Targed - 70.9**
**Cyflawnwyd - 71.05**

**DPA Cymdeithasol 1** - rhif canran meddiannau gwag y Benthyciwr a gynigiwyd ar renti tai cymdeithasol i bobl a oedd yn cysgu allan, pobl ddigartref a/neu bobl mewn perygl o fod yn ddigartref yn ystod y Flwyddyn Ariannol uniongyrchol flaenorol.

**Targed - 15%**
**Cyflawnwyd - 41%**

**DPA Cymdeithasol 2** - nifer y bobl wedi'u cynorthwyo gan ein hacademi hyfforddiant yn ystod y Flwyddyn Ariannol uniongyrchol flaenorol.

**Targed - 25 o bobl**
**Cyflawnwyd - 20 o bobl**
(mae'r prosiect bellach wedi dod i ben)

**DPA Llywodraethiant 1** - yn golygu sgôr Llywodraethiant y sefydliad gyda Llywodraeth Cymru.

**Targed - Yn cydymffurfio**
**Cyflawnwyd - Yn cydymffurfio**

### abrdn

DPA: bydd 82% o gronfa ddynodedig o feddiannau presennol yn cyrraedd sgôr EPC-C (SAP 69 ac yn uwch) erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2028.

# Y Gymdeithas Gofal

## Adroddiad y Cadeirydd

Mae'r Gymdeithas Gofal yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl sy'n byw yng nghanolbarth Cymru, gan gefnogi pobl nad oes ganddynt ddim lle parhaol i'w alw'n gartref, a helpu eraill i aros yn annibynnol yn eu cartrefi. Mae'r gwaith hwn yn aml yn heriol, ac mae diolchgarwch enfawr yn ddyledus i'n cydweithwyr anhygoel sydd yn rheolaidd yn mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn a ofynnwn ganddynt i sicrhau eu bod yn darparu'r gwasanaethau iawn ac yn cyflawni'r canlyniadau gorau posib. Rydym mor falch ohonoch i gyd.

Mae'r argyfwng costau byw, wrth reswm, wedi cael effaith anferth ar y bobl a gefnogwn ac mae'r timau wedi gweithio'n wirioneddol galed i helpu i leddfu ar hyn lle gallant drwy weithio mewn partneriaeth fwy ag asiantaethau a darparwyr eraill i sicrhau nad oes neb yn teimlo eu bod ar eu pen eu hunain.

Mae'r busnes wedi parhau i dyfu mewn nerth ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cyrraedd cwpl o gerrig milltir pwysig. Yn gyntaf, fe wnaethom lwyddo i gwrdd â'n polisi cronfeydd ariannol wrth gefn a fydd yn helpu â chynaliadwyedd y Gymdeithas Gofal yn y tymor hirach. Ac yn ail, mae'r perfformiad da hwnnw wedi'n galluogi i fuddsoddi nid yn unig mewn adnoddau ffisegol fel fan newydd yr oedd yn hen bryd ei chael i gymryd lle'r hen un, ond hefyd yn ein pobl drwy sicrhau bod ein holl gydweithwyr yn cael o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol yn dâl a bod ganddynt gwell cynnig o ran pensiwn.

Ennill y sefyllfa sefydlog hon i'r Gymdeithas Gofal yw'r prif uchelgais hirdymor sydd wedi bod gan y Bwrdd. Felly, mae'n fwriad gan y Bwrdd gwrdd yn nes ymlaen eleni i arfarnu'r daith yr ydym wedi bod arni a chyda chefnogaeth rhanddeiliaid, hoffem ddatblygu strategaeth ar gyfer y blynyddoedd i ddod a fydd yn ein galluogi i gryfhau'r sefyllfa hon ymhellach.

Hoffwn ddiolch i Fwrdd a chydweithwyr Grŵp Barcud yn ehangach am eu cefnogaeth a'u hymroddiad parhaus i lwyddiant Y Gymdeithas Gofal a mynegi fy niolch i Dîm Arweinyddol Y Gymdeithas Gofal am y gefnogaeth a roddant i'r Bwrdd ar yr un pryd â chyflawni eu swyddogaethau â'r fath drugaredd a phenderfyniad.

*A P Hearn* Cadeirydd

## Adroddiad y Cyfarwyddwr Gweithredol

Mae 2022 / 2023 wedi bod yn flwyddyn brysur eto i'r Gymdeithas Gofal a ninnau'n darparu gwasanaethau mewn amgylchedd economaidd heriol ac argyfwng costau byw sy'n torri'n ddwfn. Mae'r cynyddiadau, na welwyd eu tebyg o'r blaen, ym mhrisiau tanwydd a bwyd yn taro aelodau mwyaf bregus ein cymunedau sydd yn aml ar incwm cyfyngedig.

Mae cyflwyno a gweithredu'r Mesur Rhentu Cartrefi wedi cael effaith sylweddol ar y farchnad tai rhent preifat lleol. Rwyf yn ddiolchgar i staff y Gymdeithas Gofal am baratoi Contractau Meddiannaeth a sicrhau cydymffurfiaeth eiddo. Yn anffodus, mae nifer o Landlordiaid wedi gadael y farchnad, a hynny wedi lleihau'r hyn sydd ar gael o lety addas fforddiadwy a chynyddu lefelau rhent.

Mae'r gofyn a'r angen am wasanaethau'r Gymdeithas Gofal yn dal i gynyddu. Ceir tystiolaeth o hyn yn Adroddiad Asesiad Effaith Y Gymdeithas Gofal 2022 / 2023 a fydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan Y Gymdeithas Gofal: caresociety.org.uk

Mae ein staff ni yn Y Gymdeithas Gofal yn dal i wneud ymdrech ychwanegol gan ddarparu gwasanaethau 24 awr 365 o ddyddiau'r flwyddyn. O ystyried hyn, rwyf yn falch bod Y Gymdeithas Gofal bellach yn gyflogwr cyflog byw.

Mae'r Gymdeithas Gofal yn dal i fod yn ariannol sefydlog ac mae ei henw da wedi parhau i dyfu yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Mae'r Gymdeithas Gofal o hyd yn dangos gwytnwch ac ymroddiad yn wyneb ansicrwydd a hoffwn fynegi fy niolch i Fwrdd Y Gymdeithas Gofal am eu cefnogaeth a'u hymroddiad di-ildio i ehangu cyrhaeddiad ein gwasanaethau. Hoffwn hefyd ddiolch i Barcud, ein rhiant-gorff, mae ein perthynas gwaith da a'n cefnogaeth o ran isadeiledd gyda Barcud yn hanfodol i gyflawni ein cynlluniau at y dyfodol. Yn olaf, hoffwn ddiolch i Gyngor Sir Powys, Cyngor Sir Ceredigion, Llywodraeth Cymru, Heddlu Dyfed Powys ac asiantaethau partner.

*Guy Evans* Cyfarwyddwr Gweithredol

## Cyflawniadau a Pherfformiad

Bu 2022/2023 yn flwyddyn brysur tu hwnt eto i'r Gymdeithas Gofal. Tystiolaethir i hyn gan y canlynol…

- **cynorthwyo 155 o bobl i mewn i lety brys dros dro a chynyddu'r ddarpariaeth o 49 i 55 o unedau**
- **61% wedi'u symud o Lety Dros Dro i lety diogel mwy priodol.**
- **100% o'r holl breswylwyr Dros Dro a Lloches Nos wedi'u cofrestru gyda meddygfa a deintyddfa.**
- **103 o atgyfeiriadau at yr Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol**
- **darparu 97 o unedau llety**
- **107 o Fondiau byw**
- **117 o bobl yn cael cymorth ag ymholiadau am Fudd-daliadau**
- **365 yn cael cymorth â rheoli rhent**
- **312 yn cael cymorth ag ymholiadau'n ymwneud â chynnal a chadw eiddo**

Rhoes Y Gymdeithas Gofal gymorth â thenantiaethau i:

**147** o bobl sengl

**96** o deuluoedd

**43** o bobl ag anableddau

**7** o bobl ifainc yn gadael gofal

**145** o unigolion mewn llety dros dro

**Gwasanaeth Pecynnau Gofal Pwrpasol yn darparu cymorth i 76 o unigolion ledled Ceredigion a Gogledd Sir Benfro.**

**Gwnaethom gynorthwyo pobl i geisio £64,483 (drwy'r Vicars Relief Fund, Budd-daliadau Disgresiwn at Gostau Tai ac ati).**

**Llogi sgwteri shopmobility 304 o weithiau a chadeiriau olwyn 124 o weithiau.**

**Rheoli 3 Fflat Sbringfwrdd, 1 Fflat Hyfforddi ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ac 1 Fflat Llety Brys. Mae'r fflatiau wedi'u lleoli yn Aberhonddu, Llandrindod, Y Drenewydd a'r Trallwng ym Mhowys.**

CYMDEITHAS GOFAL
THE CARE SOCIETY

### Aelodau Bwrdd

| | |
|---|---|
| Anthony Hearn (Cadeirydd) | Peter Saunders |
| John Rees (Is-Gadeirydd) | Stephen Cripps |
| Catherine Shaw | Ceri Williams (ymddiswyddodd 24/03/2023) |
| Margaret Gallagher | Annette Jones (penodwyd 26/07/2022) |

## Adroddiad y Cadeirydd

Rwyf yn falch tu hwnt o roi diweddariad ar flwyddyn ddigwyddlon eto, a hithau wedi dod i ben â gwarged. Er gwaethaf buddsoddi yn ein staff a'n busnes, rydym wedi cynnal lefel uchel o wasanaeth i'n cwsmeriaid. Peth sy'n galonogol, mae prisiau tanwydd wedi dechrau sefydlogi ar ôl cyfnod o godiadau sylweddol, ac mae mwy o rai defnyddiau ar gael, er ein bod yn cydnabod nad ydym eto wedi dod yn ôl i'r lefelau a fu cyn Covid-19. Rwyf yn cymeradwyo gwaith caled ein cydweithwyr ymroddedig, sydd wedi'n galluogi i hyfforddi a datblygu mwy o brentisiaid yn grefftwyr medrus. Mae ein henw da a'n gwreiddiau cryf yn y gymuned wedi arwain at fwyafrif o ailarchebion gan gleientiaid bodlon: rhywbeth yr ydym yn ymfalchïo ynddo'n fawr. Mae'r atborth positif a'r ganmoliaeth gan ein cleientiaid ar draws y crefftau i gyd yn fy ngwneud yn falch tu hwnt o'n cyflawniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

A ninnau'n cydnabod amseroedd arwain hirach ar gyfer defnyddiau, rydym wedi cymryd camau i wella ein modiwl storfeydd a'i integreiddio â'n system TG, rhywbeth sydd wedi profi'n effeithiol dros ben. Bydd yr integreiddiad hwn yn gwella ein hymatebolrwydd ac yn ein galluogi i gwblhau tasgau atgyweirio'n fwy effeithlon. Rydym hefyd wedi parhau â gosod synwyryddion LoRaWAN i gleientiaid a oedd gennym eisoes a phartneru â chleientiaid newydd i'w helpu i fonitro llwydni, heriadau cyddwysiad, ac effeithiolrwydd mesurau effeithlondeb ynni yn eu cartrefi. Rydym yn parhau'n ymroddedig i archwilio technolegau newydd a all fod o fudd i'n busnes a chynorthwyo cleientiaid i wella eu gweithrediadau.

Yn ddiweddar, rydym wedi adolygu Telerau ac Amodau ein cydweithwyr, gan anelu at gadw ein gweithlu, sy'n fedrus ac yn uchel iawn eu parch, ar yr un pryd â sicrhau amgylchedd gwaith deniadol a saff i weithwyr presennol a rhai potensial sydd am ymuno â'n sefydliad blaengar. Ar ben hynny, rydym wedi buddsoddi mewn cerbydau newydd a gwneud gwelliannau i olwg ein swyddfa. Mae ein cydweithwyr wedi mynd ati'n weithredol i ymgysylltu ag ysgolion lleol, gan ddarparu addysg ar dechnolegau gwyrdd a rhai o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan EOM.

Rwyf yn fodlon dros ben ar gyflawniadau EOM yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn estyn diolch o galon i'm cyd-aelodau gwirfoddol o'r Bwrdd am eu hymroddiad, eu doethineb, a'u hamser wrth wneud o EOM y busnes llwyddiannus ydyw heddiw. Wrth inni ymdrechu am ragor o dwf, rydym yn parhau'n ymroddedig i fuddsoddi yn ein busnes a'r gymuned leol ill dau.

***Richard Adrian Knight***

Cadeirydd

### *Canmoliaeth*

**"roedd y gweithiwr yn gyfeillgar ac yn daclus ac mae e wedi gwneud jobyn da"**

**"roedd y contractiwr yn wych, yn gyfeillgar iawn ac fe esboniodd e beth roedd e wedi'i wneud. Rwy'n anabl a byddwn i'n hyderus i'w adael e i mewn i fy nghartref eto"**

**"diolch i'ch trydanwr, roedd e mor dda gyda'r tenant o ystyried ei ddryswch a'i rwystr cyfathrebu ac fe wnaeth e hyd yn oed aros i gadw cwmni inni yn y tywyllwch!"**

**"'Allaf i mo'u cymeradwyo'n ddigon uchel i adlewyrchu eu gwaith yn deg. Yn galonnog ac yn ddibetrus, rwyf yn argymell EOM fel gosodwr systemau ffotofoltäig i'w nodi"**



### *Hyfforddiant*

Roedd hyfforddiant i weithwyr yn 2022/23 yn flaenoriaeth ac fe aed ar wahanol gyrsiau hyfforddiant gan gynnwys:

**Hyfforddiant ar Sgaffaldwaith Tŵr**
**Hanfodion Plastro**
**Ymwybyddiaeth o Asesu Risgiau**
**Triniaeth ac Ymwybyddiaeth o Lwydni**
**Hyfforddiant i Rai sy'n Gweithio ar eu Pennau eu Hunain**
**Rheoli Asbestos**

### Cyflawniadau Ariannol

Bu 2022/23 yn flwyddyn lwyddiannus eto i EOM ag elw masnachu cyn taliadau treth a rhodd cymorth o £290K. Cedwir peth o'r elw i'w ailfuddsoddi yn EOM a'r gweddill yn cael ei roi yn ôl yn rhodd cymorth i'r gymdeithas dai.

Ym mis Rhagfyr, aeth Rob Huxley a Mike Mills i Ysgol Gynradd Ceri i roi cyflwyniad ar fathau adnewyddol o ynni a'r gwaith y mae EOM yn ei wneud yn y maes hwn.

Rhoes EOM daleb £10 i'r disgybl a enillodd am y poster gorau'n portreadu ynni adnewyddol.



### Aelodau'r Bwrdd

| | |
|---|---|
| Richard Knight (Cadeirydd) | Cadwgan Thomas |
| Wyn Jones | Fleur Whittingham |
| Anthony Lowry | David Hall |

# Gofal a Thrwsio ym Mhowys

## Adroddiad y Cadeirydd

Rwyf yn falch y gallaf adrodd bod y galw am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Gofal a Thrwsio ym Mhowys wedi parhau i gynyddu er ein bod yn gweithio mewn amgylchedd lle mae adnoddau dan bwysau mewn gwasanaethau cysylltiedig ag iechyd, a chostau wedi bod yn cynyddu ar draws pob maes. Mae llawer o gleientiaid wedi cael eu helpu'n llwyddiannus i gael mynediad at fwy o wasanaethau a budd-daliadau gan ein Gweithwyr Achos ymroddedig iawn, a'n Swyddogion Technegol yn sicrhau bod llawer o'r addasiadau ffisegol wedi cael eu gwneud i gwrdd ag anghenion ein cleientiaid eiddil a bregus.

Rydym wedi llwyddo i benodi pobl i'r swyddi gwag o fewn y tîm yn ystod y flwyddyn, sef swydd yr Uwch-Swyddog Technegol, Swyddog Gweinyddol, a fydd fel rhan o'i swydd yn datblygu strategaeth gwybodaeth a marchnata, ac, yn ddiweddarach, swydd Rheolwr yr Asiantaeth. Yn absenoldeb Rheolwr yr Asiantaeth, rhoddwyd cymorth i'r tîm a chafodd y gwasanaeth ei gynnal a'i symud ymlaen gan Llŷr Edwards, sydd, yn ei swydd ddydd, yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol Grŵp Barcud. Mae Llŷr wedi gwneud gwaith ardderchog yn yr amgylchiadau ac, ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch iddo am ei waith caled i gyd yn ystod y cyfnod hwn.

Gwaetha'r modd, daeth y cyllid i ben ar gyfer y cynllun 70+ – a ddarparai gyngor am effeithlonrwydd ynni mewn cyfnod o bwysau cynyddol ar gostau ynni a rhedeg i'n cleientiaid i gyd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn meddiannau hŷn ag ynysiad gwael. Byddwn yn ceisio ffynonellau eraill o gyllid yn ystod yr haf, gan ein bod yn awyddus i fod â chynllun tebyg yn rhedeg yn ystod misoedd y gaeaf, a byddwn yn anelu at recriwtio i'r swydd newydd honno pan fydd y cyllid wedi'i gadarnhau.

Yn y flwyddyn ariannol newydd gwelwyd y tîm yn tyfu o ddau i dri Swyddog Mân Addasiadau – dyma'r cydweithwyr sy'n gosod y canllawiau a'r rheiliau gafael ac yn gwneud y gwahaniaethau bach cynnil hynny sy'n gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl. Fel aseswyr dibynadwy, gall y Swyddogion hyn farnu beth a weithiai orau ac ym mha le; a gosod y canllaw neu'r cymorth seydlog arall hollbwysig hwnnw. Gall y mesurau bach hyn roi'r hyder i rywun adael eu cartref yn saff; neu gerdded i ben pellaf yr ardd i gael rhywfaint o ymarfer corff dyddiol a all roi peth amser iddynt fwynhau; neu wneud dim ond eistedd tu allan a gwylio pobl yn mynd heibio, a chysylltu ag eraill y tu allan i'w pedair wal eu hunain.

Cafodd ein Tîm Mân Addasiadau achrediad "SafeContractor", sef ardystiad Iechyd a Diogelwch cydnabyddedig sy'n rhoi sicrwydd y caiff y gwaith a wneir gan ein tîm bach, mewnol, medrus ei wneud gan roi'r flaenoriaeth eithaf i gadw'r cleient yn saff. Eleni, bu cynnydd yn nifer y cleientiaid a gafodd fân addasiadau (rhai sy'n costio llai na £1000) o ryw 5% o'r llynedd i 1,452. Nifer yr addasiadau canolig neu fawr a gwblhawyd oedd 202, a hynny'n debyg i ffigur 2021/22.

Cawsom lefel bodlonrwydd o 100% gan y rhai a roes atborth ar y gwaith a wnaethom, a dywedodd pob cleient a ymatebodd i'n holiadur y llynedd fod eu hyder wedi cael ei gynyddu ar ôl derbyn ein gwasanaethau, ac roedd llawer hefyd wedi'n hargymell i'w ffrindiau a'u teulu.

Mae prosiect Mamwlad sy'n gweithredu o fewn y gymuned ffermio ar draws Powys yn mynd o nerth i nerth, a mwyfwy o gleientiaid yn ein cymunedau gwledig hefyd yn cael mynediad at y gwasanaethau hanfodol a ddarparwn. Meddai Mrs P, un o'n cleientiaid Mamwlad "'Doeddwn i ddim yn gwybod fy ngholled, mae'n wych; a gallaf i gymryd cawod nawr pryd bynnag 'dw i eisiau". Roedd hyn yn ganlyniad i asesiad Cartref Iach gan un o'n gweithwyr achos Mamwlad a arweiniodd at asesiad ymolchi gan Therapydd Galwedigaethol a chawod mynediad gwastad newydd.

Yn gyfan gwbl, £1,026,322 oedd cost y gwaith mân addasiadau a ddarparwyd, sy'n swm aruthrol wedi'i gyflawni gan dîm nad yw ond yn un bach ar draws ardal enfawr Powys.

Mae ein Gweithiwr Achos cyfeillgar o Ymdopi'n Well wedi gweithio gyda phartneriaid yn Llywodraeth Cymru, RNIB Cymru ac Action on Hearing Loss Cymru i gynorthwyo cleientiaid drwy ddarparu gwybodaeth iddynt am golli clyw, atal cwympo, ymgymryd â gwiriadau diogelwch cartref, rhoi cymorth â budd-daliadau a gwasanaethau cymorth eraill. Gwasanaeth yw hwn sy'n cael ei werthfawrogi ac sydd ar gael ledled Powys ac mae'n helpu i gadw cleientiaid yn annibynnol.

Mae'r gwasanaeth Gwaith Achos ar gyfer GThP Gofal a Thrwsio ym Mhowys wedi cael ei arfarnu unwaith eto yn erbyn y Safon Ansawdd Cyngor (SAC). Safon ansawdd genedlaethol ar gyfer gwasanaethau cyngor yw SAC sydd wedi'i chynllunio i sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda ac yn gwarantu ansawdd y gwasanaethau gwybodaeth a chyngor a ddarpara. Newyddion gwych yw hyn unwaith eto, a gall cleientiaid fod wedi'u sicrhau bod y cyngor a roddir yn gywir ac yn amhleidiol. Mae staff y gwasanaethau gwaith achos wedi llwyddo i gael hyd i fudd-daliadau gwerth £205,289 yn ystod y flwyddyn, rhywbeth a fydd, siŵr o fod, wedi cael ei groesawu'n fawr gan ddefnyddwyr eu gwasanaethau sy'n ymrafael â'r argyfwng parhaus o ran costau byw.

Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys am eu cefnogaeth barhaus, gan na allem, heb eu ffrydiau cyllid hwy, gynorthwyo cymaint o breswylwyr eiddil, oedrannus ac anabl ym Mhowys. Rydym hefyd yn ddiolchgar am yr holl roddion a gawsom, sy'n ychwanegu at lefelau'r grantiau hyn ac yn sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaeth gwirioneddol broffesiynol ac ymatebol.

Mae gan Gofal a Thrwsio Powys enw rhagorol gyda'i wahanol randdeiliaid a hefyd, efallai'n bwysicaf oll, gyda'r bobl y mae arnynt angen ein gwasanaethau. Mae hyn yn ganlyniad i lawer o waith caled ac ymroddiad gan ein staff i gyd a ddylai fod yn falch o'u hymdrechion. Fel Cadeirydd Gofal a Thrwsio ym Mhowys rwyf am ddiolch i bob aelod o'r staff am eu gwaith caled yn ystod y deuddeg mis diwethaf, a hefyd i bob Aelod o'r Bwrdd. Bydd Aelodau'r Bwrdd yn rhoi eu hamser yn wirfoddol i'r asiantaeth, ac mae eu doethineb a'u gwybodaeth yn cael eu gwerthfawrogi'n daer.

*Julie Metcalf*
Cadeirydd

## Cyflawniadau a Pherfformiad

Bu 2022/23 yn flwyddyn lwyddiannus yn ariannol i GThP, gan arwain at warged o £123K a gaiff ei ychwanegu at y cronfeydd wrth gefn i sicrhau bod yr asiantaeth yn gryf ac yn hyfyw. Yn ystod y cyfnod hwn cyflawnodd yr asiantaeth y canlynol:

**1,118** – **Helpu 1,188 o bobl ledled Powys**

**858** – **Gosod 858 o fesurau atal cwympo**

**144** – **Gwnaeth y gwasanaeth Ymdopi'n Well, sy'n helpu cleientiaid dros eu 50, gynorthwyo 144 o bobl**

**45** – **45 o gleientiaid yn cael eu helpu i hawlio budd-daliadau, yn werth dros £182,000**

**100%** – **100% bodlonrwydd ar draws yr holl waith a gwblhawyd**

Gofal a Thrwsio ym Mhowys
Care & Repair in Powys

### Aelodau'r Bwrdd

| | |
|---|---|
| Julie Metcalf (Cadeirydd) | Catherine Shaw |
| Paul Jays | Carina Roberts |
| Crispin Jones | Mark Rees |

# Adroddiad y Bwrdd Rheoli

***Y mae'r Bwrdd Rheoli'n cyflwyno eu hadroddiad a'r datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 o Fawrth 2023.***

## PRIF WEITHGAREDDAU

Cymdeithas dai ddielw yw Barcud. Fel pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yng Nghymru, y mae wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac yn cael ei reoleiddio ganddi.

Ffurfiwyd y Gymdeithas er lles cymunedau mewn ardaloedd lle mae'r Gymdeithas yn perchenogi neu'n rheoli stoc dai.

Y mae Barcud wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 â rheolau elusennol. Y swyddfa gofrestredig yw Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7HH.

Y mae'n gorff sydd â'r prif nod o ddarparu tai rhent fforddiadwy i bobl sydd mewn angen o ran tai. Mae gan Barcud dri is-gwmni; Gofal a Thrwsio ym Mhowys, sy'n darparu cefnogaeth a chymorth i berchen-feddianwyr oedrannus neu anabl, gan eu galluogi i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain; EOM, cwmni cyfyngedig preifat sy'n darparu gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw i feddiannau Barcud ym Mhowys yn ogystal â gwasanaeth masnachol yn yr ardal; yn olaf, prif weithgareddau'r Gymdeithas Gofal yw hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol er budd y cyhoedd drwy gadw pobl rhag cael eu hallgáu'n gymdeithasol oherwydd digartrefedd, neu am eu bod mewn perygl o golli eu cartref, yn byw mewn llety annigonol neu amgylchiadau ansefydlog yng Ngheredigion a'r siroedd cyfagos.

## ASEDAU SEFYDLOG AC ANNIRIAETHOL

Dangosir manylion o newidiadau i asedau anniriaethol Barcud yn nodiadau 9 a 10 i'r datganiadau ariannol.

## TALU CREDYDWYR

Bydd Barcud yn cytuno telerau ac amodau ei drafodion busnes â chyflenwyr adeg cyflenwi. Telir wedyn yn unol â'r telerau hyn, yn amodol ar fod y cyflenwr yn cwrdd â'r telerau ac amodau.

## BUDDSODDI MEWN GWEITHWYR

Y mae gweithwyr brwdfrydig ac ymroddedig yn hanfodol i gyrraedd ein nod o ddarparu gwasanaethau o safon uchel i'n tenantiaid ac y mae'r Bwrdd yn cofleidio'r angen i weithwyr gael eu grymuso a chael cyfranogi ar bob lefel o'r sefydliad.

Y mae Barcud wedi ymrwymo i sicrhau a hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb yn y gwasanaethau a ddarpara ac yn y modd y darperir y gwasanaethau hynny, gan sicrhau bod gwahaniaethau'n cael eu cydnabod. Y mae Barcud hefyd wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb i'w holl weithwyr ac ymgeiswyr am gyflogaeth.

Y mae Barcud wedi ymrwymo i ymateb i amrywiaeth gymdeithasol yn y gymdeithas sydd ohoni ac yn ymlafnio i adlewyrchu hyn yn ei ddiwylliant ei hun fel sefydliad.

Y mae datblygu gweithwyr yn hanfodol i dyfu'r gymdeithas. Cymerir ymagweddiad trefnus at hyfforddiant a datblygiad i alluogi gweithwyr i gyflawni a datblygu eu swyddogaeth o fewn Barcud. Y mae hyn yn cynnwys cyrsiau hyfforddiant mewnol a ddarperir yn lleol, cyrsiau untro o natur arbenigol a hyfforddiant sy'n ymwneud â rhoi systemau busnes ar waith. Bydd Barcud hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymgymryd â chyrsiau a chymwysterau allanol sy'n briodol i anghenion y busnes.

## IECHYD A DIOGELWCH

Y mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau dros bob mater sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch. Y mae Barcud yn meddu ar bolisïau iechyd a diogelwch manwl, yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol ac yn darparu hyfforddiant ac addysg i staff ar faterion iechyd a diogelwch. Byddir yn monitro cydymffurfiaeth drwy gyfarfodydd o'r Fforwm Iechyd a Diogelwch, y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Prosiectau a Pherfformiad a chan y Bwrdd.

## AELODAU'R BWRDD A CHYFARWYDDWYR

Y mae'r aelodau Bwrdd a'r Tîm Arweinyddol a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn a hyd at y dyddiad presennol i'w gweld ar dudalennau 6 i 8. Y mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi o 11 o aelodau a 3 o Gyfetholedigion, a benodwyd yn 2022 i gyflenwi'r sgiliau a'r profiad a oedd eisoes i'w cael.

Y mae asesiad wedi cael ei wneud o sgiliau a phrofiad aelodau i sicrhau bod y Bwrdd yn parhau i gyflawni ei swyddogaeth yn effeithiol.

Y cyfarwyddwyr yw'r Prif Weithredwr ac unrhyw un arall sy'n aelod o Dîm Arweinyddol Barcud. Nid yw'r cyfarwyddwyr yn aelodau o'r Bwrdd, nid oes ganddynt ddim buddiant yng nghyfranddaliadau Barcud ac y maent yn gweithio fel swyddogion gweithredol o fewn yr awdurdod a ddirprwyir gan y Bwrdd.

Y mae gan Barcud bolisïau yswiriant sy'n indemnio ei aelodau Bwrdd a'i gyfarwyddwyr rhag atebolrwydd wrth iddynt weithredu ar ran Barcud.

## TÂL

### *Polisi*

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gytuno lefel tâl ei Gyfarwyddwyr. Bydd yn cytuno penodiad Cyfarwyddwyr a'u tâl, yn ogystal â'r brîff y gall y Prif Weithredwr ddod i delerau ar gyflogau staff oddi mewn iddo.

Bydd y Bwrdd yn rhoi sylw astud i lefelau tâl yn y sector wrth bennu pecynnau tâl y Cyfarwyddwyr. Gosodir cyflogau gan gymryd i ystyriaeth gyfrifoldebau pob Cyfarwyddwr a lefelau tâl am swyddi cyffelyb.

### *Pensiynau*

Y mae'r cyfarwyddwyr yn aelodau o Gronfa Bensiwn Dyfed, cynllun pensiwn cyflog terfynol ac iddo fuddion wedi'u diffinio, neu Gynllun Pensiwn Royal London. Byddant yn cyfranogi o'r cynllun ar yr un telerau â phob aelod cymwys arall o'r staff a bydd Barcud yn cyfrannu at y cynllun ar ran ei weithwyr.

### *Contractau gwasanaeth*

Cyflogir y Cyfarwyddwyr ar yr un telerau â gweddill y staff, er bod eu cyfnod rhybudd rhwng 3 a 6 mis.

## CYFRANOGIAD GAN DENANTIAID

Cydnabyddwn mai gweithio mewn partneriaeth â thenantiaid yw'r ffordd orau o sicrhau bod Barcud yn darparu gwasanaethau y mae tenantiaid yn eu dymuno ac yn eu gwerthfawrogi. Y mae Barcud hefyd yn credu mai cyfranogiad effeithiol ac ystyrlon gan denantiaid yw'r ffordd orau o wybod a yw gwasanaethau'n cael eu darparu i'r safon y mae gan gwsmeriaid yr hawl i'w disgwyl.

Byddwn yn mynd ati'n weithredol i annog cyfranogiad gan denantiaid wrth i benderfyniadau gael eu gwneud drwy ddatblygu a hybu mecanweithiau amrywiol a dyfeisgar ar gyfer ymgysylltiad; bydd tenantiaid yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

## GWARANTU MESURAU RHEOLAETH MEWNOL

Y Bwrdd sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sefydlu a chynnal yr holl drefn reolaeth fewnol a thros adolygu ei heffeithiolrwydd. Y mae'r drefn reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli'r risg o fethu â chyflawni amcanion y busnes, yn hytrach na'i diddymu, ac i roi sicrwydd rhesymol, ac nid llwyr, rhag camfynegiad neu golled o bwys. Bydd y Bwrdd yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan Gyfarwyddwyr a rheolwyr ar reoli risgiau a threfniadau rheolaeth yn ystod y flwyddyn.

Y mae'r trefniadau a fabwysiedir gan y Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd y drefn reolaeth fewnol, ynghyd â rhai o elfennau allweddol y fframwaith rheoli, yn cynnwys:

### *Nodi a chloriannu risgiau allweddol*

Y mae gan Barcud strategaeth rheoli risgiau, sy'n nodi agwedd a chyfrifoldeb y Bwrdd o ran risgiau wrth gyflawni ei amcanion.

### *Amgylchedd rheolaeth a mesurau rheolaeth mewnol*

Y mae'r prosesau i nodi a rheoli'r risgiau allweddol y mae Barcud yn agored iddynt yn rhan annatod o'r amgylchedd rheolaeth mewnol. Y mae prosesau o'r fath yn cynnwys cynllunio strategol, recriwtio Cyfarwyddwyr a staff uwch, monitro perfformiad yn rheolaidd a gosod safonau a thargedau ar gyfer meysydd gweithredol allweddol.

### *Systemau gwybodaeth ac adrodd*

Y mae'r gweithdrefnau adrodd ariannol yn cynnwys cyllidebau manwl ar gyfer y flwyddyn i ddod a rhagolygon ar gyfer blynyddoedd

dilynol. Caiff y rhain eu hadolygu, eu cymeradwyo a'u monitro drwy gydol y flwyddyn gan y Bwrdd. Bydd y Bwrdd a Phwyllgorau'n derbyn adroddiadau'n rheolaidd ar ddangosyddion perfformiad allweddol i asesu cynnydd tuag at gyflawni amcanion, targedau a chanlyniadau busnes allweddol.

### *Trefniadau monitro*

Bydd adroddiadau rheolaidd gan reolwyr ar faterion mesurau rheolaeth yn rhoi sicrwydd i reolwyr ac i'r Bwrdd. Ategir hyn drwy adolygiadau rheolaidd gan yr Archwilwyr Mewnol sy'n rhoi sicrwydd annibynnol i'r Bwrdd drwy ei Bwyllgor Archwilio a Risg. Y mae'r trefniadau'n cynnwys gweithdrefn drwyadl, a gaiff ei monitro gan y pwyllgor hwnnw, i sicrhau bod camau cywiro'n cael eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw broblemau rheoli o bwys. Os cwyd unrhyw broblemau, fe'u hadroddir i'r Bwrdd.

## MESURAU RHEOLAETH ARIANNOL MEWNOL

Y Bwrdd sy'n dwyn y cyfrifoldeb dros sicrhau bod y corff yn rhedeg amgylchedd rheolaeth diogel. Pwrpas y mesurau rheolaeth yw rhoi sicrwydd rhesymol o ran:

- dibynadwyedd gwybodaeth ariannol a ddefnyddir o fewn y Grŵp ac i'w chyhoeddi
- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol
- diogelu asedau rhag defnydd heb awdurdod.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sefydlu a chynnal trefnau rheolaeth ariannol fewnol. Ni all trefnau o'r fath roi sicrwydd llwyr rhag camfynegiadau neu golled ariannol o bwys, ond fe ellir disgwyl iddynt roi sicrwydd rhesymol.

Y mae'r elfennau allweddol mewn sicrhau amgylchedd diogel yn cynnwys:

- presenoldeb polisïau a gweithdrefnau ffurfiol
- dirprwyo awdurdod yn glir
- lefel briodol o staff profiadol a chanddynt gymwysterau addas
- arfarnu perfformiad mewn modd priodol
- paratoi a monitro rhagolygon a chyllidebau gan gynnwys profion straen a nodi mesurau lliniaru
- awdurdodi mewn modd priodol ymrwymiadau mawr a allai beri risg i'r Grŵp
- gwasanaeth archwilio mewnol cryf ac annibynnol, sy'n adrodd yn briodol i aelodau, a mecanweithiau dilyniant addas yn eu lle.

Y mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi adolygu effeithiolrwydd y drefn reolaeth fewnol yn y Grŵp mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 o Fawrth 2023. Ni chafwyd dim gwendidau mewn mesurau rheolaeth ariannol mewnol a esgorodd ar golledion, treuliau annisgwyl neu achosion o ansicrwydd pwysig y mae angen eu datgelu yn y datganiadau ariannol neu yn adroddiad yr archwilwyr ar y datganiadau ariannol, ac ni ŵyr y Bwrdd am unrhyw wendidau o'r fath o 1 o Ebrill 2022 hyd heddiw.

## CWMNI GWEITHREDOL

Ar ôl gwneud ymholiadau, y mae gan y Bwrdd le rhesymol i ddisgwyl bod Barcud yn meddu ar adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy, sef cyfnod o ddeuddeng mis ar ôl y dyddiad y mae'r adroddiad a'r datganiadau ariannol wedi'u llofnodi arno. Am y rheswm hwn, y mae'n parhau i fabwysiadu'r sail o gwmni gweithredol yn y datganiadau ariannol.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R BWRDD RHEOLI

Y Bwrdd Rheoli sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol ac Arferion Cyfrifyddu sy'n Gyffredinol Dderbyniol yn y Deyrnas Unedig.

Y mae Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 a deddfwriaeth ynghylch Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Bwrdd Rheoli baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ddatganiadau ariannol sy'n rhoi arolwg gwir a theg o sefyllfa Barcud ac o incwm a gwariant Barcud am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae hi'n ofynnol i'r Bwrdd:

- ddethol polisïau cyfrifyddu addas a'u defnyddio mewn modd cyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn bwyllog;
- datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir ar gyfer Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig 2018 (DAA), yn amodol ar unrhyw wyriadau o bwys a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail cwmni gweithredol oni bydd yn amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd Barcud yn parhau mewn busnes.

Y Bwrdd Rheoli sy'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu mewn modd rhesymol o gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol Barcud ac yn ei alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Y Bwrdd hefyd sy'n gyfrifol am gynnal trefn reolaeth fewnol ddigonol a diogelu asedau Barcud ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

## DATGELU GWYBODAETH I'R ARCHWILYDD

Ar ddyddiad gwneud yr adroddiad hwn y mae pob un o aelodau Bwrdd Barcud, fel y'u nodir ar dudalennau 33-36, yn cadarnhau'r canlynol:

- hyd y gŵyr pob aelod o'r Bwrdd, nid oes dim gwybodaeth berthnasol y mae ei hangen ar Archwilydd Barcud mewn perthynas â pharatoi eu hadroddiad nad yw'r archwilydd yn ymwybodol ohoni, ac
- y mae pob aelod o'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd fel aelod o'r Bwrdd er mwyn ei (g)wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol y mae ei hangen ar archwilydd Barcud mewn perthynas â pharatoi eu hadroddiad ac i sefydlu bod archwilydd Barcud yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd ar y 27ain o Orffennaf 2023 a llofnodwyd ar ei ran gan:



Alison Thorne
Cadeirydd y Bwrdd Rheoli



# Llywodraethiant

Bydd Barcud yn defnyddio Cod Llywodraethiant y sector yn ganllaw, a hwnnw'n canolbwyntio ar saith egwyddor;

### Pwrpas y Sefydliad

### Gwneud Penderfyniadau, Risg a Rheolaeth

### Arweinyddiaeth

### Effeithiolrwydd Byrddau

### Uniondeb

### Amrywiaeth

### Agoredrwydd ac Atebolrwydd

Bydd llywodraethiant da'n galluogi ac yn hyrwyddo cydymffurfiaeth corff â deddfwriaeth a rheoleiddio perthnasol. Bydd hefyd yn hyrwyddo agweddau a diwylliant lle mae popeth yn gweithio tuag at wireddu gweledigaeth y corff. Y Bwrdd sy'n arwain ar lywodraethiant, ond bydd llywodraethiant da'n cynnwys yr holl gorff o'r brig i'r bôn. Y mae Barcud wedi'i asesu ei hun yn erbyn y Cod ac y mae'n gyfforddus ei fod yn rhoi'r saith egwyddor ar waith drwy'r holl sefydliad.

Cafodd Barcud ei ddyfarniad rheoleiddio blynyddol gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2022.

Nododd y dyfarniad y canlynol:

*Llywodraethiant a Gwasanaethau i Denantiaid*

**- Yn cydymffurfio**

Mae'r Gymdeithas yn cwrdd â'r safonau rheoleiddiol ac fe gaiff oruchwyliaeth reoleiddiol yn ôl y drefn arferol.

*Hyfywedd Ariannol*

**- Yn cydymffurfio**


Mae'r Gymdeithas yn cwrdd â'r safonau rheoleiddiol ac fe gaiff oruchwyliaeth reoleiddiol yn ôl y drefn arferol.

Yn sgil yr adolygiad o lywodraethiant yn 2022/23, bu newid yn y strwythur pwyllgorau er mwyn gwella effeithiolrwydd cyfarfodydd. Ar gyfer 2023/24 mae'r strwythur pwyllgorau wedi'i gyfansoddi o'r canlynol:

### Pwyllgor Llywodraethiant a Thâl

### Pwyllgor Archwilio a Risg

### Pwyllgor Prosiectau a Pherfformiad






# Aelodau Bwrdd Barcud



## *Alison Thorne*

**Cadeirydd Bwrdd Barcud.**

Mae gan Alison wybodaeth werthfawr fel aelod Bwrdd profiadol dros ben, ac mae ganddi hanes rhagorol o gyflawni swyddi arwain. Mae ei phersbectif amrywiol a'i gallu pendant i feddwl yn strategol yn golygu ei bod yn Gadeirydd delfrydol i arwain Bwrdd Barcud wrth i'r Grŵp barhau i dyfu ac ymaddasu mewn diwydiant sy'n newid yn gyflym. Yn Gadeirydd, yn Gyfarwyddwr Anweithredol, yn Ymddiriedolwr ac yn aelod o Bwyllgorau, hi yw sylfaenydd atconnect, sef Cwmni Datblygu Busnes a Phobl. Gyrfa gorfforaethol ryngwladol ym maes manwerthu, gan ddal swyddi ar Fyrddau gweithredol Mothercare, George at Asda ac Otto UK. Swyddi mewn arweinyddiaeth weithredol yn Kingfisher a Storehouse, gan arbenigo ym maes Gweithrediadau, Prynu, Marchnata a Chyrchu. Partner mewn cwmni recriwtio bwtîc, cyn iddi sefydlu 'atconnect', sef busnes sy'n cynorthwyo cwmnïau i greu timau llwyddiannus drwy recriwtio swyddogion gweithredol a gwneud gwaith mentora yn sectorau'r Cyfryngau, Manwerthu, Tai, Gofal Iechyd a'r sector Digidol. Gynt yn Gyfarwyddwr Anweithredol i Thought Provoking Consulting, yn Ymddiriedolwr i'r Tropical Forest Trust (rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy) ac yn Ymddiriedolwr ac yna'n Gadeirydd i Chwarae Teg (sef prif elusen Cymru ym maes cydraddoldeb). Yn aelod o Fwrdd Chwaraeon Cymru, ac yn Llywodraethwr i Brifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae Alison yn adeiladu ar ei gwaith ym maes cydraddoldeb fel Arweinydd Cymru ar gyfer Women on Boards, ac mae'n Aelod o'r Panel Annibynnol ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus i Lywodraeth Cymru.

Presenoldeb yn y Bwrdd: Penodwyd Ebrill 2023



## *Dafydd Lewis*

**Aelod Cyfetholedig, Aelod o'r Pwyllgor Prosiectau a Pherfformiad.**

Yn wreiddiol o'r Tymbl yng Nghwm Gwendraeth ac yn byw ers dros 30 mlynedd yn Nolgellau. Wedi ymddeol o Lywodraeth Leol fel Cyfarwyddwr Corfforaethol gyda Chyngor Gwynedd a chanddo gyfrifoldebau strategol am ystod o wasanaethau, gan gynnwys Tai a Gofal Cymdeithasol i Oedolion, a chyfrifoldebau arweiniol am Iechyd a Lles a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Ers ymddeol, mae wedi bod yn aelod o Fwrdd Grŵp Cynefin gan gynnwys bod yn Gadeirydd y Bwrdd, y mae'n gwirfoddoli gyda Chyngor ar Bopeth ac mae'n Ysgrifennydd Clwb Rygbi Dolgellau. Yn rhugl yn y Gymraeg.

Presenoldeb yn y Bwrdd: ☐☐☐☐✓✓✓✓✓

Penodwyd Tachwedd 2022



## *Kaye Law-Fox*

**Uwch-Gyfarwyddwr Annibynnol (UGA), Aelod Cyfetholedig, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethiant a Thâl.**

20 mlynedd o brofiad o weithio fel swyddog gweithredol ac uwch-reolwr yn y sector cyhoeddus, yn cyflwyno newid cenedlaethol a rhanbarthol cymhleth a rhaglenni llywodraethu strategol. Yn Gadeirydd, yn Is-gadeirydd ac yn Aelod Bwrdd profiadol i ddarparwyr cofrestredig tai cymdeithasol ers 2003 ac i gwmnïau rheoli a datblygu asedau masnachol is-gwmnïau. Mae gan Kaye raddau mewn systemau rheoli, rheoli iechyd a rheoli adnoddau gwledig ac mae'n gymwysedig fel rheolwr prosiectau, rhaglenni a phortffolios.

Presenoldeb yn y Bwrdd: ☐☐☐☐✓✓✓✓✗

Penodwyd Tachwedd 2022



## *Richard Woolley*

**Aelod Cyfetholedig, Aelod o’r Pwyllgor Prosiectau a Pherfformiad.**
Dros 20 mlynedd o brofiad yn y sector tai fel uwch-reolwr mewn cymdeithasau tai Trosglwyddiad Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (TGRF) yn ogystal â rhai traddodiadol. Mae ganddo 7 mlynedd hefyd o brofiad yn sefydliadau’r GIG cyn hynny. Yn 2019, cafodd Richard ei benodi’n Brif Weithredwr Connexus yn dilyn uno Grwpiau Shropshire Housing a Herefordshire Housing yn 2017. Mae Connexus yn rheoli 10,000 o gartrefi, mae’n gyflogwr o bwys ar draws Swydd Amwythig a Swydd Henffordd ac mae’n datblygu 250 o gartrefi bob blwyddyn.

Presenoldeb yn y Bwrdd: ☐ ☐ ☐ ☐ ✗ ✓ ✓ ✓ ✗

Penodwyd Tachwedd 2022



## *Steve Cripps*

**Aelod o’r Pwyllgor Archwilio a Risg, Aelod o Fwrdd y Gymdeithas Gofal.**
Wedi ymddeol fel Prif Swyddog (Cyfarwyddwr Strategol) llywodraeth leol â rhyw 30 mlynedd o brofiad. Yn brofiadol o ran gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Yn Gyn-Lywodraethwr Ysgol, ac yn meddu ar brofiad ar Fyrddau Rheoli yn y Sector Wirfoddol. Yn brofiadol fel Aelod, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Bwrdd Cymdeithas Dai. Cyn-aelod Annibynnol o Bwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion.

Presenoldeb yn y Bwrdd: ✓ ✓ ✓ ✗ ✓ ✓ ✓ ✓ ✗



## *Mererid Boswell*

**Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, Aelod o’r Pwyllgor Llywodraethiant a Thâl.**
Cyfrifydd siartredig â phrofiad o gyllid yn y sectorau elusennol a chyhoeddus. Yn byw yng Ngheredigion ers 12 mlynedd a bu’n aelod o Gyngor Tref Aberystwyth. Trysorydd Arad Goch (cwmni theatr) a Chadeirydd Camau Cyntaf i Ddysgu (elusen darpariaeth feithrin). Pennaeth Busnes a Chyllid i Gyngor Llyfrau Cymru. Yn rhugl yn y Gymraeg a’r Saesneg ac yn dysgu Sbaeneg.

Presenoldeb yn y Bwrdd: ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓



## *Enid Roberts*

**Cadeirydd y Pwyllgor Prosiectau a Pherfformiad, Aelod o’r Pwyllgor Llywodraethiant a Thâl, Aelod o’r Pwyllgor Archwilio a Risg.**
Yn ymgynghorydd rheolaeth hunangyflogedig. Bu’n gweithio gynt mewn llywodraeth leol â phrofiad ar lefel strategol mewn TGCh, a rheoli Prosiectau a Rhaglenni. Mwy na 10 mlynedd o brofiad o arweinyddiaeth yn y sector tai cymdeithasol. Cymrawd Siartredig o’r Sefydliad Rheolaeth Siartredig. Cymrawd Siartredig o Gymdeithas Gyfrifiadurol Prydain. Yn rhugl yn y Gymraeg.

Presenoldeb yn y Bwrdd: ✓ ✗ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓





## *Siobhan Johnson*

**Aelod o’r Pwyllgor Llywodraethiant a Thâl, Aelod o’r Pwyllgor Archwilio a Risg.**
Uwch-ymarferydd proffesiynol mewn Adnoddau Dynol a datblygu sefydliadau. Profiad yn y sectorau tai cymdeithasol, gofal cymdeithasol, nwyddau traul gwerthiant cyflym a phreifat. Sgiliau mewn Ymgynghori AD, Hyfforddi, Newid Diwylliant, Meddwl Beirniadol, Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Yn sefyll o blaid cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn eiddgar i bobl wireddu eu llawn botensial. Aelod cyswllt ers cryn amser o’r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu ag MA Anrh. â ffocws ar Wleidyddiaeth o Brifysgol Glasgow.

Presenoldeb yn y Bwrdd: ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✗



## *Cadwgan Thomas*

**Aelod o Fwrdd EOM.**
Pennaeth Datblygu yng Nghymdeithas Dai Newydd. Syrfëwr Meintiau Siartredig. Profiad yn y sector tai cymdeithasol ers 1996. Profiad o oruchwylio datblygiad sawl adnewyddiad, nifer o brosiectau adeiladu o’r newydd a phrosiectau cartref gofal. Aelod o’r Bwrdd ers mis Medi 2014. Yn rhugl yn y Gymraeg.

Presenoldeb yn y Bwrdd: ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓



## *Wyn Jones*

**Aelod o Fwrdd EOM, Is-gadeirydd y Pwyllgor Prosiectau a Pherfformiad, Aelod o’r Pwyllgor Llywodraethiant a Thâl.**
Cymrawd o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (FRICS). Aelod o Sefydliad Siartredig y Cymrodeddwyr (MCIArb). Aelod o Sefydliad y Tystion Arbenigol (MEWI). Arbenigwr mewn eiddo a phrisio yn ymarfer mewn cwmni o Syrfewyr Siartredig. Aelod o’r Bwrdd ers Awst 2020.

Presenoldeb yn y Bwrdd: ✓ ✓ ✓ ✓ ✗ ✓ ✗ ✓ ✓



## *David Hall*

**Aelod o Fwrdd EOM, Aelod o’r Pwyllgor Archwilio a Risg.**
Pennaeth Eiddo’r Grŵp i Wrekin Housing Group. Yn aelod o Sefydliad Siartredig yr Adeiladwyr a’r Sefydliad Rheolaeth Siartredig ill dau. Mwy na 25 mlynedd o brofiad mewn tai cymdeithasol, mewn darparu Rheolaeth Asedau, Iechyd a Diogelwch Eiddo, Caffael, a Datblygu Tai. Ymunodd â’r Bwrdd ym mis Tachwedd 2020.

Presenoldeb yn y Bwrdd: ✓ ✗ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓



## *John Rees*

**Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, Is-gadeirydd Bwrdd y Gymdeithas Gofal, Aelod o’r Pwyllgor Llywodraethiant a Thâl.**
Cyfrifydd Ardystiedig Siartredig. 14 blynedd o brofiad o amryw o swyddogaethau gan gynnwys 7 o fewn y Sector Tai Cymdeithasol. Ar hyn o bryd yn Bennaeth Cyllid yn Plymouth Community Homes. Cysylltiadau â chymuned leol Ceredigion. Wrthi’n dysgu’r Gymraeg.

Presenoldeb yn y Bwrdd: ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓



## *Catherine Shaw*

**Aelod o Fwrdd Gofal a Thrwsio ym Mhowys, Aelod o Fwrdd y Gymdeithas Gofal, Tenant.**
Cyn-fyfyriwr mewn ieithoedd modern ym Mhrifysgol Aberystwyth. Aelod o Grŵp Llywio'r Tenantiaid tra oedd Tai Ceredigion yn cael ei ffurfio. Cyn-aelod hirsefydlog ac ysgrifennydd cofnodion i Grŵp Monitro Tai Ceredigion. Yn aelod o'r Bwrdd ers Rhagfyr 2015. Yn dysgu'r Gymraeg.

Presenoldeb yn y Bwrdd: ✓ ✗ ✓ ✓ ✓ ✗ ✓ ✓ ✓





## *Carina Roberts*

**Aelod o Fwrdd Gofal a Thrwsio Powys, Aelod o'r Pwyllgor Prosiectau a Pherfformiad.**
Yn arwain ym maes tai ers mwy na 30 mlynedd. Profiad o weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector gyhoeddus a'r sector breifat. Wedi bod yn aelod bwrdd o sawl bwrdd gwirfoddol yn cynnwys TPAS Cymru. Yn rhugl yn y Gymraeg.

Presenoldeb yn y Bwrdd: ✓ ✓ ✗ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓

## *Amrywiaeth y Bwrdd*




## *Ymddiswyddiadau*

**John Jenkins** - ymddiswyddodd 04/01/2023 **John Wilkinson** - ymddiswyddodd 16/11/2022

# Gwerth am Arian

Y nod yw gweithio ar y cyd, gan ddefnyddio dyfeisgarwch a chreadigrwydd ein pobl, ein tenantiaid a'n rhanddeiliaid i gyflawni gwelliannau mewn effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, tegwch a darbodaeth i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ein tenantiaid.






# Gwerth am Arian

## *parhad*

Fe wreiddiwn ni ddiwylliant o Werth am Arian yn Barcud drwy'r canlynol:

- Defnyddio ein seilwaith o gyfarfodydd tîm i siarad am Werth am Arian yn rheolaidd â'n holl gydweithwyr.
- Rhannu arferion gorau a dysgu gwersi ar draws y sefydliad i helpu i yrru gwelliannau.
- Ymgysylltu â thenantiaid ynghylch gweithgareddau gwariant (gan gynnwys tendrau mawr) i sicrhau ein bod yn mwyafu budd ac yn gwneud y pethau sydd o bwys iddynt hwy.
- Mynd i'r afael yn rhagweithiol ag unrhyw ostyngiadau mewn perfformiad drwy adolygu cynlluniau gweithredu, dangosyddion perfformiad a gwybodaeth meincnodi'n rheolaidd.
- Craffu ar yr amgylchedd allanol am enghreifftiau o arfer dda, achrediadau a gwobrwyon a wnaiff wella'r ffordd y darparwn ni wasanaethau neu atgyfnerthu ein henw da.
- Tracio ein cynilion (cynilion arian parod a rhai nad ydynt yn arian parod).

### Gwerth Cymdeithasol

"Y mae'n golygu edrych y tu hwnt i bris pob contract unigol ac edrych ar y budd torfol i gymuned. Bydd gwerth cymdeithasol yn gofyn y cwestiwn: 'Os gwerir £1 ar ddarparu gwasanaethau, a ellir defnyddio'r un £1 i gynhyrchu budd ehangach i'r gymuned hefyd?"

Gweithredoedd yr ydym yn mynd i'w gwneud i fwyafu ein gwerth cymdeithasol yw:

- » Sefydlu ein dangosyddion gwerth cymdeithasol gan ystyried yr arfer orau yn y sector ac atborth gan denantiaid.
- » Hybu cyfleoedd am gyflogaeth a mentr drwy'r contractau a ddyfarnwn yn allanol, â phwyslais arbennig ar gyflenwyr lleol a chefnogi Economi Cymru. Bydd hyn yn ei dro yn lleihau ein hôl troed carbon.
- » Ymrwymo i gefnogi prosiectau cymunedol drwy grantiau a lleoliadau gwirfoddoli lle bynnag y bo modd. Hyrwyddo partneriaethau lleol a rhanbarthol.

## Dangosyddion Gwerth am Arian Cartrefi Cymunedol Cymru

| **Gwerth am Arian - Crynodeb Dwy Flynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 o Fawrth** | Barcud | | Cyfartaledd y Sector 2022 |
|---|---|---|---|
| | 2023 | 2022 | |
| Cyfanswm cost gweithredu fesul uned tai cymdeithasol | £2,850 | £2,654 | £3,864 |
| Costau rheolaeth fesul uned tai cymdeithasol | £1,129 | £1,146 | £1,471 |
| Costau ymatebol fesul uned tai cymdeithasol | £1,474 | £1,287 | £1,260 |
| Atgyweiriadau a chydrannau mawr fesul uned tai cymdeithasol (gan gynnwys dibrisiant ac amhariad) | £1,789 | £1,538 | £1,324 |
| Costau drwgddyledion fesul uned tai cymdeithasol | £7 | £65 | £24 |
| Cost gyfartalog gymhwysol cyfalaf | 3.34% | 5.29% | 5.09% |
| Ôl-ddyledion/trosiant tai cymdeithasol gros | 3.4% | 2.5% | 4.6% |
| Rhent fesul uned tai cymdeithasol | £5,902 | £5,692 | £6,216 |
| Colled rhent lleoedd gwag fesul uned tai cymdeithasol | £73 | £64 | £91 |

# Incwm a Gwariant

| ARIAN I MEWN 2022/23 | £'000 |
|---|---|
| Rhent a Thaliadau Gwasanaeth | 23,153,694 |
| Grant Cefnogi Pobl | 259,671 |
| Gwaddol Llywodraeth Cymru | 1,600,000 |
| Grant Tai Cymdeithasol | 27,411,887 |
| Grantiau Eraill | 222,591 |
| Gwerthu Meddiannau Tai | 480,000 |
| Tariff Cyflenwi | 48,185 |
| Incwm Arall | 265,039 |
| Llog a Dderbyniwyd | 219,449 |
| **Cyfanswm** | **53,660,516** |

| ARIAN ALLAN 2022/23 | £'000 |
|---|---|
| Costau Rheolaeth a Gwasanaeth | 5,985,010 |
| Atgyweiriadau o Ddydd i Ddydd | 6,114,432 |
| Gwella Cartrefi | 7,420,948 |
| Prynu Meddiannau Sydd Eisoes yn Bod | 2,534,706 |
| Cartrefi Newydd | 17,991,249 |
| Llog i'w Dalu ar Fenthyciadau | 3,482,590 |
| Costau Eraill | 2,547,976 |
| **Cyfanswm** | **46,076,911** |



# Adolygiad Ariannol

Adroddodd Barcud warged o £4.2m ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 o Fawrth 2023 ar gyfanswm trosiant o £27.8m. Cyflawnwyd lled gweithredu o 26.4%.

Y mae'r canlyniadau ar gyfer y cyfnod ac ar gyfer 2021/22 wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

| Prif Bwyntiau Ariannol – Crynodeb Dwy Flynedd | Canlyniadau Barcud | |
|---|---|---|
| Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 o Fawrth | 2023 | 2022 |
| **Datganiad o Incwm Cynhwysfawr** | **£'000** | **£'000** |
| Cyfanswm trosiant | 27,818 | 27,831 |
| Incwm o osod Tai Cymdeithasol | 26,086 | 24,771 |
| Dibrisiant | 5,140 | 4,839 |
| Amorteiddiad | 1,073 | 1,066 |
| Llog i'w dalu | 3,483 | 3,482 |
| Gwarged gweithredol | 7,342 | 7,416 |
| **Datganiad Sefyllfa Ariannol** | **£'000** | **£'000** |
| Asedau sefydlog, ar gostau dibrisiedig | 244,273 | 220,913 |
| Grant Tai Cymdeithasol a grantiau eraill | 97,334 | 99,150 |
| Asedau cyfredol net | 2,942 | 8,631 |
| Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaeth bensiynau | - | 4,451 |
| Benthyciadau hirdymor | 103,620 | 94,380 |
| Cyfanswm cronfeydd wrth gefn | 32,789 | 23,799 |

# Risgiau Ariannol

Y mae gweithgareddau Barcud yn ei adael yn agored i nifer o risgiau ariannol.

## Risg Llif Arian

Un o'r prif risgiau yw'r posibilrwydd o newidiadau mewn cyfraddau llog. Fel y safai pethau ar 31ain o Fawrth 2023, yr oedd gan Barcud 90% o'i rwymedigaethau benthyciad ar gyfradd llog sefydlog. Risg arall yw colli incwm oherwydd yr argyfwng costau byw, chwyddiant gwahaniaethol a newid yn y polisi gosod rhenti. Y mae colli'r £1.6m o gyllid llenwi bwlch gan Lywodraeth Cymru hefyd yn risg, er ei fod wedi'i warantu ar sail dreigl o ddwy flynedd. Y mae mesurau rheolaeth mewnol yn eu lle megis profion straen rheolaidd a gwaith lliniaru ar y cynllun busnes a darbodaeth wrth osod cyllidebau.

## Risg Credyd

Prif asedau Barcud yw daliannau yn y banc ac arian parod, ôl-ddyledion rhent a derbyniadwyon eraill. Y mae'r symiau a gyflwynir yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol yn net o lwfansau ar gyfer drwgddyledion. Bydd y gymdeithas yn darparu'n llwyr ar gyfer ôl-ddyledion cyn-denantiaid heblaw lle asesir bod adennill yn debygol. Y mae'r ddarpariaeth rhag ôl-ddyledion tenantiaid presennol wedi'i seilio ar broffeil oed y symiau dyledus. Nid yw'r risg gredyd wedi'i chrynhoi'n sylweddol yn unlle, a'r hyn yr ydym yn agored iddi wedi'i gwasgaru ar draws nifer fawr o wrthbartïon a thenantiaid.

## Risg Hylifedd

Er mwyn cynnal hylifedd i sicrhau bod cronfeydd digonol ar gael ar gyfer gweithrediadau parhaus a datblygiadau yn y dyfodol, y mae Barcud yn defnyddio cymysgedd o gyllid hirdymor a byrdymor. Y mae ymarfer ailgyllido mawr yn 2021/22 o £50 miliwn a chyfleuster cylchdroi o £20m yn golygu bod gan Barcud ddigon o hylifedd ar gyfer y 5 mlynedd nesaf o leiaf.

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Barcud Cyf

## Barn

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Barcud Cyf (y rhiant-gymdeithas) a'i is-gwmnïau (y grŵp) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 o Fawrth 2023 sydd wedi'u cyfansoddi o Ddatganiad Incwm Cynhwysfawr y grŵp a'r rhiant-gymdeithas, Datganiad Sefyllfa Ariannol y grŵp a'r rhiant-gymdeithas, Datganiad Newidiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn i'r grŵp a'r rhiant-gymdeithas, Datganiad Llifau Arian y grŵp a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu o bwys. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" (Arferion Cyfrifyddu sy'n Gyffredinol Dderbyniol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, y mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg wir a theg ar gyflwr busnes y grŵp a'r rhiant-gymdeithas fel y safai ar 31 o Fawrth 2023 ac ar warged y grŵp a'r rhiant-gymdeithas ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben y pryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu sy'n Gyffredinol Dderbyniol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Deddf Tai ac Adfywio 2008 a'r Penderfyniad Cyffredinol ynghylch Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015.

## Sail y farn

Gwnaethom ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (UK)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau ni o dan y safonau hynny ymhellach yn y rhan o'n hadroddiad ar gyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol. Yr ydym yn annibynnol ar y gymdeithas yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC ac yr ydym wedi cyflawni'n cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

## Casgliadau mewn perthynas â chwmni gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Bwrdd o'r sail cwmi gweithredol i gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a wnaethom, nid ydym wedi nodi dim achosion o ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu'n dorfol, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r grŵp a'r rhiant-gymdeithas i barhau'n gwmni gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf i'r dyddiad pryd y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w rhyddhau.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r Bwrdd mewn perthynas â chwmni gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Y mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwilwyr ar y rheini. Nid yw'n barn ni ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn echblyg fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad gwarant mewn perthynas â hi.

Yr ydym wedi adolygu datganiad y Bwrdd ar gydymffurfiaeth y gymdeithas â chylchlythyr Llywodraeth Cymru RSL 02/10 'Rheolyddion ac adroddiadau mewnol'. Nid oes gofyn inni fynegi barn ar effeithiolrwydd trefn reolaeth fewnol y gymdeithas.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson mewn ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth ni a gafwyd yn yr archwiliad neu'n ymddangos rywsut arall fel petai wedi'i chamfynegi mewn rhyw ffordd berthnasol.

Os nodwn anghysonderau perthnasol neu gamfynegiadau perthnasol ymddangosiadol o'r fath, y mae gofyn inni benderfynu a oes camfynegiad perthnasol yn y datganiadau ariannol ynteu camfynegiad perthnasol o'r wybodaeth arall. Os down i'r casgliad, ar sail y gwaith a wnaethom, fod camfynegiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, y mae gofyn inni adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill a ragnodir gan gylchlythyr Llywodraeth Cymru RSL 02/10 'Rheolyddion ac adroddiadau mewnol'

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad mewn perthynas â datganiad y Bwrdd ar reolaeth fewnol:

- y mae'r Bwrdd wedi darparu'r datgeliadau a ofynnir gan gylchlythyr Llywodraeth Cymru RSL 02/10 'Rheolyddion ac adroddiadau mewnol'; ac
- nid yw'r datganiad yn anghyson â'r wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni o'n gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol.

## Materion y mae gofyn inni adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'n ofynnol inni adrodd arnynt i chi o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 os yw'r canlynol, yn ein barn ni, yn wir:

- nad yw'r rhiant-gymdeithas wedi cadw llyfrau cyfrifon iawn; neu
- nad oes trefn foddhaol o reolaeth dros drafodion wedi cael ei chynnal; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r llyfrau cyfrifon; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae arnom eu hangen ar gyfer ein harchwiliad..

## Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Fel a esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd a gyflwynir ar dudalen 9, y Bwrdd sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod wedi'i sicrhau eu bod yn rhoi golwg wir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag a benderfyno'r Bwrdd y mae ei hangen i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamfynegiad o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, y mae'r Bwrdd yn gyfrifol am asesu gallu'r gymdeithas i barhau'n gwmni gweithredol, gan ddatgelu, fel a fo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â chwmni gweithredol a chan ddefnyddio'r sail cwmni gweithredol i gyfrifyddu oni bai bod y Bwrdd yn bwriadu naill ai diddymu'r grŵp neu'r rhiant-gymdeithas neu ddod â gweithrediadau i ben, neu oni bai nad oes ganddynt ddim dewis realistig ond gwneud felly.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrhad rhesymol a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamfynegiad o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a rhoi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Y mae sicrhad rhesymol yn lefel uchel o sicrhad, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a wneir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camfynegiad o bwys pan fo i'w gael. Gall camfynegiadau godi o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn rhai o bwys os gellid disgwyl yn rhesymol y byddent, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerid ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ein cyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol a mynegi barn arnynt yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (DU). Y mae'r safonau hynny'n mynnu ein bod yn cydymffurfio â Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ni dros yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol o dan www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities

## Y graddau yr ystyriwyd y gallai'r archwiliad ganfod achosion o afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

Byddwn yn nodi ac yn cloriannu'r risgiau o gamfynegiad o bwys o'r datganiadau ariannol, boed oherwydd twyll neu wall, ac wedyn yn llunio ac yn cyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymatebol i'r risgiau hynny, gan gynnwys mynnu tystiolaeth archwiliad sy'n ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

Wrth nodi ac ymdrin â risgiau o gamfynegiad o bwys o ran achosion o afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, roedd ein gweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Fe gawsom ddealltwriaeth o gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio ar y grŵp a'r rhiant-gymdeithas, gan ganolbwyntio ar y rhai a gâi effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gâi effaith sylfaenol ar ei weithrediadau. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol y gwnaethom eu nodi yn cynnwys y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol, y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer darparwyr tai cofrestredig: DAA Tai 2018, Deddf Tai ac Adfywio 2008, y Penderfyniad Cyffredinol ynghylch Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015, deddfwriaeth dreth, deddfwriaeth iechyd a diogelwch, a deddfwriaeth gyflogaeth.
- Fe wnaethom holi'r Bwrdd ac adolygu gohebiaeth a chofnodion cyfarfodydd Bwrdd am dystiolaeth o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol. Fe wnaethom hefyd adolygu mesurau rheolaeth sydd gan y Bwrdd yn eu lle, lle mae angen, i sicrhau cydymffurfiaeth.
- Cawsom ddealltwriaeth o'r mesurau rheolaeth sydd gan y Bwrdd yn eu lle i atal a chanfod twyll.
- Fe wnaethom holi'r Bwrdd am unrhyw achosion o dwyll a oedd wedi digwydd yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.
- Cafodd y risg o dwyll a diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau ei thrafod o fewn y tîm archwilio a chynlluniwyd a gwnaed profion i ymdrin â'r risgiau hyn. Fe wnaethom nodi'r potensial o dwyll yn y meysydd canlynol: cyfreithiau'n ymwneud ag adeiladu a darparu tai cymdeithasol, cydnabod natur gweithgareddau'r grŵp a natur reoleiddiedig gweithgareddau'r grŵp.
- Fe wnaethom adolygu datgeliadau mewn perthynas â'r datganiadau ariannol a phrofi'r ddogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod.
- Fe wnaethom holi'r Bwrdd am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a photensial.
- Fe wnaethom gyflawni gweithdrefnau dadansoddiadol i nodi unrhyw berthnasau anarferol neu annisgwyl a allai fod yn arwydd o risgiau o gamfynegiadau o bwys oherwydd twyll.
- Wrth ymdrin â'r risg o dwyll drwy fod rheolwyr yn sarnu mesurau rheolaeth mewnol fe wnaethom brofi priodolrwydd nodiadau yn y llyfrau cofnodion ac asesu a oedd y dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn dangos gogwyddiad posib.

Oherwydd cyfyngiadau hanfodol archwiliad, mae risg anorfod y gall fod rhai camfynegiadau o bwys nad ydym wedi'u canfod yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chyflawni ein harchwiliad yn iawn yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, fel gydag unrhyw archwiliad, arhosai risg uwch o beidio â chanfod achosion o afreoleidd-dra, gan y gall y rhain fod yn ymwneud â chydgynllwynio, ffugio, hepgor pethau'n fwriadol, camgynrychioliadau, neu sarnu mesurau rheolaeth mewnol. Nid ydym yn gyfrifol am atal twyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau ac ni ellir disgwyl inni ganfod pob twyll a diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau.

## Defnydd o'r adroddiad archwilio

I aelodau'r gymdeithas fel corff yn unig y gwneir yr adroddiad hwn yn unol â Rhan 7 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 a Phennod 4 o Ran 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008. Ymgymerwyd â'n gwaith archwilio er mwyn inni allu datgan i aelodau'r gymdeithas y materion hynny y mae gofyn inni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac nid i unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ymgymryd â chyfrifoldeb i neb ond y gymdeithas ac aelodau'r gymdeithas fel corff dros ein gwaith archwilio, dros yr adroddiad hwn, na thros y dyfarniadau yr ydym wedi'u gwneud.

*Beever and Struthers*

Beever and Struthers, Archwilydd Statudol
The Colmore Building
20 Colmore Circus Queensway
Birmingham
B4 6AT

Dyddiad: 27 Gorffennaf 2023



# Datganiad Incwm Cynhwysfawr y Grŵp a'r Gymdeithas

*Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 o Fawrth 2023*

| | Nodyn | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **TROSIANT** | 2a | 30,765 | 30,650 | 27,818 | 27,831 |
| Llai: Costau gweithredu | 2a | (22,439) | (21,011) | (20,103) | (18,669) |
| : Costau Gwerthiannau | | (373) | (1,746) | (373) | (1,746) |
| Gwarged ar waredu meddiannau tai | 3 | - | - | - | - |
| **GWARGED GWEITHREDOL** | 2a | 7,953 | 7,893 | 7,342 | 7,416 |
| Rhodd Cymorth | | - | - | 147 | - |
| Llog derbyniadwy | | 223 | 2 | 220 | 2 |
| Costau llog a chyllido | 7 | (3,483) | (3,482) | (3,483) | (3,482) |
| Ailgyllido | 24 | - | (7,529) | - | (7,529) |
| **GWARGED/(DIFFYG) AR GYFER Y FLWYDDYN** | 4 | 4,693 | (3,116) | 4,226 | (3,593) |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | 21 | 4,764 | 1,196 | 4,764 | 1,196 |
| Ailbrisio eiddo | 9 | 30 | 550 | - | 429 |
| **CYFANSWM (COLLED)/ENILLION CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN** | | 9,487 | (1,370) | 8,990 | (1,968) |

# Datganiad Sefyllfa Ariannol y Grŵp a'r Gymdeithas

*Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 o Fawrth 2023*

| | Nodyn | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | | |
| Asedau Anniriaethol | 8 | 669 | 670 | 609 | 581 |
| Meddiannau tai - Cost gros llai dibrisiant | 9 | 235,931 | 212,594 | 235,931 | 212,594 |
| Eiddo, peiriannau ac offer eraill | 10 | 6,969 | 6,898 | 5,966 | 5,956 |
| Eiddo buddsoddi | | 265 | 240 | - | - |
| Buddsoddiadau | 11 | 756 | 771 | 1,767 | 1,782 |
| | | 244,590 | 221,173 | 244,273 | 220,913 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Stocrestrau | 12 | 332 | 556 | 107 | 428 |
| Dyledwyr | 13 | 16,924 | 17,119 | 16,429 | 16,528 |
| Arian parod a chyfatebol i arian parod | | 25,329 | 8,009 | 23,448 | 6,800 |
| | | 42,586 | 25,684 | 39,985 | 23,756 |
| **CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DOD YN DDYLEDUS O FEWN UN FLWYDDYN** | 14 | (37,231) | (15,045) | (37,044) | (15,125) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | 5,355 | 10,639 | 2,941 | 8,631 |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | 249,945 | 231,812 | 247,214 | 229,544 |
| Ased/(rhwymedigaeth) bensiwn | 21 | - | (4,451) | - | (4,451) |
| **CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DOD YN DDYLEDUS AR ÔL MWY NAG UN FLWYDDYN** | 15 | (214,700) | (201,603) | (214,426) | (201,294) |
| **ASEDAU NET** | | 35,245 | 25,758 | 32,788 | 23,799 |
| **CYFALAF A CHRONFEYDD WRTH GEFN** | | | | | |
| Cyfalaf cyfranddaliadau di-ecwiti | 16 | - | - | - | - |
| Cronfeydd Refeniw wrth Gefn | | 35,245 | 25,758 | 32,788 | 23,799 |
| | | 35,245 | 25,758 | 32,788 | 23,799 |

Cafodd y datganiadau ariannol ar dudalennau 43 i 72 eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar 27ain o Orffennaf 2023 a'u llofnodi ar ei ran gan:



**Dafydd Lewis**
Cadeirydd Dros Dro



**John Rees**
Aelod Bwrdd



**Kate Curran**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y Grŵp

# Datganiad Newidiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i'r Grŵp a'r Gymdeithas

*Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 o Fawrth 2023*

## *Datganiad Newidiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i'r Grŵp*

| | Cronfeydd refeniw wrth gefn £'000 |
|---|---|
| Ar 1 o Ebrill 2021 | 27,128 |
| Gwarged/(colled) ar gyfer y flwyddyn | (3,116) |
| Gwarged actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | 1,196 |
| Gwarged ar ailbrisiadau Eiddo Rhydd-ddaliadol | 550 |
| Ar 31 o Fawrth 2022 | 25,758 |
| Ar 1 o Ebrill 2022 | 25,758 |
| Gwarged/(colled) ar gyfer y flwyddyn | 4,693 |
| Colled actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | 4,764 |
| Gwarged ar ailbrisiadau Eiddo Rhydd-ddaliadol | 30 |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | 35,245 |

## *Datganiad Newidiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i'r Gymdeithas*

| | Cronfeydd refeniw wrth gefn £'000 |
|---|---|
| Ar 1 o Ebrill 2021 | 25,767 |
| Gwarged/(colled) ar gyfer y flwyddyn | (3,593) |
| Gwarged actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | 1,196 |
| Gwarged ar ailbrisiadau Eiddo Rhydd-ddaliadol | 429 |
| Ar 31 o Fawrth 2022 | 23,799 |
| Ar 1 o Ebrill 2022 | 23,798 |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | 4,226 |
| Ennill/(colled) actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | 4,764 |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | 32,788 |

# Datganiad Llifau Arian y Grŵp

*Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 o Fawrth 2023*

| | Nodyn | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Arian net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu** | A | 11,604 | 12,250 |
| **Llifau arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | | (28,928) | (20,016) |
| Enillion o werthu eiddo, peiriannau ac offer | | 505 | 1,051 |
| Grantiau a dderbyniwyd | | 27,621 | 6,392 |
| Llog a dderbyniwyd | | 223 | 3 |
| Ailbrisio eiddo | | (30) | 540 |
| **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | 10,905 | (13,112) |
| **Llifau arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Costau cyllid a dalwyd | | (2,898) | (2,957) |
| Benthyciadau newydd | | 10,000 | 41,932 |
| Ad-dalu arian a fenthyciwyd | | (776) | (29,509) |
| Elfennau llog les cyllid | | - | (1) |
| Costau ailgyllido | | - | (7,529) |
| **Llif arian net o weithgareddau cyllido** | | 6,326 | 1,937 |
| **Cynnydd net mewn arian parod ac elfennau cyfatebol i arian parod** | | 17,231 | 1,075 |
| Arian parod ac elfennau cyfatebol i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | | 8,009 | 6,934 |
| Arian parod ac elfennau cyfatebol i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | | 25,329 | 8,009 |

| | | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| **A** | **Arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu** | | |
| | Gwarged gweithredu ar gyfer y flwyddyn | 7,997 | 8,025 |
| | Addasiad am eitemau amgen nag arian parod: | | |
| | Dibrisiant asedau sefydlog | 5,420 | 5,052 |
| | Amorteiddiad grantiau llywodraeth | (1,073) | (1,066) |
| | Enillion o werthu EPO | (55) | (47) |
| | Lleihad/(cynnydd) mewn stocrestrau | 224 | (389) |
| | Lleihad/(cynnydd) mewn dyledwyr | (1,596) | (222) |
| | Cynnydd/(lleihad) mewn credydwyr | 599 | 896 |
| | **Arian parod net a gynhyrchwyd gan weithgareddau gweithredu** | 11,604 | 12,250 |



# Datganiad Llifau Arian y Grŵp

*Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 o Fawrth 2023*

### *Llif Arian Rhydd ar gyfer y Flwyddyn*

| | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu | 11,604 | 12,249 |
| Llog a dalwyd | (2,898) | (2,957) |
| Llog a dderbyniwyd | 223 | 2 |
| **Addasiad am ailfuddsoddi mewn meddiannau mewn bodolaeth eisoes** | | |
| Cydrannau newydd yn lle hen rai | (7,102) | (6,009) |
| Prynu asedau sefydlog eraill yn lle hen rai | (319) | (254) |
| Grant a dderbyniwyd ar gyfer cydrannau newydd yn lle hen rai | - | - |
| **Arian parod rhydd a gynhyrchwyd cyn ad-daliadau ar fenthyciadau** | 1,507 | 3,031 |
| Benthyciadau a ad-dalwyd (ac eithrio credyd cylchdro a gorddrafftiau) | (776) | (29,059) |
| **Arian parod rhydd a gynhyrchwyd ar ôl ad-daliadau ar fenthyciadau** | 731 | (26,028) |

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

*Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 o Fawrth 2023*

## 1. POLISÏAU CYFRIFYDDU

Mae Barcud wedi'i gofrestru dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac y mae'n Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sydd wedi mabwysiadu rheolau elusennol.

Mae Barcyd Cyf yn endid budd cyhoeddus, fel y'i diffinnir yn FRS 102 ac mae'n gweithredu'r paragraffau perthnasol a ragflaenir â 'PBE' yn FRS 102.

### (a) Confensiwn cyfrifyddu

Paratoir y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol, yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol ac y maent yn cydymffurfio â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir ar gyfer Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig 2018 (DAA), Deddf Tai ac Adfywio 2008 a'r Penderfyniad Cyffredinol ynghylch Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015.

### (b) Sail cyfuno

Mae datganiadau ariannol y grŵp yn cynnwys canlyniadau cyfun Barcud Cyf a'i is-gwmnïau.

### (c) Cwmni gweithredol

Paratoir datganiadau ariannol Grŵp Barcud ar sail cwmni gweithredol.

Gwneir asesiad o gwmni gweithredol, gan y Bwrdd, fel rhan o baratoi'r Datganiadau Ariannol blynyddol, i gadarnhau mai priodol yw defnyddio'r sail hon o hyd. Mae datgeliad o unrhyw ddigwyddiadau neu amodau perthnasol a allai gael effaith sylweddol ar y penderfyniad hwn a'r cynlluniau i ddelio â hwy fel y bo'r angen wedi'u cynnwys yn y Datganiadau Ariannol hyn.

### (d) Trosiant

Y mae trosiant yn cynrychioli incwm o rent ac fel arall sy'n dderbyniadwy (yn net o golledion o leoedd gwag), incwm o werthu eiddo, a grantiau refeniw sy'n dderbyniadwy. Y mae hefyd yn cynnwys grantiau sy'n digolledu gwariant penodol ar y rhaglen welliannau.

Cydnabyddir incwm o rent o'r adeg y cyrraedd meddiannau sy'n cael eu datblygu gwblhad ymarferol neu y dônt fel arall ar gael i'w gosod, yn net o unrhyw leoedd gwag.

Cydnabyddir trosiant yn EOM Cyf am waith cynnal a chadw pan fo risgiau a buddion sylweddol perchenogaeth wedi trosglwyddo i'r prynwr, pan ellir mesur swm y trosiant yn ddibynadwy, pan fo'n debygol y bydd y buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r cwmni a phan ellir mesur yn ddibynadwy y costau sydd wedi codi neu sydd eto i godi mewn perthynas â'r trafodiad. Fel arfer ar adeg cwblhau gwaith y bydd hyn.

### (e) Rhodd Cymorth

Caiff unrhyw wargedion yn yr endid masnachu eu rhoi'n rhodd cymorth i'r rhiant yn ôl a welo'r Bwrdd yn dda.

### (f) Eiddo, peiriannau ac offer - meddiannau tai

Wrth eu cost y datgenir meddiannau tai, llai dibrisiant cronedig a cholledion amhariad cronedig. Y mae cost yn cynnwys cost caffael tir ac adeiladau, costau datblygiad sydd i'w priodoli'n uniongyrchol a chostau benthyca y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i adeiladu meddiannau tai newydd yn ystod y datblygiad. Daw cyfalafu i ben pan fo'r holl weithgareddau, yn sylweddol, sy'n angenrheidiol i wneud yr ased yn barod i'w ddefnyddio wedi'u cwblhau. Dim ond pan fo gwariant yn arwain at gynnydd ym mherfformiad economaidd yr ased y bydd cyfalafu'n digwydd. I gynyddu perfformiad ased, mae'n rhaid i wariant arwain at fod un neu fwy o'r canlynol yn digwydd:

» Mwy o incwm rhent
» Lleihad yn y costau cynnal a chadw yn y dyfodol
» Estyniad sylweddol i oes yr eiddo

Caiff eitemau unigol a brynir dros £1,000 eu cyfalafu yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol cyfun.

**i. Lesddeiliaid**

Lle mai'r lesddeiliad neu'r tenant piau'r hawliau a'r rhwymedigaethau ar gyfer gwella meddiant tai, codir tâl ar y lesddeiliad am unrhyw waith i wella'r cyfryw feddiannau a ddaw i ran y Gymdeithas ac fe'i cydnabyddir yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr cyfun ynghyd â'r incwm cyfatebol a ddaw gan y lesddeiliaid neu'r tenant.

**ii. Meddiannau rhanberchnogaeth**

Caiff meddiannau rhanberchnogaeth sy'n cael eu hadeiladu eu rhannu'n gyfrannol rhwng asedau cyfredol a sefydlog, a hynny wedi'i benderfynu yn ôl canran y meddiannau sydd i'w gwerthu o dan y gwerthiannau tafell gyntaf.

**iii. Meddiannau buddsoddi**

Mae dosbarthiad meddiannau fel eiddo buddsoddi neu dai wedi'i seilio ar y defnydd arfaethedig o'r eiddo. Caiff meddiannau a ddelir i ennill rhenti masnachol neu er mwyn arbrisiant cyfalaf eu dosbarthu ill dau fel meddiannau buddsoddi. Caiff meddiannau a ddefnyddir at ddibenion gweinyddol neu a ddelir er mwyn darparu tai cymdeithasol eu trin fel Meddiannau Tai. Caiff eiddo defnydd cymysg ei rannu rhwng eiddo buddsoddi ac eiddo tai. Cydnabyddir Tŷ Canol fel eiddo buddsoddi o fewn Grŵp Barcud.

### (g) Dibrisiant

**i. Ni ddibrisir tir rhydd-ddaliadol.**

**ii.** Datgenir **asedau anniriaethol** wrth eu cost neu brisiad hanesyddol, llai amorteiddiad cronedig ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Darperir amorteiddiad ar bob ased Anniriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost neu brisiad pob ased ar sail llinell unionsyth yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn: Meddalwedd gyfrifiadurol - 5 mlynedd

**iii. Meddiannau tai**

Rhennir adeiladau'n gydrannau sylweddol ac iddynt oes ddefnyddiol economaidd go wahanol. Codir dibrisiant yn y fath fodd ag i leihau gwerth llyfr gros y gydran i'r gwerth gweddilliol a amcangyfrifir iddi ar sail llinell unionsyth.

Yn unol â gofynion y DAA, dibrisir gwelliannau i feddiannau tai i ddileu'r gost hanesyddol llai'r gwerth gweddilliol ar sail systematig drwy gydol yr oes ddefnyddiol a amcangyfrifir iddynt. Ceir y swm dibrisiadwy ar sail y gost wreiddiol, llai unrhyw werth gweddilliol. Dibrisir y cydrannau sylweddol heblaw'r elfen eiddo weddilliol dros yr oesau canlynol:

| Cydran | Oes |
|---|---|
| Adeiladwaith (gan gynnwys adeiladau ffrâm goed) | 100 mlynedd |
| To – ar ogwydd / concrit | 60 mlynedd |
| To – fel arall | 20 mlynedd |
| Ynysiad | 30 mlynedd |
| Ffenestri a drysau | 30 mlynedd |
| Ailwifriad trydanol | 30 mlynedd |
| Lifft | 25 mlynedd |
| Ystafell ymolchi | 25 mlynedd |
| Cegin | 20 mlynedd |
| Systemau gwresogi | 30 mlynedd |
| Bwyleri gwres canolog | 15 mlynedd |
| Offer addasiad ffisegol | 25 mlynedd |
| Offer chwarae | 15 mlynedd |

Caiff meddiannau a ddelir ar brydlesi hir eu dibrisio dros yr oes ddefnyddiol economaidd a amcangyfrifir iddynt neu gyfnod y brydles os yw hwnnw'n fyrrach.

Codir dibrisiant yn y flwyddyn pan brynwyd, pro rata i'r mis pan brynwyd neu'r dyddiad cwblhau terfynol os yw'n ymwneud â chontract datblygiad i adnewyddu neu adeiladu o'r newydd.

**iv. Asedau sefydlog eraill**

Rhennir eiddo nad yw'n eiddo tai yn Swyddfeydd, Unedau Diwydiannol a Pheiriannau ac Offer at ddibenion gwerth llyfr ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol cyfun; Ni ddibrisir tir rhydd-ddaliadol.

Y prif oesau a ddefnyddir ar gyfer asedau eraill yw:

| Cydran | Oes |
|---|---|
| Meddiannau rhydd-ddaliadol | 50 mlynedd |
| Meddiannau masnachol | 50 mlynedd |
| Gwelliannau i Swyddfeydd | 5 mlynedd |
| Caledwedd TGCh | 5 mlynedd |
| Cerbydau Modur/Eraill | 5 mlynedd |

**v. Meddiannau buddsoddi**

Caiff meddiannau buddsoddi eu mesur ar werth teg yn flynyddol ac unrhyw newid yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr cyfun.

**vi. Amhariad**

Gwneir adolygiadau am amhariad meddiannau tai yn flynyddol neu os bydd arwydd o amhariad i'w gael,

cydnabyddir unrhyw amhariad mewn uned incwm-gynhyrchiol (megis eiddo rhent â thenantiaid ynddo) drwy godiant i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Cydnabyddir amhariad lle bo gwerth llyfr uned incwm-gynhyrchiol yn uwch na'r uchaf o'i werth sylweddoladwy a'i werth mewn defnydd. Bydd Barcud yn chwilio'n flynyddol i weld a oes unrhyw arwydd o amhariad drwy gyfeirio at:

» Dueddiadau yn y cyfraddau eiddo gwag a gosod stoc;
» Cyngor gan briswyr allanol o ran eu disgwyliadau hwy o werth stoc.

Gwneir adolygiadau amhariad ar y meddiannau buddsoddi fel a nodir yn vi.

### (h) Stocrestrau

Datgenir stocrestrau wrth yr isaf o'u cost a'u gwerth sylweddoladwy net.

### (i) Trethiant

Treth Ar Werth (TAW)

Dangosir pob incwm yn net o TAW a dangosir gwariant gan gynnwys TAW anadferadwy. Mae gwerthiant meddiannau newydd eu hadeiladu (neu drosglwyddiad cyntaf buddiant sylweddol mewn unrhyw feddiant) o fewn cwmpas TAW, er bod hynny ar 0%.

Y mae gan Barcud Gysgodfa TAW yn ei lle, ar gyfer y meddiannau a drosglwyddwyd i Tai Ceredigion oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion, wedi'i chymeradwyo gan CThEF. Mae oes anghyfyngedig i'r Gysgodfa TAW ar gyfer y gwaith cylch cyntaf i'w gwblhau ar y meddiannau a oedd wedi'u cynnwys yn y trosglwyddiad.

O dan y cytundeb trosglwyddo trosglwyddodd Cyngor Sir Ceredigion y meddiannau i Tai Ceredigion ynghyd ag ymrwymiad i ymgymryd â'r gwaith SATC ar draul y Cyngor. Y pris a dalwyd am y meddiannau oedd £71,524,223 (heb gynnwys TAW); y mae'r pris hwn yn adlewyrchu gwerth marchnad y stoc â thenantiaid, sef dim, a gwerth amcangyfrifedig y gwaith, sef £71,524,223 (heb gynnwys TAW).

Treth Gorfforaeth

Nid yw Barcud a'i is-gwmnïau, Gofal a Thrwsio ym Mhowys a'r Gymdeithas Gofal at ei gilydd yn agored i Dreth Gorfforaeth oherwydd eu statws elusennol. Eto, os cyrhaeddir y trothwy gweithgareddau anelusennol ar gyfer Treth Gorfforaeth, fe ddaw Treth Gorfforaeth yn daladwy.

Nid oes gan EOM Cyfyngedig statws elusennol ac felly mae gofyn y canlynol:

Mae treth gyfredol yn cynrychioli swm y dreth sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy mewn perthynas ag elw (neu golled) drethadwy ar gyfer y cyfnodau adrodd cyfredol neu'r rhai a fu. Fe'i mesurir ar y swm y disgwylir iddo gael ei dalu neu ei adfer gan ddefnyddio'r cyfraddau a'r cyfreithiau treth sydd wedi'u deddfu neu wedi'u deddfu'n hanfodol erbyn dyddiad y fantolen.

### (j) Costau Pensiwn

Mae Barcud yn cyfrannu at un cynllun buddion diffiniedig a thri chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Y mae Barcud yn aelod cyfrannol o Gronfa Bensiwn Dyfed, cynllun pensiwn llywodraeth leol sy'n gynllun amlgyflogwr lle mae modd i gyflogwyr unigol fel cyrff derbyniedig nodi eu cyfran hwy o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn. Y mae'r cynllun hwn ar gau i newydd-ddyfodiaid. I'r cynllun hwn y symiau a roddir yn erbyn gwarged gweithredol yw'r costau sy'n deillio o wasanaethau gweithwyr a ddarparwyd yn ystod y cyfnod a chost cyflwyniadau, newid buddion, setliadau a chwtogiadau mewn perthynas â'r cynllun. Fe'u cynhwysir yn rhan o gostau staff. Cynhwysir y gost log net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net o fewn costau cyllid. Y mae ailfesuriadau sy'n cynnwys enillion a cholledion actiwaraidd a'r enillion o asedau'r cynllun (heb gynnwys symiau a gynhwysir mewn llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig) yn cael eu cydnabod yn syth yn y Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr.

Cyllidir cynlluniau buddion diffiniedig, ac asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i rai Barcud, mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Mesurir asedau cynlluniau pensiwn ar werth teg a mesurir rhwymedigaethau ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd unedau rhagamcanol. Ceir y prisiadau actiwaraidd o leiaf unwaith bob tair blynedd ac fe gânt eu diweddaru ar ddyddiad pob Datganiad Sefyllfa Ariannol.

Y mae Barcud hefyd yn cyfranogi o dri chynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig, y Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol (SHPS), a weinyddir gan yr Ymddiriedolaeth Bensiynau, NEST a Royal London. Rhoddir y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn yn erbyn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

Gweithwyr Newydd

Caiff gweithwyr newydd eu haelodi'n awtomatig yn NEST ond fe gânt optio i mewn i'r Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol (SHPS), a'r ddau o'r rheini'n gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Rhoddir y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn fel rhan o gostau staff yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

### (k) Prydlesi Gweithredu

Rhoddir taliadau rhent o dan brydlesi gweithredu yn erbyn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

### (l) Gwerthu Meddiannau Tai

Er nad yw'n fwriad cyffredinol gan Barcud gael gwared ar stoc dai, gall meddiannau gael eu gwerthu am amryw o resymau.

Gall Barcud werthu meddiannau gwag fel rhan o'i strategaeth rheoli asedau parhaus neu lle bo dadleuon economaidd yn cyfiawnhau gwerthu.

Cyfrifir am y gwarged neu'r diffyg ar werthu meddiannau tai a ddelir fel asedau sefydlog yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

### (m) Grant Tai Cymdeithasol a Grantiau Llywodraeth eraill

Cydnabyddir grantiau llywodraeth gan ddefnyddio'r model croniadau ac fe'u dosberthir naill ai fel grant sy'n berthnasol i refeniw neu grant sy'n berthnasol i asedau.

Cydnabyddir grantiau sy'n berthnasol i refeniw mewn incwm ar sail systematig dros y cyfnod pryd y cydnabyddir costau cysylltiedig y bwriedir i'r grant eu digolledu.

Cydnabyddir grantiau sy'n berthnasol i asedau mewn incwm ar sail systematig dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased.

Cydnabyddir grantiau a dderbynnir ar gyfer meddiannau tai mewn incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig adeiladwaith y meddiant tai.

Lle ceir grant yn benodol ar gyfer cydrannau meddiant tai, cydnabyddir y grant mewn incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig y gydran.

Lle bo grant yn dderbyniadwy i ddigolledu treuliau neu golledion a gafwyd eisoes neu er mwyn rhoi cymorth ariannol ar unwaith heb ddim costau cysylltiedig yn y dyfodol, fe'i cydnabyddir fel refeniw yn y cyfnod y daw'n dderbyniadwy ynddo.

Cydnabyddir grantiau a geir o ffynonellau heblaw llywodraeth fel refeniw gan ddefnyddio'r model perfformiad a nodir yn FRS 102.

### (n) Grant Cyllid Tai

Telir Grant Cyllid Tai (GCT) gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau asedau tai dros gyfnod o 30 mlynedd i roi cymhorthdal at y costau cyfalaf a llog i ddarparu tai fforddiadwy. Cydnabyddir gwerth presennol net y GTC sy'n dderbyniadwy dros dymor talu'r cyfnod cytûn fel grant cyfalaf a dyledwr gohiriedig.

Pan dderbynnir y taliadau grant, fe leiha'r dyledwr o'r elfen gyfalaf. Credydir y gwahaniaeth rhwng hyn a swm y grant a dderbynnir i warged neu ddiffyg yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr fel cyfraniad at gost cyllido'r cynllun hwnnw. Y gyfradd ostyngiad a ddefnyddir ar gyfer cyfrifiadau'r gwerth presennol net yw'r un gyfradd ag sy'n berthnasol i'r benthyca cysylltiedig i gyllido'r asedau tai.

Ystyrir bod elfen grant cyfalaf GCT a dderbyniwyd o'r blaen yn ad-daladwy pan werthir ased tai cysylltiedig. Fe drinnir hyn fel Grant Cyfalaf Ailgylchedig yn y Gronfa Grantiau Cyfalaf Ailgylchedig ac fe'i cynhwysir yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol cyfun fel credydwr.

### (o) Rhoddi neu gaffael tir neu ased arall am werth is na gwerth y farchnad

Lle derbynnir rhodd o dir a/neu asedau eraill neu lle ceir tir a/neu asedau eraill am werth is na gwerth y farchnad o

ffynhonnell Lywodraethol, cyfrifyddir am hyn fel grant Llywodraeth anariannol. Cydnabyddir y gwahaniaeth rhwng gwerth teg yr ased a roddir neu a geir a'r hyn a delir am yr ased fel grant Llywodraeth ac fe'i cynhwysir yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol cyfun fel rhwymedigaeth.

Lle derbynnir rhodd o dir a/neu asedau eraill neu lle ceir tir a/neu asedau eraill am werth is na gwerth y farchnad gan drydydd parti nad yw'n cwrdd â diffiniad ffynhonnell Lywodraethol cydnabyddir y trafodiad fel ased yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol cyfun ar werth teg, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw gyfyngiadau ar y defnydd o'r ased. Cydnabyddir incwm cyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng unrhyw symiau a dalwyd neu sy'n daladwy am yr ased a gwerth teg yr ased yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr cyfun fel rhodd pan gwrddir â'r amodau mewn perthynas â pherfformiad yn y dyfodol.

### (p) Ailgylchu Grantiau

Lle bo gofyn naill ai talu yn ôl neu ailgylchu grant a dderbyniwyd am ased sydd wedi cael ei werthu, cynhwysir darpariaeth yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol cyfun i gydnabod y rheidrwydd hwn fel rhwymedigaeth. Pan geir cymeradwyaeth gan y corff cyllido i ddefnyddio'r grant ar gyfer datblygiad penodol, ailddosberthir y swm a gydnabuwyd gynt fel darpariaeth ar gyfer ailgylchu'r grant fel credydwr ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol cyfun.

Ar gyfer gwerthiannau cynyddu cyfran perchentyaeth mewn rhanberchnogaeth, pan nad oes cynyddu cyflawn wedi digwydd, gellir gohirio ailgylchu grant os yw'r enillion net o'r gwerthiant yn annigonol i gwrdd â'r rhwymedigaeth grant mewn perthynas â'r gwerthiant ac onis cydanbyddir fel darpariaeth. Ar werthiannau cynyddu cyfran perchentyaeth wedyn, daw'r gofyn i ailgylchu'r grant yn rhwymedigaeth os cynhyrchir digon o enillion o werthiant i gwrdd â'r rhwymedigaeth ac os cydnabyddir darpariaeth ar yr adeg hon.

Pan werthir ased y derbyniwyd grant llywodraeth ar ei gyfer, os nad oes dim rhwymedigaeth i ad-dalu'r grant, caiff unrhyw grant heb ei amorteiddio sy'n aros o fewn rhwymedigaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol cyfun mewn perthynas â'r ased hwn ei ddatgydnabod fel rhwymedigaeth a'i gydnabod fel refeniw mewn gwarged neu ddiffyg yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr cyfun.

### (q) Llog sy'n Daladwy

Costau benthyca yw llog a chostau eraill a geir mewn perthynas â benthyca cyllid.

Cyfrifir costau benthyca gan ddefnyddio'r gyfradd llog effeithiol, sef y gyfradd sy'n disgowntio'n union daliadau neu dderbyniadau arian amcangyfrifedig yn y dyfodol drwy oes ddisgwyliedig yr offeryn ariannol ac a bennir ar sail swm llyfr y rhwymedigaeth ariannol adeg ei chydnabod yn gyntaf.

O dan y dull llog effeithiol, cost amorteiddiedig rhwymedigaeth ariannol yw gwerth presennol taliadau arian yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar y gyfradd llog effeithiol, ac y mae'r traul llog mewn cyfnod yn cyfateb i swm llyfr y rhwymedigaeth ariannol ar ddechrau cyfnod wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer y cyfnod.

### (r) Asedau ar les cyllid

Dosberthir lesoedd ar asedau sy'n trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a buddion cysylltiedig â pherchenogaeth fel lesoedd cyllid. Caiff lesoedd cyllid eu cyfalafu ar ddechrau'r les fel asedau a chyfrifir gwerth teg yr ased ar les neu, os yw'n is, gwerth presennol y lleiafswm taliadau les gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y les.

Dibrisir asedau dros y byrraf o dymor y les a'r oes ddefnyddiol a amcangyfrifir i'r ased. Caiff asedau eu hasesu am amhariad ar bob dyddiad adrodd.

Cofnodir elfen gyfalaf yr ymrwymiadau les fel rhwymedigaeth ar ddechrau'r trefniant. Caiff taliadau les eu cyfrannu rhwng ad-dalu cyfalaf a thâl cyllid, gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, i gynhyrchu cyfradd dâl gyson, ar yr ad-daliadau cyfalaf sydd eto i ddod, yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol cyfun.

### (s) Taliadau gwasanaeth, cronfeydd ad-dalu a chostau gwasanaeth

Bydd Barcud yn gweithredu taliadau gwasanaeth amrywiadwy sy'n adlewyrchu gofynion y gwahanol gytundebau tenantiaeth a phrydles. Caiff cyfraniadau heb eu defnyddio at gronfeydd ad-dalu tâl gwasanaeth a goradfer costau gwasanaeth sy'n ad-daladwy i denantiaid neu les-ddeiliaid neu y bwriedir iddynt gael eu hadlewyrchu mewn gostyngiadau i gyfraniadau tâl gwasanaeth yn y dyfodol eu cydnabod fel rhwymedigaeth yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol cyfun. Mae'r swm a gynhwysir mewn rhwymedigaethau mewn perthynas â chronfeydd ad-dalu tâl gwasanaeth yn cynnwys llog wedi'i gredydu i'r gronfa. Lle bo tanadferiad wedi bod o daliadau gwasanaeth amrywiadwy lesddeiliaid neu denantiaid a lle bo sicrwydd, i bob pwrpas, yr adferir y gweddill sydd heb ei adfer, cydnabyddir y gweddill yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol cyfun fel swm derbyniadwy drwy fasnach. Ni chyfunir balansau debyd a chredyd ar gynlluniau unigol gan nad oes dim hawl gwrthgyfrif.

### (t) Offerynnau Ariannol

Cydnabyddir asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol pan ddaw Barcud yn barti i ddarpariaethau contractiol yr offeryn.

**Asedau ariannol a ddygir ar gost amorteiddiedig**

a. Y mae asedau ariannol a ddygir ar gost amorteiddiedig yn cynnwys ôl-ddyledion rhent, derbyniadwyon masnach ac eraill ac arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod.
b. Cydnabyddir asedau ariannol yn y lle cyntaf ar werth teg ynghyd â chostau trafodiad sydd i'w priodoli'n uniongyrchol.
c. Ar ôl eu cydnabyddiaeth gychwynnol, fe'u mesurir ar gost amorteiddiedig gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.
d. Hepgorir disgowntio lle bo effaith disgowntio'n ddibwys.
e. Os oes tystiolaeth wrthrychol bod colled amhariad i'w chael, fe fesurir swm y golled fel y gwahaniaeth rhwng swm llyfr yr ased a gwerth presennol llifau arian amcangyfrifedig yn y dyfodol wedi'u disgowntio yn ôl cyfradd llog effeithiol wreiddiol yr ased ariannol. Lleiheir swm llyfr yr ased yn unol â hynny.
f. Datgydnabyddir ased ariannol pan dderfydd yr hawliau contractiol i'r llifau arian, neu pan drosglwyddir yr ased ariannol a phob risg a budd sylweddol.
g. Os yw trefniant yn ffurfio trafodiad cyllido, mesurir yr ased ariannol ar werth presennol y taliadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog farchnadol am offeryn dyled cyffelyb.

**Rhwymedigaethau ariannol a ddygir ar gost amorteiddiedig**

a. Y mae rhwymedigaethau ariannol a ddygir ar gost amorteiddiedig yn cynnwys taladwyon masnach ac eraill a benthyciadau sy'n dwyn llog.
b. Bydd offerynnau dyled nad ydynt yn gyfredol ac sy'n cwrdd â'r amodau angenrheidiol yn FRS 102 yn cael eu cydnabod yn y lle cyntaf ar werth teg wedi'i addasu am unrhyw gost drafodiad sydd i'w phriodoli'n uniongyrchol a'u mesur ar ôl hynny ar gost amorteiddiedig gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, a thaliadau cysylltiedig â llog yn cael eu cydnabod fel traul mewn costau cyllido yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.
c. Hepgorir disgowntio lle bo effaith disgowntio'n ddibwys.
d. Dim ond pan ddiddymir yr ymrwymiad contractiol, hynny yw, pan gaiff yr ymrwymiad ei gyflawni neu ei ganslo neu pan dderfydd, y datgydnabyddir rhwymedigaeth ariannol.

### (u) Arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod

Diffinnir arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod fel:

» Arian parod mewn llaw (arian bath ffisegol a ddelir)
» Adneuon sy'n hygyrch ar gais
» Buddsoddiadau byrdymor sy'n dra hylifol ac y gellir eu trosi'n rhwydd i symiau hysbys o arian parod a'r risg o newidiadau yn eu gwerth yn un ddibwys

Bydd Barcud yn trin aeddfedrwydd byrdymor fel tri mis neu lai i ddyddiad caffael.

Ni chynhwysir dim benthyciadau nac adneuon na buddsoddiadau hirdymor yn y balansau cychwynnol na therfynol yn y datganiad llif arian.

## 2. DYFARNIADAU O BWYS GAN REOLWYR A PHRIF FFYNONELLAU ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIF

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn gofyn bod rheolwyr yn gwneud dyfarniadau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y modd y gweithredir polisïau a'r symiau a adroddir o ran asedau a rhwymedigaethau, incwm a threuliau. Seilir yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau cysylltiedig ar brofiad hanesyddol ac amryw o ffactorau eraill y credir sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau, a chanlyniadau'r rheini'n ffurfio'r sail ar gyfer gwneud y dyfarniadau ynghylch gwerth llyfr asedau a rhwymedigaethau nad ydynt i'w gweld yn amlwg o ffynonellau eraill. Gall y canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Byddir yn adolygu amcangyfrifon a rhagdybiaethau isorweddol yn barhaus. Cydnabyddir diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod y diwygir yr amcangyfrif ynddo a mewn unrhyw gyfnodau yn y dyfodol yr effeithir arnynt.

**Dyfarniadau o bwys gan reolwyr**

Y canlynol yw'r dyfarniadau gan reolwyr a wneir wrth weithredu polisïau cyfrifyddu'r Gymdeithas sy'n cael yr effaith fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol.

**Cwmni gweithredol**

Gwneir asesiad o gwmni gweithredol, gan y Bwrdd, fel rhan o baratoi'r Datganiadau Ariannol blynyddol, i gadarnhau mai priodol yw defnyddio'r sail hon o hyd. Cynhwysir datgeliad o unrhyw ddigwyddiadau neu amodau perthnasol a allai effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwn a'r cynllunio i ddelio â hwy yn ôl yr angen yn y Datganiadau Ariannol hyn.

**Cyfalafu costau datblygu eiddo**

Bydd y grŵp yn cyfalafu gwariant datblygu yn unol â'r polisi cyfrifyddu ar feddiannau tai. Arferir crebwyll ynghylch y tebygrwydd y bydd prosiectau'n parhau.

**Prif ffynonellau ansicrwydd wrth amcangyfrif**

Bydd y grŵp yn gwneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau ynglŷn â'r dyfodol. Anaml, o'u diffiniad, y bydd yr amcangyfrifon cyfrifyddu a geir o ganlyniad yn gyfartal â'r canlyniadau gwirioneddol cyfatebol. Ymdrinnir isod â'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sydd â risg sylweddol o achosi addasiad sylweddol i symiau llyfr asedau a rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

**Darpariaethau**

Darperir ar gyfer rhai rhwymedigaethau ac ar gyfer ôl-ddyledion rhent yr ystyrir sydd y tu hwnt i'w casglu. Y mae'r darpariaethau'n gofyn amcangyfrif gorau rheolwyr o gostau a geir ar sail gofynion deddfwriaethol a chontractiol. Hefyd, y mae amseru'r llifau arian a'r cyfraddau disgowntiedig a ddefnyddir i sefydlu gwerth presennol net y rhwymedigaethau'n gofyn am grebwyll gan reolwyr.

**Cynllun pensiwn buddion diffiniedig**

Y mae rhwymedigaethau ar y grŵp i dalu buddion pensiwn i rai gweithwyr cyflogedig. Y mae cost y buddion hyn a gwerth presennol y rhwymedigaeth yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys disgwyliad einioes, codiadau cyflog a'r gyfradd ddisgownt ar fondiau corfforaethol. Bydd rheolwyr yn amcangyfrif y ffactorau hyn wrth bennu'r rhwymedigaeth bensiwn net yn y fantolen. Adlewyrchu profiad hanesyddol a thueddiadau cyfredol y bydd y rhagdybiaethau. Gallai amrywiadau o'r rhagdybiaethau hyn effeithio'n sylweddol ar y rhwymedigaeth.

**Cydrannau meddiannau tai ac oesau defnyddiol**

Y mae gan gydrannau sylweddol meddiannau tai batrymau go wahanol o draul buddion economaidd ac fe wneir amcangyfrifon i ddosrannu cost gychwynnol y meddiant i'w gydrannau sylweddol ac i ddibrisio pob cydran dros ei hoes economaidd ddefnyddiol. Bydd y grŵp yn ystyried a oes unrhyw arwyddion bod eisiau diwygio'r oesau defnyddiol ar bob dyddiad adrodd i sicrhau eu bod yn dal i fod yn briodol.

**Amhariad**

Bydd y grŵp yn gwneud adolygiadau amhariad yn flynyddol ar feddiannau masnachol. Pan nodir dangosydd amhariad, cydnabyddir ar unwaith mewn elw neu golled golledion amhariad ar asedau nad ydynt wedi'u hailbrisio. Trinnir colledion amhariad ar asedau sydd wedi'u hailbrisio fel gostyngiadau ailbrisio ac fe'u cydanbyddir: - mewn incwm cynhwysfawr arall i raddau unrhyw gynnydd ailbrisio a gydnabuwyd gynt ac a gronnwyd mewn ecwiti; - fel arall mewn elw neu golled.

## 2a TROSIANT, COSTAU GWEITHREDU A GWARGED GWEITHREDOL

| Y Grŵp | 2023 Trosiant £'000 | 2023 Costau Gweithredu £'000 | 2023 Cost Gwer-thiannau £'000 | 2023 Gwarged Gweithredu £'000 | 2022 Trosiant £'000 | 2022 Costau Gweithredu £'000 | 2022 Cost Gwer-thiannau £'000 | 2022 Gwarged Gweithredu £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gosod tai cymdeithasol (Nodyn 2b) | 26,086 | (19,720) | - | 6,366 | 24,771 | (18,430) | - | 6,341 |
| **Gweithgareddau eraill o ran tai cymdeithasol** | | | | | | | | |
| Garejys | 265 | - | - | 265 | 264 | - | - | 264 |
| Grantiau eraill | 223 | - | - | 223 | 252 | - | - | 252 |
| Rhoddion | 10 | - | - | 10 | 8 | - | - | 8 |
| Hybu cynhwysiant cymdeithasol | 2,673 | (2,384) | - | 289 | 2,278 | (2,183) | - | 95 |
| Gweithgareddau masnachu | 106 | (74) | - | 32 | 93 | (62) | - | 31 |
| Eraill | 358 | - | - | 358 | 241 | (5) | - | 236 |
| Grantiau refeniw eraill | 55 | - | - | 55 | 24 | - | - | 24 |
| **Gweithgareddau heblaw tai cymdeithasol** | | | | | | | | |
| Gwerthu eiddo | 480 | - | (373) | 107 | 2,075 | | (1,746) | 329 |
| Meddiannau rhent farchnadol | 62 | (17) | - | 45 | 63 | (14) | - | 49 |
| EOM | 361 | (152) | - | 209 | 545 | (263) | - | 282 |
| Incwm masnachol | 86 | (92) | - | (6) | 36 | (54) | - | (18) |
| | 30,765 | (22,439) | (373) | 7,953 | 30,650 | (21,011) | (1,746) | 7,893 |

| Y Gymdeithas | 2023 Trosiant £'000 | 2023 Costau Gweithredu £'000 | 2023 Cost Gwer-thiannau £'000 | 2023 Gwarged Gweithredu £'000 | 2022 Trosiant £'000 | 2022 Costau Gweithredu £'000 | 2022 Cost Gwer-thiannau £'000 | 2022 Gwarged Gweithredu £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gosod tai cymdeithasol (Nodyn 2b) | 26,086 | (19,994) | - | 6,092 | 24,771 | (18,596) | | 6,175 |
| **Gweithgareddau eraill o ran tai cymdeithasol** | | | | | | | | |
| Garejys | 265 | - | - | 265 | 264 | - | | 264 |
| Ailgodiannau ar gwmnïau eraill yn y grŵp | - | - | - | - | 8 | (5) | | 3 |
| Grantiau refeniw eraill | 223 | - | - | 223 | 252 | - | | 252 |
| Eraill | 616 | - | - | 616 | 362 | - | | 362 |
| **Gweithgareddau heblaw tai cymdeithasol** | | | | | | | | |
| Gwerthu eiddo | 480 | - | (373) | 107 | 2,075 | | (1,746) | 329 |
| Meddiannau rhent farchnadol | 62 | (17) | | 45 | 63 | (14) | | 49 |
| Eraill | 86 | (91) | - | (6) | 36 | (54) | | (18) |
| | 27,818 | (20,103) | (373) | 7,432 | 27,831 | (19,669) | (1,746) | 7,416 |

## 2b MANYLION INCWM A GWARIANT O OSOD TAI CYMDEITHASOL

| | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **INCWM** | | | | |
| Rhent dderbyniadwy | 21,836 | 20,665 | 21,836 | 20,665 |
| Incwm tâl gwasanaeth | 1,318 | 1,207 | 1,318 | 1,207 |
| Amorteiddio grantiau | 1,073 | 1,066 | 1,073 | 1,066 |
| Grantiau a gymerwyd i incwm | 1,600 | 1,600 | 1,600 | 1,600 |
| Cefnogi Pobl | 260 | 233 | 260 | 233 |
| Trosiant o osod tai cymdeithasol | 26,086 | 24,771 | 26,086 | 24,771 |
| **COST** | | | | |
| Costau rheolaeth | (4,686) | (4,667) | (4,960) | (4,833) |
| Costau tâl gwasanaeth | (1,025) | (898) | (1,025) | (898) |
| Cynnal a chadw yn y drefn arferol | (5,495) | (5,025) | (5,495) | (5,025) |
| Cynnal a chadw wedi'i gynllunio | (619) | (216) | (619) | (216) |
| Drwgddyledion | (31) | (264) | (31) | (264) |
| Dibrisiant | (5,316) | (4,972) | (5,316) | (4,972) |
| Costau eraill | (2,548) | (2,389) | (2,548) | (2,389) |
| Costau gweithredu ar osod tai cymdeithasol | (19,994) | (18,430) | (19,994) | (18,596) |
| Gwarged gweithredol ar osod tai cymdeithasol | 6,366 | 6,341 | 6,092 | 6,175 |
| Colled rhent ar leoedd gwag (nodyn memorandwm) | 309 | 261 | 309 | 261 |

## 3. GWARGED AR WERTHU MEDDIANNAU TAI

| | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Enillion o werthu meddiannau | - | - | - | - |
| Treuliau gwerthu | - | - | - | - |
| Gwarged ar werthu | - | - | - | - |

## 4. GWARGED AR GYFER Y FLWYDDYN

| | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Datgenir gwarged y flwyddyn ar ôl codi/ (credydu): | | | | |
| Dibrisiant | 5,391 | 4,892 | 5,316 | 4,839 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | 205 | 163 | 176 | 133 |
| Amorteiddio grant | (1,073) | (1,066) | (1,072) | (1,066) |
| Tâl yr archwilydd allanol | | | | |
| - yn eu swyddogaeth fel archwilwyr | 39 | 39 | 28 | 24 |
| - eraill | 3 | 3 | 3 | 3 |

## 5. TRETHIANT

Y mae gweithgareddau elusennol Barcud Cyf, Gofal a Thrwsio ym Mhowys a'r Gymdeithas Gofal wedi'u heithrio o drethiant o dan Adran 505 o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988.

Mae is-gwmni perchnogaeth lwyr Barcud, EOM Cyf., yn agored i dalu Treth Gorfforaeth y D.U. ar y cyfraddau arferol. Y gyfradd dreth ar gyfer y flwyddyn yw 19%.

Bydd EOM yn gwneud taliad Rhodd Cymorth o £140k cyn 31ain o Ragfyr 2023, a hynny'n lleihau'r rhwymedigaeth dreth i Ddim.

## 6a. GWEITHWYR CYFLOGEDIG

| | | Y Grŵp 2023 | Y Grŵp 2022 | Y Gymdeithas 2023 | Y Gymdeithas 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer fisol gyfartalog y gweithwyr cyflogedig (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol) wedi'i mynegi fel cyfwerth ag amser llawn** | | | | | |
| Gweinyddu | | 26 | 26 | 16 | 16 |
| Gwasanaethau gweithredol | - Yn y swyddfa | 120 | 126 | 100 | 107 |
| | - Rheolwyr cynllun a glanhawyr | 24 | 16 | 24 | 16 |
| | - Tîm atgyweiriadau cymunedol | 81 | 80 | 54 | 54 |
| | - Gweithgareddau elusennol | 41 | 37 | - | - |
| | | 292 | 285 | 194 | 193 |

## 6a. GWEITHWYR CYFLOGEDIG (parhad)

| | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Costau staff:** | | | | |
| Cyflogau | 8,289 | 8,159 | 5,827 | 5,707 |
| Costau dileu swyddi a setliadau | - | 30 | - | 30 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 797 | 751 | 579 | 545 |
| Costau pensiwn | 638 | 606 | 550 | 520 |
| Cyfanswm | 9,724 | 9,546 | 6,956 | 6,802 |

Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a dderbyniodd daliadau gan gynnwys cyfraniadau pensiwn dros £50,000 oedd:

| | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Band cyflog** | | | | |
| £50,000 - £59,999 | 6 | 6 | 6 | 6 |
| £60,000 - £69,999 | 3 | 4 | 2 | 3 |
| £70,000 - £79,999 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| £80,000 - £89,999 | 2 | 1 | 2 | 1 |
| £90,000 - £99,999 | - | 1 | - | 1 |
| £100,000 - £109,999 | - | 1 | - | 1 |
| £110,000 - £119,999 | 1 | 4 | 1 | 4 |
| £120,000 - £129,999 | 3 | - | 3 | - |
| £130,000 - £139,999 | - | - | - | - |
| £140,000 - £149,999 | - | - | - | - |
| £150,000 - £159,999 | 1 | 1 | - | 1 |
| £160,000 - £169,999 | 1 | - | 1 | - |

## 6b. TÂL PERSONÉL RHEOLAETH ALLWEDDOL

| | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 1,184 | 1,429 | 1,184 | 1,354 |
| Costau Dileu Swyddi a Setliadau | - | 30 | - | 30 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 148 | 166 | 148 | 159 |
| Costau Pensiwn Eraill | 162 | 165 | 162 | 160 |
| Buddion Eraill | 2 | 3 | 2 | 3 |
| **Aelodau Bwrdd** | | | | |
| Cyflogau | 5 | 1 | 5 | 1 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | - | - | - | - |
| Costau Pensiwn Eraill | - | - | - | - |
| Treuliau | 4 | 5 | 4 | 5 |
| | 1,505 | 1,799 | 1,505 | 1,712 |
| **Tâl Prif Weithredwr y Grŵp, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn a YG Cyflogwr** | 125 | 121 | 125 | 121 |

Mae Prif Weithredwr y Grŵp yn aelod cyffredin o'r cynllun pensiwn Llywodraeth Leol ac nid oes dim telerau mwy ffafriol nac arbennig yn berthnasol.

## 7. COSTAU LLOG A CHYLLIDO

| | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Llog ar fenthyciadau<br>- i'w dalu mewn rhandaliadau mewn | | | | |
| Llai nag 1 flwyddyn | - | 401 | - | 401 |
| 1-5 mlynedd | 157 | 123 | 157 | 123 |
| Mwy na 5 mlynedd | 3,197 | 2,862 | 3,197 | 2,862 |
| Lesoedd Cyllid | 1 | 5 | 1 | 5 |
| Amorteiddio costau cyllid gohiriedig | 15 | - | 15 | - |
| Costau cyllido pensiynau (gweler nodyn 21) | 120 | 108 | 120 | 108 |
| Costau benthyca wedi'u cyfalafu | (13) | (21) | (13) | (21) |
| Eraill | 6 | 4 | 6 | 4 |
| | 3,483 | 3,482 | 3,483 | 3,482 |

## 8. ASEDAU SEFYDLOG ANNIRIAETHOL – MEDDALWEDD GYFRIFIADUROL

| | Y Grŵp £'000 | Y Gymdeithas £'000 |
|---|---|---|
| **COST** | | |
| Ar 1 o Ebrill 2022 | 1,336 | 1,187 |
| Ychwanegiadau | 204 | 204 |
| Gwarediadau | - | - |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | 1,540 | 1,391 |
| **DIBRISIANT** | | |
| Ar 1 o Ebrill 2022 | 666 | 606 |
| Codiant yn y flwyddyn | 205 | 176 |
| Gwarediadau | - | - |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | 871 | 782 |
| **GWERTH LLYFR NET** | | |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | 669 | 609 |
| Ar 31 o Fawrth 2022 | 670 | 581 |

## 9. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL – MEDDIANNAU TAI (GRŴP A CHYMDEITHAS)

| | Meddiannau Tai a Gwblhawyd £'000 | Meddiannau Tai'n Cael eu Hadeiladu £'000 | Rhanberchnogaeth Wedi'i Chwblhau £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **COST** | | | | |
| Ar 1 o Ebrill 2022 | 237,074 | 14,161 | 26 | 251,261 |
| Ychwanegiadau | 10,253 | 17,991 | - | 28,244 |
| Gwarediadau | (297) | - | - | (297) |
| Wedi'u trosglwyddo i feddiannau wedi'u cwblhau | 11,935 | (11,935) | - | - |
| Wedi'u trosglwyddo i stoc | (241) | - | - | (241) |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | 258,724 | 20,217 | 26 | 278,967 |
| **DIBRISIANT** | | | | |
| Ar 1 o Ebrill 2022 | 38,661 | - | 6 | 38,667 |
| Codiant yn y flwyddyn | 4,770 | - | - | 4,770 |
| Gwarediadau | (231) | - | - | (231) |
| Wedi'u trosglwyddo i feddiannau ar gadw i'w gwerthu | (171) | - | - | (171) |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | 43,029 | - | 6 | 43,035 |
| **GWERTH LLYFR NET** | | | | |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | 215,695 | 20,217 | 20 | 235,932 |
| Ar 31 o Fawrth 2022 | 198,413 | 14,161 | 20 | 212,594 |

### *Ychwanegiadau at feddiannau wedi'u cwblhau ar gadw i'w gosod*

| | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Cydrannau newydd yn lle hen rai | 7,102 | 6,009 |
| Prynu meddiannau a oedd eisoes yn bod | 2,535 | 953 |
| Datblygiadau | 17,991 | 11,687 |
| Gwelliannau | 319 | 254 |
| | 27,947 | 18,903 |
| Codiant ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr | 6,114 | 5,240 |
| Cyfanswm gwariant ar feddiannau wedi'u cwblhau | 34,061 | 24,143 |

## 10. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER ERAILL (Y GRŴP)

| COST | Meddiannau rhydd-dda-liadol £'000 | Meddiannau lesddali-adol £'000 | Meddiannau masnachol £'000 | Meddian-nau rhent farchnadol £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 o Ebrill 2022 | 866 | 427 | 4,606 | 1,128 | 2,487 | 9,516 |
| Ychwanegiadau | 10 | - | 72 | - | 399 | 481 |
| Gwaredu | - | - | - | - | (210) | (310) |
| Cymhorthdal Grant | - | - | (34) | - | - | (34) |
| Ailbrisio | 5 | - | - | - | - | 5 |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | 884 | 427 | 4,643 | 1,128 | 2,675 | 9,757 |
| **DIBRISIANT** | | | | | | |
| Ar 1 o Ebrill 2022 | 15 | 131 | 509 | - | 1,740 | 2,395 |
| Codiant yn y flwyddyn | 17 | 20 | 45 | - | 290 | 372 |
| Gwarediadau | - | - | - | - | (203) | (203) |
| Ailbrisio | - | - | - | - | - | - |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | | | | | | |
| **AMHARIAD** | | | | | | |
| Ar 1 o Ebrill 2022 | - | - | 223 | - | - | 223 |
| Trosglwyddo | - | - | - | - | - | - |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | - | - | 223 | - | - | 223 |
| **GWERTH LLYFR NET** | | | | | | |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | 852 | 276 | 3,866 | 1,128 | 848 | 6,970 |
| Ar 31 o Fawrth 2022 | 853 | 296 | 3,874 | 1,128 | 747 | 6,898 |

## 10. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER ERAILL (Y GYMDEITHAS)

| COST | Rhent Farchnadol £'000 | Meddiannau lesddaliadol £'000 | Meddiannau masnachol £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 o Ebrill 2022 | 1,128 | 427 | 4,606 | 2,075 | 8,235 |
| Ychwanegiadau | - | - | 72 | 277 | 349 |
| Gwarediadau | - | - | - | (155) | (155) |
| Cymhorthdal grant | - | - | (34) | | (34) |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | 1,128 | 427 | 4,643 | 2,197 | 8,395 |
| **DIBRISIANT** | | | | | |
| Ar 1 o Ebrill 2022 | - | 131 | 509 | 1,418 | 2,058 |
| Codiant yn y flwyddyn | - | 20 | 45 | 231 | 296 |
| Gwarediadau | - | - | - | (148) | (148) |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | - | 151 | 554 | 1,501 | 2,206 |
| **AMHARIAD** | | | | | |
| Ar 1 o Ebrill 2022 | - | - | 223 | - | 223 |
| Codiant yn y flwyddyn | - | - | - | - | - |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | - | - | 223 | - | 223 |
| **GWERTH LLYFR NET** | | | | | |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | 1,128 | 276 | 3,866 | 696 | 5,966 |
| Ar 31 o Fawrth 2022 | 1,128 | 296 | 3,873 | 657 | 5,954 |

## 11. BUDDSODDIADAU ASEDAU SEFYDLOG

**Y Grŵp**

| | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Benthyciadau Cymorth Prynu | | |
| Ar 1 o Ebrill | 603 | 603 |
| Ad-dalu benthyciadau | 15 | - |
| Ar 31 o Fawrth | 588 | 603 |
| Arian ar adnau | 168 | 168 |
| | 756 | 771 |

**Y Gymdeithas**

| | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Benthyciadau Cymorth Prynu | | |
| Ar 1 o Ebrill | 603 | 603 |
| Ad-dalu benthyciadau | 15 | - |
| Ar 31 o Fawrth | 588 | 603 |
| Arian ar adnau | 168 | 168 |
| Buddsoddiad mewn is-gwmni perchnogaeth lwyr | 1,011 | 1,011 |
| | 1,767 | 1,782 |

## 12. STOCRESTRAU

| | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Stoc o ddefnyddiau | 262 | 178 | 37 | 50 |
| Meddiannau ar werth | 70 | 378 | 70 | 378 |
| | 332 | 556 | 107 | 428 |

## 13. DYLEDWYR

| | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ôl-ddyledion rhent a thâl gwasanaeth gros | 960 | 645 | 832 | 591 |
| Llai: darpariaeth ar gyfer drwgddyledion | (349) | (347) | (337) | (336) |
| Ôl-ddyledion rhent net | 611 | 298 | 495 | 255 |
| Dyledwyr masnach | 114 | 201 | - | - |
| Grant Cyllid Tai | 199 | 199 | 199 | 199 |
| Cronfa ad-dalu | 61 | 59 | 61 | 59 |
| Rhagdaliadu ac incwm cronedig | 3,050 | 1,339 | 2,785 | 992 |
| | 4,035 | 2,096 | 3,541 | 1,505 |
| Symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn: | | | | |
| Grant Cyllid Tai | 3,511 | 3,711 | 3,511 | 3,711 |
| Cytundeb Cysgodfa TAW | 9,378 | 11,312 | 9,378 | 11,312 |
| | 12,889 | 15,023 | 12,889 | 15,023 |
| | 16,924 | 17,119 | 16,429 | 16,528 |

## 14. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DOD YN DDYLEDUS O FEWN UN FLWYDDYN

| | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Credydwyr masnach | 1,142 | 308 | 994 | 793 |
| Taliadau rhent wedi'u derbyn ymlaen llaw | 616 | 644 | 616 | 644 |
| Grant Tai Cymdeithasol wedi'i dderbyn ymlaen llaw | 28,093 | 7,204 | 28,093 | 7,204 |
| Incwm gohiriedig grantiau llywodraeth | 1,136 | 788 | 1,133 | 788 |
| Grant Cyllid Tai | 199 | 199 | 199 | 199 |
| Incwm gohiriedig ar fondiau | 115 | 57 | 115 | 57 |
| Grantiau cyfalaf wedi'u hailgylchu | 68 | 138 | 68 | 138 |
| Lesoedd cyllid | 24 | 24 | - | 1 |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol arall | 55 | 270 | (2) | 146 |
| Benthyciadau | 817 | 920 | 805 | 909 |
| Croniadau a chredydwyr eraill | 4,966 | 4,493 | 5,023 | 4,246 |
| | 37,231 | 15,045 | 37,044 | 15,125 |

## 15. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DOD YN DDYLEDUS AR ÔL MWY NAG UN FLWYDDYN

| | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciad yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn | 103,061 | 93,727 | 102,814 | 93,472 |
| Grantiau llywodraeth – incwm gohiriedig | 97,346 | 91,173 | 97,334 | 91,158 |
| Grant Cyllid Tai | 3,511 | 3,711 | 3,511 | 3,711 |
| Incwm gohiriedig ar fondiau | 1,361 | 1,418 | 1,361 | 1,418 |
| Grantiau cyfalaf wedi'u hailgylchu | - | 105 | - | 105 |
| Lesoedd cyllid | 43 | 157 | 28 | 118 |
| Cytundeb Cysgodfa TAW | 9,378 | 11,312 | 9,378 | 11,312 |
| | 214,700 | 201,603 | 214,426 | 201,294 |

Diogelir benthyciadau tai drwy godiant ar yr holl stoc eiddo ym mherchenogaeth Barcud. Diogelir benthyciadau drwy godiant sefydlog ar dir ac adeiladau'r Gymdeithas. Maent i'w talu yn ôl yn rhandaliadau ar gyfraddau sefydlog ac amrywiol. Ymgymerwyd ag ymarfer ailgyllido yn ystod 2021/22, gweler nodyn 24 am fanylion.

| ***Dadansoddiad Dyledion – Benthyciadau Tai*** | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Un flwyddyn neu lai | 817 | 919 | 805 | 908 |
| Mwy nag un flwyddyn a llai na dwy flynedd | 1,856 | 933 | 1,844 | 921 |
| Mwy na dwy a llai na phum mlynedd | 1,980 | 3,496 | 1,940 | 3,457 |
| Ymhen mwy na phum mlynedd | 99,225 | 89,298 | 99,030 | 89,094 |
| | 103,878 | 94,646 | 103,619 | 94,380 |

| ***Incwm Gohiriedig – Grantiau Llywodraeth*** | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Ar 1 o Ebrill** | 99,165 | 93,822 | 99,150 | 93,822 |
| Grant yn dderbyniadwy | 28,018 | 6,408 | 28,481 | 6,393 |
| Amorteiddiad i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr | (1,073) | (1,065) | (1,073) | (1,065) |
| Trosglwyddiad i Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu | - | - | - | - |
| Ar 31 o Fawrth | 126,110 | 99,165 | 126,558 | 99,150 |
| Yn ddyledus o fewn un flwyddyn | 29,226 | 7,992 | 29,226 | 7,992 |
| Yn ddyledus ar ôl un flwyddyn | 96,884 | 91,173 | 97,332 | 91,158 |

## 16. CYFALAF CYFRANDDALIADAU DI-ECWITI

| | Y Grŵp 2023 | Y Grŵp 2022 | Y Gymdeithas 2023 | Y Gymdeithas 2022 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfranddaliadau am £1 yr un, wedi'u dosrannu a'u dyroddi | | | | |
| Ar 1 o Ebrill 2022 | 322 | 307 | 322 | 307 |
| Dyroddwyd yn ystod y flwyddyn | 14 | 15 | 14 | 15 |
| Ar 31 o Fawrth 2023 | 336 | 322 | 336 | 322 |

## 17. YMRWYMIADAU CYFALAF

| | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf wedi'i gontractio ond heb ddarpariaeth ar ei gyfer yn y datganiadau ariannol | 13,264 | 6,256 | 13,264 | 6,256 |
| Gwariant cyfalaf wedi'i awdurdodi gan y Bwrdd ond heb ei gontractio | 15,154 | 19,512 | 15,154 | 19,512 |

Drwy gyfleusterau banc sydd eisoes i'w cael a grant gan y Llywodraeth yr ariennir yr ymrwymiadau uchod.

## 18. YMRWYMIADAU ARIANNOL ERAILL (Y GRŴP)

| | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau £'000 | Eraill £'000 | Tir ac Adeiladau £'000 | Eraill £'000 |
| Prydlesi eraill a dderfydd: | | | | |
| O fewn un flwyddyn | 37 | 23 | 43 | 31 |
| O fewn un i bum mlynedd | 75 | 77 | 171 | 44 |
| Mwy na phum mlynedd | 36 | - | 86 | - |
| | 148 | 100 | 300 | 75 |

## YMRWYMIADAU ARIANNOL ERAILL (Y GYMDEITHAS)

| | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau £'000 | Eraill £'000 | Tir ac Adeiladau £'000 | Eraill £'000 |
| Prydlesi eraill a dderfydd: | | | | |
| O fewn un flwyddyn | - | - | - | 8 |
| O fewn un i bum mlynedd | - | 38 | - | 5 |
| | - | 38 | - | 13 |

## 19. STOC DAI (GRŴP A CHYMDEITHAS)

| | 2023 Nifer | 2022 Nifer |
|---|---|---|
| **Nifer yr unedau sy'n cael eu rheoli** | | |
| **Llety tai i'w osod:** | | |
| Tai cyffredinol | 3,815 | 3,713 |
| Tai gwarchod | 334 | 358 |
| Rhenti canolradd | 77 | 79 |
| Rhent farchnadol | 22 | 20 |
| Cyfanswm ar rent | 4,248 | 4,170 |
| **Unedau eraill** | | |
| Prydlesi hawl i brynu | 184 | 186 |
| Rhanberchnogaeth | 3 | 3 |
| Garejys | 634 | 656 |
| I'w gwerthu | 2 | - |
| Cymorth Prynu | 3 | 3 |
| Rhydd-ddeiliaid â gwasanaethau | 80 | 80 |

## 20. OFFERYNNAU ARIANNOL

| | Y Grŵp 2023 £'000 | Y Grŵp 2022 £'000 | Y Gymdeithas 2023 £'000 | Y Gymdeithas 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau Ariannol** | | | | |
| Wedi'u mesur wrth y swm disgowntiedig sy'n dderbyniadwy | | | | |
| Trafodion cyllido ôl-ddyledion rhent (gweler nodyn 13) | 611 | 298 | 495 | 255 |
| **Rhwymedigaethau Ariannol** | | | | |
| Wedi'u mesur wrth gost amorteiddiedig | | | | |
| Benthyciadau'n daladwy (gweler nodyn 15) | 817 | 920 | 805 | 909 |
| Wedi'u mesur wrth y swm heb ei ddisgowntio sy'n daladwy | | | | |
| Credydwyr masnach ac eraill (gweler nodyn 14) | 1,142 | 308 | 994 | 793 |
| | 1,959 | 1,228 | 1,779 | 1,702 |

## 21. CYNLLUN PENSIWN

Y mae Barcud yn cyfranogi o Gronfa Bensiwn Dyfed.
Derbyniwyd yr wybodaeth ganlynol gan actiwarïaid y Gronfa.
Ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau 1 o Ebrill 2022 y cyfraniadau cyflogwr oedd 42.4% o'r cyflog pensiynadwy. Y Gost Wasanaeth Gyfredol gyllidebol ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau 1 Ebrill 2023 yw rhyw 20.2% o gyflogau pensiynadwy a'r disgwyl yw y bydd hynny'n rhoi cost wasanaeth fras o £210,000.

| **Eitemau'r Datganiad Sefyllfa Ariannol fel y safent ar 31 o Fawrth** | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Gwerth presennol ymrwymiadau budd a ariennir | 12,827 | 19,372 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau budd nas ariennir | - | - |
| Cyfanswm gwerth presennol ymrwymiadau budd | 12,827 | 19,372 |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | (14,048) | (14,921) |
| Ased Anadnabyddus | 1,221 | - |
| Diffyg/(Gwarged) | - | 4,451 |
| **Cydrannau cost pensiwn ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 o Fawrth 2022** | | |
| Cost Wasanaeth Gyfredol | 407 | 466 |
| Llog ar Rwymedigaethau Pensiwn | 120 | 108 |
| Treuliau Gweinyddu | 4 | 4 |
| Cost wasanaeth a fu (ennill) | - | - |
| Effaith Cwtogiadau neu Setliadau | - | - |
| Effaith terfyn uchaf asedau | - | - |
| Cyfanswm y gost bensiwn a gydnabyddir yn y SOCI | 531 | 578 |
| **Datganiad incwm cynhwysfawr arall** | | |
| Ailfesuriadau (rhwymedigaethau ac asedau) | (5,985) | (1,196) |
| Effaith terfyn uchaf asedau * | 1,221 | - |
| Cyfanswm yr ailfesuriadau a gynhwysir yn y SOCI | (4,764) | (1,196) |

* Cafodd yr ased yn 2023 ei gyfyngu i gydymffurfio ag FRS 102 paragraff 28. Dim ond i'r graddau y gall adfer y gwarged naill ai drwy gyfraniadau llai yn y dyfodol neu drwy ad-daliadau o'r cynllun y caiff endid gydnabod gwarged mewn cynllun fel ased mewn cynllun buddion diffiniedig. Nid oeddid o'r farn bod y maen prawf hwn wedi'i fodloni, ac felly ni chydnabuwyd ased.

## 21. CYNLLUN PENSIWN (PARHAD)

**Eitemau datgeliad ychwanegol**

| | Asedau ar 31 o Fawrth 2023 | | Asedau ar 31 o Fawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **%** | **£'000** | **%** |
| Soddgyfrannau | 10,453 | 74.4 | 10,787 | 72.3 |
| Bondiau llywodraeth | 70 | 0.5 | 194 | 1.3 |
| Bondiau eraill | 997 | 7.1 | 1,179 | 7.9 |
| Eiddo | 1,896 | 13.5 | 1,955 | 13.1 |
| Arian parod/hylifedd | 98 | 0.7 | 254 | 1.7 |
| Eraill | 534 | 3.8 | 552 | 3.7 |
| **Cyfanswm** | 14,048 | | 14,921 | |

**Newid yn yr ymrwymiad buddion yn ystod y flwyddyn hyd 31 o Fawrth 2023**

| | 2023 £'000 | 2022 £'000 | |
|---|---|---|---|
| Ymrwymiad buddion ar ddechrau'r flwyddyn | 19,372 | 19,182 | |
| Cost wasanaeth gyfredol | 407 | 466 | (39.4% o gyflog ynghyd â llog) |
| Llog ar ymrwymiadau pensiwn | 536 | 400 | |
| Cyfraniadau aelodau | 81 | 84 | |
| Cost wasanaeth a fu | - | - | |
| Ailfesuriad (rhwymedigaethau) | | | |
| Profiad (ennill)/colled | 1,193 | 39 | (9.3% o rwymedigaethau ar ddiwedd y cyfnod) |
| (Ennill)/colled ar ragdybiaethau | (7,784) | (383) | (60.7% o rwymedigaethau ar ddiwedd y cyfnod) |
| (Ennill)/colled ar ragdybiaethau demograffig | (517) | (150) | (4.0% o rwymedigaethau ar ddiwedd y cyfnod) |
| Cwtogiadau | - | - | |
| Setliadau | - | - | |
| Buddion/trosglwyddiadau a dalwyd | (461) | (266) | |
| Cyfuniadau busnes | - | - | |
| Ymrwymiad buddion ar ddiwedd y flwyddyn | 12,287 | 19,372 | |

**Newid yn asedau'r cynllun yn ystod y flwyddyn hyd at 31 o Fawrth 2023**

| | 2023 | 2022 | |
|---|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn | 14,921 | 13,881 | |
| Enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | 416 | 292 | |
| Ailfesuriad (asedau) | (1,123) | 702 | (8.0% asedau diwedd y cyfnod) |
| Treuliau gweinyddu | (4) | (4) | |
| Cyfuniadau busnes | - | - | |
| Setliadau | - | - | |
| Cyfraniadau cyflogwr | 218 | 232 | |
| Cyfraniadau aelodau | 81 | 84 | |
| Buddion/trosglwyddiadau a dalwyd | (461) | (266) | |
| Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | 14,048 | 14,921 | |
| **Enillion Gwirioneddol ar asedau'r cynllun** | | **(477)** | (3.4% asedau diwedd y cyfnod) |





**Crynodeb o'r rhagdybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd**

*Rhagdybiaethau ariannol*
*(Proffeil parhad cyfartalog rhwymedigaethau ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu)*

| | Dechrau'r cyfnod | Diwedd y cyfnod |
|---|---|---|
| - Cyfradd chwyddiant CPI / buddion CARE | 3.3% | 2.7% |
| - Cyfradd cynnydd mewn cyflogau | 4.8% | 4.2% |
| - Cyfradd cynnydd mewn pensiynau | 3.4% | 2.8% |
| - Cyfradd disgowntio | 2.8% | 4.8% |

**Manylion asedau'r holl gronfa**

| | Gwerth (£m) | Pennwyd ar |
|---|---|---|
| - Prisiad actiwaraidd diwethaf | 3,243 | 31 o Fawrth 2022 |
| - Dechrau'r cyfnod | 3,243 | 31 o Ionawr 2022 |
| - Diwedd y cyfnod | 3,167 | 28 o Chwefror 2023 |

## 22. PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Y mae Barcud yn cael ei reoli gan Fwrdd Rheoli (y Bwrdd) o hyd at ddeuddeg o bobl. Tenant yw un o aelodau'r Bwrdd. Darperir y tenantiaethau ar sail telerau safonol Barcud. Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, y rhent a dderbyniwyd gan yr aelodau Bwrdd sy'n denantiaid oedd £5,589. Ni all aelodau'r Bwrdd ddefnyddio eu safle er eu lles eu hunain.

Mae'r Grŵp yn cynnwys Barcud (y rhiant), Gofal a Thrwsio ym Mhowys Cyfyngedig (is-gwmni), Y Gymdeithas Gofal (is-gwmni) ac EOM (Contractwyr Trydanol) Cyf (is-gwmni). Mae gofyn statudol i Barcud Cyf fel landlord cymdeithasol cofrestredig gynhyrchu Cyfrifon Grŵp.

**Bu trafodion o fewn y Grŵp fel a ganlyn:**

**Gofal a Thrwsio ym Mhowys**

| | Anfonebwyd | Heb ei glirio 31/03/2023 |
|---|---|---|
| Anfonebau credydwyr | £16,777 | £289 |
| Anfonebau dyledwyr | £166,657 | £90,747 |

**Y Gymdeithas Gofal**

| | Anfonebwyd | Heb ei glirio 31/03/2023 |
|---|---|---|
| Anfonebau credydwyr | £47,268 | £7,402 |
| Anfonebau dyledwyr | £196,538 | £48,604 |

**EOM Cyfyngedig**

| | Anfonebwyd | Heb ei glirio 31/03/2023 |
|---|---|---|
| Anfonebau credydwyr | £2,502,887 | £13,163 |
| Anfonebau dyledwyr | £284,851 | £34,041 |

O fewn nodyn 14 mae £280,647 wedi'i gynnwys mewn croniadau a chredydwyr eraill mewn perthynas â gwaith wedi'i gontractio nas anfonebwyd.

## 23. CYTUNDEB DATBLYGU

Ymgymerodd Barcud â Chytundeb Datblygu yn gyd-ddigwyddiadol â dyddiad trosglwyddo'r stoc dai oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion (CSC), i gyflawni rhaglen wedi'i chytuno o waith adnewyddu ar yr eiddo. Gwerth y gwaith hwn oedd £71.5m (heb gynnwys TAW). Cafodd y gost i CSC o gontractio am y gwaith hwn a oedd i'w wneud ei wrthbwyso yn erbyn cynnydd cyfartal ym mhris prynu'r stoc a dalwyd gan Barcud. Caiff y gwaith wedi'i gontractio ei gyflawni dros gyfnod a ragwelir o 15 mlynedd a chaiff ei gydnabod wrth iddo gael ei wneud, yn unol â'r polisi cyfrifyddu ar gyfer atgyweiriadau mawr, cylchdröol ac ymatebol. Os digwydd bod Barcud yn dewis peidio â chwblhau'r gwaith a nodwyd, gellir terfynu'r cytundeb datblygu heb unrhyw golled ariannol i Barcud. Gweler Nodiadau 13 a 15 am y symiau a arhosai'n weddill ar 31 o Fawrth 2023.

## 24. AILGYLLIDO

Yn ystod 2021/2022, ymgymerodd Barcud Cyf ag ymarfer ailgyllido. Gosodiad preifat gydag Aberdeen Standard Investments y tynnwyd £40m ohono yn Awst 2021 a £10m eto o gyfran ohiriedig a dynnwyd i lawr yn ystod 2022/23.

Cyfanswm gwariant yr ailgyllido oedd:

| | |
|---|---|
| Gwariant a ddangosir yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr | £7,528,789 |
| Ffioedd wedi'u cyfalafu i'w rhyddhau dros oes y benthyciad | £315,430 |

## 25. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y FANTOLEN

Nid oes dim digwyddiadau ar ôl y fantolen.